RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
53/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/08/2016

# Effeithiolrwydd hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r llwybr gofal goroeswyr

## Adroddiad gwerthuso terfynol

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-4734-7099-6

Effeithiolrwydd hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r llwybr gofal goroeswyr: Adroddiad gwerthuso terfynol

Cordis Bright

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:
Jackie McDonald
Isadran Gwybodaeth ac Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1193
E-bost: Jackie.mcdonald@wales.gsi.gov.uk

**Tabl cynnwys**


Rhestr o dablau....2

Rhestr o ffigurau....3

Geirfa....4

1. Cyflwyniad....5
2. Cyd-destun polisi ac ymarfer i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern....8
3. Methodoleg....12
4. Llywodraethu hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr....17
5. Nodau ac amcanion yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr....22
6. Dull gweithredu'r hyfforddiant....25
7. Dull gweithredu Llwybr Gofal Goroeswyr....28
8. Cynnwys a strwythur yr hyfforddiant....34
9. Darparu'r hyfforddiant....48
10. Cyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr....61
11. Effaith yr hyfforddiant....73
12. Proffil dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr....82
14. Effaith y llwybr gofal goroeswyr....95
15. Cyd-effaith yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar adroddiadau gwybodaeth, ymchwiliadau ac erlyn troseddau....100
16. Casgliadau ac argymhellion....105

Llyfryddiaeth....112

Atodiad A: Termau chwilio ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth....114

Atodiad B: Sampl o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld....115

Atodiad C: Arweiniad i'r pynciau ar gyfer cyfweliadau....117

Atodiad D: Templed i ddadansoddi deunyddiau hyfforddi....120

Atodiad E: Arolwg ar-lein o hyfforddwyr....121

Atodiad F: Arolwg ar-lein o'r rhai a fynychodd hyfforddiant....125

Atodiad G: Templed astudiaeth achos Llwybr Gofal Goroeswyr....128

**Rhestr o dablau**

Tabl 2.1: pedwar maes Strategaeth Caethwasiaeth Fodern y DU ....................................... 10
Tabl 8.1: Proffil y pecyn hyfforddi atal caethwasiaeth .......................................................... 35
Tabl 8.2: Adborth gan fynychwyr hyfforddiant yng Ngwent .................................................. 40
Tabl 8.3: Sgoriau RAG ar gyfer y pecyn hyfforddi o gymharu ag arferion da ....................... 46
Tabl 11.1: Presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi 2014-2015 ................................................. 74
Tabl 16.1: Crynodeb o'r ymarfer da a nodwyd .................................................................... 106
Tabl 16.2: Crynodeb o'r argymhellion ................................................................................. 109

**Rhestr urau**


Ffigur 2.1: Atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) 2012-2015 ...............8
Ffigur 7.1: Map proses o Lwybr Gofal Goroeswyr ...............30
Ffigur 8.1: I ba raddau roedd hyfforddwyr yn cytuno â datganiadau yn ymwneud â chynnwys a strwythur cyrsiau ...............41
Ffigur 9.1: Nifer yr hyfforddwyr ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth a hyfforddwyr ymatebwyr cyntaf fesul ardal darpariaeth ...............49
Ffigur 9.2: Nifer y darparwyr hyfforddiant camfanteisio'n rhywiol ar blant fesul ardal darpariaeth ...............50
Ffigur 9.3: Nifer yr hyfforddwyr gweithredol fesul ardal darpariaeth ...............51
Ffigur 9.4: Nifer yr hyfforddwyr ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth/ymatebwyr cyntaf fesul sefydliad lle maent yn gweithio ...............52
Ffigur 9.5: I ba raddau y mae hyfforddwyr yn cytuno â datganiadau yn ymwneud â pharatoi hyfforddwyr? ...............55
Ffigur 9.6: I ba raddau roedd mynychwyr hyfforddiant yn cytuno â datganiadau am ddarparu'r cwrs? ...............58
Ffigur 10.1: Asiantaethau sy'n atgyfeirio i'r Llwybr Gofal Goroeswyr ...............62
Ffigur 10.2: Cyfanswm yr asiantaethau a fynychodd o leiaf un MARAC ...............64
Ffigur 11.1: I ba raddau roedd hyfforddwyr yn cytuno â datganiadau am effaith yr hyfforddiant ar fynychwyr? ...............75
Ffigur 11.2: I ba raddau roedd mynychwyr a holwyd yn cytuno â datganiadau am effaith y cwrs/cyrsiau hyfforddi arnynt? ...............76
Ffigur 12.1: Cyfanswm yr atgyfeiriadau i MARAC fesul rhanbarth ...............83
Ffigur 12.2: Cyfanswm yr atgyfeiriadau i MARAC fesul mis ...............84
Ffigur 12.3: Ethnigrwydd dioddefwyr/goroeswyr posibl ...............85
Ffigur 12.4: Ethnigrwydd dioddefwyr/goroeswyr posibl yn ôl rhanbarth ...............85
Ffigur 12.5: Oedran dioddefwyr/goroeswyr posibl ...............86
Ffigur 12.6: Oedran dioddefwyr/goroeswyr posibl yn ôl rhanbarth ...............87
Ffigur 12.7: Canran y dioddefwyr/goroeswyr benywaidd a atgyfeiriwyd yn 2015 ...............88
Ffigur 12.8: Y mathau honedig o gamfanteisio a wynebodd ddioddefwyr/goroeswyr posibl a atgyfeiriwyd yn 2015 ...............89
Ffigur 12.9: Y mathau honedig o gamfanteisio fesul rhanbarth ...............90
Ffigur 14.1: Canlyniadau MARAC ...............96
Ffigur 14.2 Canlyniadau ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl ...............97

**Geirfa**

| Acronym/term | Term llawn |
|---|---|
| MARAC | Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg |
| NGO | Corff Anllywodraethol |
| NRM | Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern) |
| Canolfan hyfforddiant | Platfform ar-lein sydd ar gael i ddefnyddwyr sydd ag enw defnyddiwr a chyfrinair personol |
| UKHTC | Canolfan Masnachu Pobl y DU |
| UKVI | Fisâu a Mewnfudo y DU (Y Swyddfa Gartref) |

# 1. Cyflwyniad

### Trosolwg

1.1 Comisiynwyd Cordis Bright gan Lywodraeth Cymru i werthuso dwy ffrwd waith allweddol i atal caethwasiaeth yng Nghymru: hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr.

1.2 Mae'r pecyn hyfforddi atal caethwasiaeth yn cynnwys pum cwrs a ddatblygwyd drwy ddwyn ynghyd arferion da ac arbenigedd sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru yn ymwneud â hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern. Nod y cyrsiau yw cyflwyno'r holl gynnwys perthnasol i bob darpar gynulleidfa. Dyma'r cyrsiau:

- Cwrs Dysgu dros Ginio, sef cwrs rhagarweiniol byr.
- Cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth, sef cwrs rhagarweiniol hanner diwrnod.
- Cwrs cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, sef cwrs hanner diwrnod.
- Cwrs ymatebwr cyntaf, sef cwrs undydd ar gyfer pobl sy'n gweithio fel ymatebwyr cyntaf.
- Cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern, sef cwrs tridiau ar gyfer pobl sy'n ymwneud â'r maes ymchwilio i droseddau caethwasiaeth ac erlyn troseddwyr, sy'n cael ei gyflwyno mewn Canolfan Hydra[1] yr heddlu.

1.3 Hefyd, mae cyrsiau paratoi hyfforddiant ar gael ar gyfer darpar hyfforddwyr. Mae un cwrs paratoi hyfforddiant ar gael ar gyfer y cyrsiau Dysgu dros Ginio, ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth ac ymatebwyr cyntaf, a chwrs arall ar gael ar gyfer y cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant.

1.4 Mae'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn llwybr atgyfeirio a chymorth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern. Cam cyntaf y llwybr yw atgyfeirio at un man cyswllt. Ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr/goroeswyr posibl, y man cyswllt yw gwasanaethau i blant; ar gyfer oedolion, y man cyswllt yw BAWSO, asiantaeth trydydd sector sy'n gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern. Wedyn, cynhelir Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) i ddwyn ynghyd yr holl asiantaethau a all gyfrannu at gynorthwyo'r dioddefwr/goroeswr posibl ac ymchwilio i'r drosedd honedig yn ymwneud â chaethwasiaeth. Yr heddlu

[1] I gael rhagor o wybodaeth am fethodoleg hydra ewch i: http://www.hydrafoundation.org/hydra-methodology/hydra.

sy'n cadeirio'r gynhadledd hon. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ac mae camau gweithredu yn cael eu cytuno.

1.5 Gall yr achos gael ei adolygu mewn cynadleddau dilynol a gall y broses o ymchwilio a chynorthwyo barhau, gan ddibynnu ar fanylion penodol yr achos a'r cynllun cymorth sydd ar waith ar gyfer y dioddefwr/goroeswr posibl.

**Amcanion y gwerthusiad**

1.6 Dyma amcanion y gwaith ymchwil hwn:

- Asesu'r gwaith o gyflwyno'r hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr.
- Gwerthuso i ba raddau y mae'r hyfforddiant a'r llwybr gofal yn cyfrannu at amcan Llywodraeth Cymru o wneud Cymru yn elyniaethus i gaethwasiaeth a darparu'r cymorth gorau posibl i oroeswyr.
- Nodi sut y gellid cryfhau neu newid yr hyfforddiant a'r llwybr gofal yn y dyfodol er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol.

1.7 Mae'r gwerthusiad yn archwilio'r broses o ddatblygu a chyflwyno'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae'n ceisio cymharu'r trefniadau presennol a blaenorol ar gyfer hyfforddiant a chymorth i oroeswyr. Os oes modd, mae'n archwilio effaith y ddwy ffrwd ar waith atal caethwasiaeth hefyd[2].

**Crynodeb o ganfyddiadau**

1.8 Daeth y gwerthusiad o hyd i dystiolaeth bod amrywiaeth o waith o ansawdd uchel yn mynd rhagddo yn ymwneud â hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Dywedodd llawer o randdeiliaid fod Cymru yn arwain y DU wrth ymateb i gaethwasiaeth fodern a bod pobl sy'n gweithio y tu allan i Gymru yn cydnabod y ffaith hon. Hefyd, nodwyd bod llawer o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru yn ymgais i ddatblygu arfer da yn absenoldeb arweiniad a chynsail.

1.9 Mae crynodeb o ganfyddiadau yn ymwneud â meysydd a themâu penodol wedi'u cynnwys ar ddechrau pob pennod o bennod 4 ymlaen. Mae cryfderau penodol a meysydd arferion da ymddangosiadol wedi'u cynnwys ym mhennod 16, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer gwella strategaeth a darpariaeth yn y dyfodol. Mae'r argymhellion hyn yn cynnig awgrymiadau i gryfhau'r gwaith o ansawdd uchel sy'n

[2] Nid oes modd asesu effaith gyffredinol y ddwy ffrwd oherwydd yr amrywiaeth eang o achosion, cyd-destunau a ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn ceisio archwilio effaith i'r graddau posibl.

mynd rhagddo yn y ddwy ffrwd atal caethwasiaeth hyn, a darparu tystiolaeth well ar gyfer cwmpas a chanlyniadau'r gwaith hwn.

## 2. Cyd-destun polisi ac ymarfer i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern

**Diffiniad o gaethwasiaeth fodern**


2.1 Mae caethwasiaeth yn cael ei gategoreiddio fel a ganlyn (Y Swyddfa Gartref, 2015):

- Caethwasanaeth domestig.
- Camfanteisio'n rhywiol.
- Camfanteisio ar blant.
- Camfanteisio ar weithwyr.
- Camfanteisio troseddol.
- Cywain meinweoedd/organau dynol.

**Nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern**

2.2 Un ffynhonnell ddata allweddol ynglŷn â graddfa bosibl caethwasiaeth fodern yn y DU yw nifer y dioddefwyr/goroeswyr sy'n cael eu hatgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Mae'r ffynonellau hyn yn darparu gwybodaeth am y patrymau sy'n dod i'r amlwg o safbwynt nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern a lefelau adrodd am achosion (Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Gaethwasiaeth Fodern, 2015).

**Ffigur 2.1: Atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) 2012-2015**




2.3 Mae Ffigur 2.1 yn dangos nifer y dioddefwyr/goroeswyr posibl a gafodd eu hatgyfeirio i'r NRM rhwng 2012 a 2015. Mae'r ffigurau hyn yn dod o ystadegau NRM

yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2016; Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, 2013). Bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yng Nghymru a'r DU. Mae'n debyg bod y cynnydd hwn i'w briodoli'n rhannol o leiaf i'r flaenoriaeth uwch a roddir i'r drosedd hon.

2.4 Yng Nghymru, roedd nifer yr atgyfeiriadau yn 2015 wedi cynyddu 394% o gymharu â 2012. Ledled y DU, roedd nifer yr atgyfeiriadau yn 2015 wedi cynyddu 275% o gymharu â 2012. Rhwng 2012 a 2014, roedd canran yr atgyfeiriadau ledled y DU a wnaed yng Nghymru rhwng 2.9% a 3%. Fodd bynnag, roedd y ganran hon yn 4.1% yn 2015.

2.5 Mae nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern yn debygol o fod yn uwch mewn gwirionedd gan nad oes modd adnabod llawer o ddioddefwyr/goroeswyr posibl. Mewn ymgais i amcangyfrif nifer yr achosion gwirioneddol, cynhaliwyd amcangyfrif systemau lluosog a ddaeth i'r casgliad bod nifer y dioddefwyr/goroeswyr posibl yn y DU yn 2013 rhwng 10,000 a 13,000 (Bales et al, 2015; Y Swyddfa Gartref, 2014a)[3].

2.6 Er mwyn gwella'r broses o adnabod dioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern, cyflwynodd Deddf Caethwasiaeth Fodern 'ddyletswydd i hysbysu', sydd wedi bod ar waith ers mis Tachwedd 2015. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hysbysu'r Swyddfa Gartref am unrhyw ddioddefwyr caethwasiaeth fodern posibl nad ydynt yn cydsynio i atgyfeiriad NRM[4].

**Cyd-destun deddfwriaethol y DU**

2.7 Daeth Deddf Caethwasiaeth Fodern y DU i rym yn 2015. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol, ac ynghylch masnachu pobl. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amddiffyn dioddefwyr/goroeswyr ac ar gyfer comisiynydd atal caethwasiaeth annibynnol (Y Swyddfa Gartref, 2015).

2.8 Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod y DU yn amgylchedd gelyniaethus i gaethwasiaeth fodern a gwella cymorth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr (Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Gaethwasiaeth Fodern, 2015). Hefyd, mae'n ceisio darparu eglurder o ran ymchwilio i droseddwyr caethwasiaeth fodern, a'u herlyn.

---

[3] Fodd bynnag, mae'r awdur yn cydnabod nad yw'r amcangyfrif yn fanwl gywir oherwydd cyfyngiadau'r data a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses fodelu na ellir eu dilysu (Y Swyddfa Gartref, 2014a).

[4] Mae rhagor o wybodaeth am y 'ddyletswydd i hysbysu' ar gael yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/472620/Guidance-Duty_to_notify_Home_Office_of_potential_victim_of_modern_slavery_V1.pdf

### Cyd-destun strategol, polisi ac ymarfer y DU

2.9 Mae Strategaeth Caethwasiaeth Fodern y DU yn nodi bod angen i bob partner gydweithio mewn ffordd gydgysylltiedig a strategol er mwyn lleihau nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern yn y DU yn sylweddol (Y Swyddfa Gartref, 2014b). Mae'r strategaeth yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr/goroeswyr mewn pedwar prif faes, fel y gwelir yn Tabl 2.1.

**Tabl 2.1: pedwar maes Strategaeth Caethwasiaeth Fodern y DU**

| | |
|---|---|
| Erlyn | Erlyn ac amharu ar unigolion a grwpiau sy'n gyfrifol am gaethwasiaeth fodern |
| Atal | Atal pobl rhag cymryd rhan mewn caethwasiaeth fodern |
| Amddiffyn | Cryfhau mesurau diogelu yn erbyn caethwasiaeth fodern drwy amddiffyn pobl agored i niwed yn erbyn camfantais a chynyddu ymwybyddiaeth o'r drosedd hon a'r gallu i'w gwrthsefyll |
| Paratoi | Lleihau'r niwed sy'n cael ei achosi gan gaethwasiaeth fodern drwy wella'r broses o adnabod dioddefwyr a chynorthwyo ac amddiffyn dioddefwyr yn well |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref (2014b)

### Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

2.10 Mae'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) yn cael ei ariannu a'i reoli gan y Swyddfa Gartref. Ei nod yw dileu caethwasiaeth ac amddiffyn dioddefwyr/goroeswyr. O dan y broses NRM bresennol, gall 'ymatebwyr cyntaf' atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern posibl i un o ddau 'awdurdod cymwys' sy'n ystyried a yw unigolyn yn ddioddefwr/troseddwr (Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Gaethwasiaeth Fodern, 2015).

2.11 Y ddau awdurdod cymwys sy'n penderfynu a yw unigolion sydd wedi'u hatgyfeirio yn ddioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern yw Canolfan Masnachu Pobl y DU (UKHTC) sy'n rhan o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI) sy'n rhan o'r Swyddfa Gartref. Mae UKVI yn ymdrin ag achosion y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Yn gyntaf, mae'r awdurdod cymwys yn dod i benderfyniad ar 'seiliau rhesymol' i asesu a yw'n 'credu ond yn methu profi' bod yr unigolyn yn ddioddefwr/goroeswr caethwasiaeth fodern (Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Gaethwasiaeth Fodern, 2015). Os penderfynir ar sail resymol bod unigolyn yn ddioddefwr/goroeswr caethwasiaeth fodern, mae ganddo hawl i gymorth a ariennir gan y wladwriaeth (Grŵp Monitro Atal Masnachu Pobl, 2011).

Wedyn, mae'r awdurdod cymwys yn casglu rhagor o wybodaeth i wneud penderfyniad ar 'seiliau cadarn' ynglŷn ag a yw'n 'fwy tebygol na pheidio' bod yr unigolyn yn ddioddefwr/goroeswr caethwasiaeth fodern (Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Gaethwasiaeth Fodern, 2015).

2.12 Mae'r ymatebwyr cyntaf yn cynnwys nifer o gyrff cyhoeddus, sef y Swyddfa Gartref, Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith, yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau, awdurdodau lleol, a Chyrff Anllywodraethol penodedig. Swyddogaeth yr ymatebwr cyntaf yw gwneud atgyfeiriad i wasanaethau plant neu oedolion yr awdurdod lleol fel bod modd rhoi unrhyw fesurau diogelu gofynnol ar waith. Ar ôl dechrau'r prosesau diogelu, mae'r ymatebwr cyntaf yn atgyfeirio'r plentyn neu'r oedolyn i'r NRM.

2.13 Y cyrff anllywodraethol sy'n ymatebwyr cyntaf yng Nghymru yw BAWSO a Llwybrau Newydd. Mae BAWSO yn darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl dduon a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a mathau eraill o gamdriniaeth. Hefyd, mae BAWSO yn cynnal prosiect Diogel, sy'n cynnwys unedau allgymorth ledled Cymru ac 20 uned o lety diogel[5]. Mae Llwybrau Newydd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cwnsela, eirioli a chymorth arbenigol ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan dreisio, cam-drin rhywiol a masnachu pobl.

[5] Mae BAWSO yn cael ei is-gontractio gan Fyddin yr Iachawdwriaeth i ddarparu cymorth lloches ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern yng Nghymru sydd wedi'u hatgyfeirio i'r NRM. Mae rhagor o wybodaeth am brosiect Diogel ar gael yma: http://www.bawso.org.uk/our-services/women/human-trafficking-diogel-project/

## 3. Methodoleg

### Trosolwg

3.1 Defnyddiwyd dulliau cymysg i gynnal y gwerthusiad hwn. O ganlyniad, cafodd data o ffynonellau amrywiol ei driongli er mwyn datblygu a chadarnhau canfyddiadau. Cafodd yr holl adnoddau ymchwil eu cynllunio gan Cordis Bright mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, ac fe gawsant eu cymeradwyo cyn eu defnyddio yn y maes. Mae'r fethodoleg wedi'i disgrifio isod.

### Asesiad cyflym o'r dystiolaeth o lenyddiaeth sydd ar gael i'r cyhoedd

3.2 Cynhaliwyd asesiad cyflym o'r dystiolaeth o lenyddiaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern. Mae'r termau chwilio wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Adolygwyd y canlynol:

- Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ar gyfer hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yng Nghymru.
- Data ar nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern yng Nghymru a'r DU.
- Tystiolaeth o arferion da wrth fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer goroeswyr.
- Tystiolaeth drosglwyddadwy o arferion da yn seiliedig ar waith i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

3.3 Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith atal caethwasiaeth yn gyfyngedig, ond daethpwyd o hyd i nifer fach o astudiaethau y gellir eu categoreiddio'n bennaf fel tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

### Adolygiad pen bwrdd o ddogfennau strategol a gweithredol

3.4 Cynhaliwyd adolygiad o holl ddogfennau strategol a gweithredol Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner allweddol sy'n darparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Roedd hyn yn cynnwys strwythurau llywodraethu, cynlluniau strategol, cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau blynyddol y cyd-gysylltydd atal caethwasiaeth.

### Cyfweliadau ffôn â rhanddeiliaid allweddol

3.5 Cynhaliwyd 38 o gyfweliadau ffôn lled-strwythuredig â rhanddeiliaid allweddol sy'n cynllunio ac yn darparu'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, ac â'r rhai a fynychodd y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern. Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng 6 Ionawr 2016 a 15 Chwefror 2016. Gwahoddwyd cyfanswm o

53 o randdeiliaid i gael eu cyfweld, a chafwyd cyfradd cyfranogi o 72%. Cafodd enwau'r rhanddeiliaid eu hawgrymu gan y cyd-gysylltydd atal caethwasiaeth, arweinydd yr hyfforddiant ac arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr ar sail dull samplu a awgrymwyd gan Cordis Bright i geisio canfod safbwyntiau rhanddeiliaid mewn swyddi allweddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae rolau'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld wedi'u cynnwys yn Atodiad B. Mae arweiniad i'r pynciau ar gyfer cyfweliadau wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

3.6 Dadansoddwyd y data helaeth a oedd yn deillio o'r cyfweliadau drwy ddefnyddio dull matrics ar sail damcaniaeth seiliedig. Roedd hyn yn archwilio themâu allweddol a materion cyffredin a thebyg o ran ymatebion ymatebwyr nes cyrraedd dirlawnder data. Roedd y dadansoddiad yn seiliedig ar geisio deall prosesau a chanfyddiadau yn ymwneud â hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr.

**Dadansoddiad o'r deunyddiau hyfforddi**

3.7 Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol o'r holl ddeunyddiau hyfforddi ym maes atal caethwasiaeth a gafodd Cordis Bright gan arweinydd yr hyfforddiant ar atal caethwasiaeth. Datblygwyd templed i sicrhau bod y dadansoddiad wedi'i safoni ar gyfer pob cwrs hyfforddi, ac mae'r templed wedi'i gynnwys yn Atodiad D. Ymysg y deunyddiau a adolygwyd oedd cynlluniau sesiynau, cyflwyniadau sesiynau ac amrywiaeth o adnoddau cyfryngau cymysg a ddefnyddiwyd fel rhan o'r hyfforddiant.

**Dadansoddiad o ddata monitro hyfforddiant**

3.8 Cynhaliwyd dadansoddiad o'r holl ddata monitro hyfforddiant a gyflwynwyd i Cordis Bright gan arweinydd yr hyfforddiant ar atal caethwasiaeth. Roedd hyn yn cynnwys data meintiol ar hyfforddwyr a mynychwyr hyfforddiant. Hefyd, roedd yn cynnwys data ansoddol ar ffurf adborth gan y rhai a fynychodd yr hyfforddiant.

3.9 Roedd y data a dderbyniwyd ar hyfforddwyr yn gymharol gynhwysfawr, felly hefyd yr adroddiadau blynyddol neu chwarterol ar nifer y bobl a fynychodd bob cwrs ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, roedd y data ar fynychwyr cyrsiau ar lefel ranbarthol yn llai cynhwysfawr, ac o ganlyniad nid yw cyfansymiau rhanbarthol wedi'u cynnwys.

3.10 Yn yr un modd, roedd yr adborth a gafodd Cordis Bright gan fynychwyr hyfforddiant yn llai cynhwysfawr. Roedd dyfyniadau a goladwyd gan fynychwyr hyfforddiant yn dystiolaeth anecdotaidd ddefnyddiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid oedd modd coladu'r adborth mewn ffordd systematig, ac o ganlyniad nid oes modd dod i gasgliadau ynglŷn ag a yw'n gynrychioladol.

**Arolwg ar-lein o hyfforddwyr**

3.11 Cafodd arolwg ar-lein ei e-bostio i'r 120 o hyfforddwyr a oedd ar gael i ddarparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a oedd wedi cynnwys eu cyfeiriadau e-bost[6]. Anfonodd Cordis Bright e-byst cychwynnol gyda gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg, ac yna e-byst atgoffa. Derbyniwyd 34 o ymatebion, sef cyfradd ymateb o 28%.

3.12 Mae'r holl hyfforddwyr yn darparu hyfforddiant yn wirfoddol, ac nid yw cyfran gymharol fawr o'r hyfforddwyr yn y gronfa wedi gallu darparu hyfforddiant eto[7]. Hyd yn hyn, mae 42 o'r hyfforddwyr yn y gronfa wedi darparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth. Mae 22 o'r hyfforddwyr a ymatebodd i'r arolwg wedi darparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth, sef cyfradd ymateb o 52% ymysg hyfforddwyr gweithredol.

3.13 Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddwyr a ymatebodd i'r arolwg (23) wedi'u hyfforddi i ddarparu mwy nag un o'r cyrsiau atal caethwasiaeth. Roedd 29 wedi'u hyfforddi i ddarparu'r cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth, roedd 20 yn darparu'r cwrs Dysgu dros Ginio, 15 yn darparu'r cwrs ymatebwyr cyntaf, 10 yn darparu'r cwrs cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac un yn darparu'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern.

3.14 Roedd modd cwblhau'r arolwg rhwng 25 Ionawr a 12 Chwefror 2016. Mae cwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys yn Atodiad E.

**Arolwg ar-lein o fynychwyr hyfforddiant**

3.15 Cynhaliwyd arolwg ar-lein tebyg ar gyfer mynychwyr hyfforddiant. Yn ddamcaniaethol, roedd y sampl ar gyfer yr arolwg hwn yn cynnwys pawb a oedd wedi mynychu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth ers 2013, a dosbarthwyd yr arolwg i fynychwyr hyfforddiant mewn e-bost gan y fforymau rhanbarthol. Dim ond 12 ymateb a gafwyd i'r arolwg hwn, sef cyfradd ymateb o lai na 0.01%. Oherwydd y gyfradd ymateb isel iawn, ni ellir ystyried bod ymatebion mynychwyr hyfforddiant i'r arolwg yn cynrychioli ymatebion pob ymatebydd posibl. Mae cwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys yn Atodiad F.

[6] Mae cyfanswm o 134 o hyfforddwyr ar gael, ond roedd cyfeiriadau e-bost ar gael ar gyfer 120 yn unig.
[7] Mae Pennod 8 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y rhesymau posibl pam nad yw hyfforddwyr wedi gallu darparu hyfforddiant.

**Dadansoddiad o ddata monitro yn ymwneud â'r Llwybr Gofal Goroeswyr**

3.16 Cwblhawyd dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r holl ddata monitro yn yr adroddiadau chwarterol ar y cynadleddau amlasiantaeth asesu risg a gyflwynwyd i Cordis Bright gan arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr. Roedd hyn yn cynnwys data ar atgyfeiriadau, nodweddion demograffig, materion cyflwyno, yr asiantaethau a gymerodd ran a chanlyniadau'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Nid yw'r data yn cynnwys achosion a allai fod wedi'u hatgyfeirio i'r Llwybr Gofal Goroeswyr ond nid i gynhadledd amlasiantaeth asesu risg, fel atgyfeiriadau a oedd yn amhriodol ym marn staff BAWSO.

3.17 Roedd data ar gael ar gyfer pob rhanbarth o fis Chwefror 2015 ymlaen, ac mae ystod y data a gofnodwyd ar gyfer pob rhanbarth yn gymharol gyson. Fodd bynnag, roedd y dyddiadau cychwyn ar gyfer y data yn amrywio rhwng rhanbarthau. Roedd data ar gyfer Caerdydd a'r Fro ar gael o fis Ebrill 2014 ymlaen; roedd data ar gyfer Gwent, Dyfed Powys a Merthyr a Bae'r Gorllewin ar gael o fis Hydref 2014 ymlaen, ac roedd data ar gyfer Gogledd Cymru ar gael o fis Chwefror 2015 ymlaen. Y rheswm am hyn yw'r ffaith fod y Llwybr Gofal Goroeswyr wedi'i gyflwyno ar adegau gwahanol ym mhob rhanbarth, a'r ffaith fod yr amser rhwng cyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr a'r achos cyntaf a gafodd ei atgyfeirio i gynhadledd amlasiantaeth asesu risg wedi amrywio ym mhob rhanbarth.

**Astudiaethau achos ar lwybrau drwy'r Llwybr Gofal Goroeswyr**

3.18 Cafodd chwe astudiaeth achos anhysbys eu datblygu i ddarparu gwybodaeth am y llwybrau posibl i mewn a thrwy'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Paratowyd yr astudiaethau achos gan asiantaethau sy'n gweithio gyda'r dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n destun yr astudiaethau achos. Defnyddiwyd templed a ddatblygwyd gan Cordis Bright i gasglu'r data, ac mae'r templed wedi'i gynnwys yn Atodiad G. Wedyn, aeth Cordis Bright ati i ddadansoddi'r astudiaethau achos er mwyn nodi themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.

**Awgrymiadau ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol**

3.19 Gallai dulliau o gymharu gweithgarwch atal caethwasiaeth yng Nghymru ac mewn gwledydd neu ranbarthau eraill wella unrhyw waith ymchwil posibl yn y dyfodol. Gallai hyn arwain at ragor o dystiolaeth i gefnogi barn rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod Cymru yn arwain y ffordd yn y DU, ac yn Ewrop i ryw raddau. Hefyd, gallai gynnig dysgu ychwanegol ar gyfer Cymru os yw arferion da yn cael eu nodi mewn llefydd eraill. Aed ati i chwilio am dystiolaeth o ymarfer mewn gwledydd a

rhanbarthau eraill drwy'r adolygiad llenyddiaeth, ond nid oedd yn ymddangos yng nghanlyniadau'r chwilio. Roedd dulliau eraill o archwilio ymarfer a chanlyniadau mewn gwledydd a rhanbarthau eraill y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn.

# 4. Llywodraethu hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr

**Trosolwg**

4.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu strwythur llywodraethu hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Hefyd, mae'n crynhoi gwerthusiadau'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld o'r strwythur llywodraethu a pha mor dda y mae'n gweithredu, gan gynnwys awgrymiadau i wella'r strwythur yn y dyfodol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

4.2 Mae'r broses o lywodraethu hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn mynd rhagddi fel rhan o strwythur llywodraethu cyffredinol gwaith atal caethwasiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys grwpiau arwain a grwpiau gweithredol amlasiantaeth ar lefel genedlaethol a fforymau amlasiantaeth ar lefel ranbarthol. Ceir cyd-gysylltydd atal caethwasiaeth ar gyfer Cymru gyfan ac ail gydgysylltydd atal caethwasiaeth ar gyfer y Gogledd.

4.3 Mae tystiolaeth o ddogfennau a chyfweliadau yn awgrymu bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer hyfforddiant yn glir a bod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn deall y trefniadau yn dda. Fodd bynnag, nid yw trefniadau ar gyfer llywodraethu'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar lefel ranbarthol yn cael eu deall yn dda gan randdeiliaid, a oedd yn eu dehongli yn wahanol.

**Strwythur llywodraethu cyffredinol ar gyfer gwaith atal caethwasiaeth yng Nghymru**

*Trefniadau llywodraethu*

4.4 Mae'r broses o lywodraethu meysydd hyfforddiant a Llwybr Gofal Goroeswyr gwaith atal caethwasiaeth yng Nghymru yn mynd rhagddi fel rhan o'r strwythur llywodraethu cyffredinol ar gyfer gwaith atal caethwasiaeth yng Nghymru, sy'n rhan o isadran diogelwch cymunedol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys tair haen.

4.5 Mae Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru yn cynnwys sawl asiantaeth ac mae'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith atal caethwasiaeth yng Nghymru. Hefyd, mae'n casglu tystiolaeth ynglŷn â natur a graddfa'r broblem. Mae'r grŵp arwain yn cynnwys unigolion strategol allweddol, fel y cydgysylltydd atal caethwasiaeth. Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd wedi creu swydd o'r fath.

4.6 Mae asiantaethau ac adrannau eraill sy'n cael eu cynrychioli ar y grŵp arwain yn cynnwys: Is-adrannau Diogelwch Cymunedol a Diogelu Llywodraeth Cymru, yr heddlu, y Swyddfa Gartref, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Uned Cudd-

wybodaeth Ranbarthol Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau, BAWSO, Fforwm Cyrff Anllywodraethol Atal Caethwasiaeth Cymru, Rhwydwaith Cyfiawnder Cymunedol Cymru, awdurdodau lleol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, 2015). Mae'r grŵp arwain yn cynnwys dau is-grŵp, y naill ar gyfer hyfforddiant a'r llall ar gyfer cudd-wybodaeth ar y cyd.

4.7 Mae'r Grŵp Gweithredol Atal Caethwasiaeth yn gweithredu o dan y grŵp arwain. Fe'i sefydlwyd gan y grŵp arwain ym mis Mai 2014 er mwyn goruchwylio a chydgysylltu gwaith pum Fforwm Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol yng Nghymru a hwyluso'r gwaith o rannu arferion da (Chapman, 2014).

4.8 Mae'r pum Fforwm Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol yn gwasanaethu Caerdydd a'r Fro, Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a Bae'r Gorllewin[8]. Mae aelodau'r fforymau yn cynnwys cynrychiolwyr ar lefelau gweithredol o'r un sefydliadau â'r grŵp arwain. Mae'r fforymau hyn yn cyfarfod bob chwarter ac maent yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant lleol ar godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo mentrau i fynd i'r afael â chaethwasiaeth a chynorthwyo goroeswyr yn unol â Chynllun Cyflenwi 2015-2016. Hefyd, maent yn mynd ati i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth (Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, 2015).

4.9 Mae cydgysylltydd atal caethwasiaeth dynodedig yn gweithio yn y Gogledd hefyd. Ariennir y swydd hon gan Gronfa Cydweithredu Cymru ac fe'i bwriadwyd fel prosiect braenaru i'w efelychu o bosibl mewn rhanbarthau eraill. Daw'r cyllid presennol i ben ym mis Mawrth 2016.

*Gwerthusiadau rhanddeiliaid*

4.10 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn gallu disgrifio'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, sy'n dangos bod y trefniadau hyn wedi'u cyfleu'n glir i'r rhanddeiliaid. Hefyd, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y trefniadau yn briodol. Yn benodol, nodwyd bod y dull haenog yn darparu cysylltiad uniongyrchol rhwng strategaeth ac ymarfer ac yn galluogi dulliau cyfathrebu clir rhwng y rhai sy'n gweithio ar lefel ranbarthol a'r rhai sy'n gweithio ar lefel genedlaethol. Nododd rhai uwch randdeiliaid

[8] Nodwyd yn ystod cyfarfod lansio'r gwerthusiad hwn (ym mis Hydref 2015) y byddai chweched fforwm rhanbarthol yn cael ei sefydlu ym Mhontypridd a Merthyr Tudful. Fodd bynnag, ni chyfeiriwyd at hyn gan y rhanddeiliaid a gymerodd ran mewn cyfweliadau gwerthuso.

mai'r strwythurau llywodraethu ffurfiol hyn ar gyfer gwaith caethwasiaeth fodern yw'r cyntaf o'u bath yn y DU.

**Llywodraethu hyfforddiant**

4.11 Sefydlodd y grŵp arwain arweinydd amcanion strategol ar gyfer darpariaeth weithredol (cyfeirir at yr unigolyn hwn fel yr arweinydd hyfforddiant yn yr adroddiad hwn). Yr arweinydd hyfforddiant presennol yw Kim-Ann Williamson, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltu Cymunedol Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru. Mae Kim-Ann yn arwain strategaeth hyfforddiant ar atal caethwasiaeth Cymru ac yn cadeirio is-grŵp hyfforddiant ar atal caethwasiaeth Cymru, a sefydlwyd gan y grŵp arwain hefyd. Yn dilyn cyfweliadau â'r arweinydd hyfforddiant a'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth, nodwyd nad yw'r swydd arweinydd hyfforddiant yn cael ei hariannu, ac felly mae'n cael ei gwneud yn wirfoddol, ochr yn ochr â swydd lawn-amser am dâl. Mae'r arweinydd hyfforddiant yn gyfrifol am oruchwylio'r canlynol:

- Datblygu cyrsiau hyfforddi.
- Recriwtio hyfforddwyr i ddarparu'r cyrsiau.
- Monitro presenoldeb mewn cyrsiau.
- Monitro adborth ar gyrsiau.

4.12 Mae'r is-grŵp hyfforddiant yn cefnogi gwaith yr arweinydd hyfforddiant, yn enwedig ym maes datblygu cyrsiau hyfforddi newydd mewn ymateb i adborth a bylchau dynodedig mewn hyfforddiant.

4.13 Mae'r fforymau rhanbarthol yn cyflawni swyddogaeth allweddol ym maes darparu hyfforddiant. Maent yn gyfrifol am recriwtio pobl i gymryd rhan mewn cyrsiau lleol, ac am eu darparu. Hefyd, maent yn gyfrifol am asesu ac ymateb i anghenion hyfforddi lleol. Mae hyn yn cynnwys targedu hyfforddiant sydd eisoes ar gael i'r grwpiau sydd ei angen fwyaf. Hefyd, mae'n cynnwys darparu adborth i'r grŵp gweithredol am fylchau yng nghynnwys yr hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod modd datblygu neu addasu cyrsiau.

4.14 Roedd yn ymddangos bod y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn deall y trefniadau llywodraethu ar gyfer hyfforddiant yn dda, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu eu cyfleu yn glir. Mae hyn yn awgrymu bod y trefniadau wedi'u hesbonio'n glir i'r rhanddeiliaid.

4.15 Fel sy'n wir am y strwythur llywodraethu cyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer hyfforddiant yn briodol ac yn effeithiol. Yn benodol, nododd y rhanddeiliaid fod y trefniadau yn llwyddo i hyrwyddo ymrwymiad ymysg yr holl asiantaethau perthnasol ar lefel ranbarthol.

**Llywodraethu'r Llwybr Gofal Goroeswyr**

4.16 Mae'r grŵp arwain a'r grŵp gweithredol yn llywodraethu'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar lefel genedlaethol. Yn debyg i'r maes hyfforddiant, sefydlodd y grŵp arwain arweinydd ar gyfer y Llwybr Gofal Goroeswyr i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r llwybr. Deilydd y swydd hon ar hyn o bryd yw Angelina Rodriques, Dirprwy Brif Weithredwr BAWSO. Eto, yn debyg i'r arweinydd hyfforddiant, nid yw'r swydd yn cael ei hariannu, ac felly mae'n cael ei gwneud yn wirfoddol, ochr yn ochr â swydd lawn amser am dâl.

4.17 Mae cylch gorchwyl MARAC y Llwybr Gofal Goroeswyr yn awgrymu bod grwpiau rheoli gweithredol wedi'u sefydlu ar gyfer y MARAC. Rôl y grŵp hwn yw sicrhau bod y MARAC yn gweithredu'n effeithiol a bod yr holl brosesau wedi'u sefydlu mewn arferion lleol. Rhagwelir na fydd angen i'r grwpiau hyn barhau ar ôl i'r prosesau MARAC gael eu sefydlu'n llwyddiannus ym mhob rhanbarth (Cylch Gorchwyl MARAC Masnachu Pobl ac Atal Caethwasiaeth Bae'r Gorllewin, 2014).

4.18 Cadarnhaodd arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr fod y grwpiau rheoli gweithredol hyn yn bodoli fel is-grwpiau i'r fforymau rhanbarthol a'u bod wedi cyfarfod yn rheolaidd. Cyfeirir atynt yn aml fel 'cyfarfodydd llwybr gofal goroeswyr' er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt â'r grŵp gweithredol atal caethwasiaeth ar lefel genedlaethol. Yn ogystal, cadarnhaodd uwch randdeiliaid fod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y fforymau rhanbarthol.

4.19 Fodd bynnag, ni chyfeiriodd y rhanddeiliaid ehangach a gafodd eu cyfweld at y grwpiau rheoli gweithredol neu at 'gyfarfodydd llwybr gofal goroeswyr' mewn ymateb i gwestiynau am y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Llwybr Gofal Goroeswyr ar lefel ranbarthol. Yn wahanol i'r maes hyfforddi, ni chyfeiriodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid at y fforymau rhanbarthol yng nghyswllt y Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae hyn yn awgrymu nad yw rhanddeiliaid yn ymwybodol o rôl y fforymau rhanbarthol yng nghyswllt y Llwybr Gofal Goroeswyr ac nad ydynt yn gwybod bod y grwpiau rheoli gweithredol yn gyfrifol am helpu i roi'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar waith ar lefel ranbarthol.

4.20 Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn meddwl bod unigolion/grwpiau gwahanol yn gyfrifol am ddarpariaeth a pherfformiad parhaus, gan gynnwys arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr, y grŵp arwain, y cyd-gysylltydd atal caethwasiaeth, y fforymau rhanbarthol, byrddau diogelu lleol, BAWSO a’r heddlu.

4.21 Roedd pedwar o’r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod yr holl asiantaethau perthnasol yn gyfrifol am gynnal y broses MARAC. Roeddent yn tueddu i gredu bod cynnal y MARAC yn ddull o sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd gofal ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl sy’n agored i niwed.

4.22 Yn y dyfodol, byddai’n fanteisiol sicrhau bod dulliau rhanbarthol o lywodraethu’r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael eu cyfleu’n glir i randdeiliaid ehangach fel eu bod yn deall ac yn gallu cyfleu’r trefniadau hyn.

# 5. Nodau ac amcanion yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr

### Trosolwg

5.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu nodau ac amcanion yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Hefyd, mae'n crynhoi'r gwerthusiad o'r nodau ac amcanion gan y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

5.2 Mae'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn ddwy elfen allweddol o'r strategaeth atal caethwasiaeth yng Nghymru. Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn deall bod yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn feysydd gwaith ategol sydd â phrif amcan o wneud Cymru'n elyniaethus i gaethwasiaeth fodern.

5.3 Yn ôl y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld, prif amcan yr hyfforddiant yw cynyddu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a sut i fynd i'r afael â hi. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, roedd y rhanddeiliaid yn credu bod angen i'r hyfforddiant ddarparu lefel briodol o wybodaeth a sgiliau i sicrhau bod pob cynulleidfa bosibl yn gallu adnabod caethwasiaeth fodern a gweithredu mewn ymateb iddi. Gallai hyn gynnwys atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl i gael cymorth, trosglwyddo gwybodaeth i asiantaethau sy'n ymchwilio i gaethwasiaeth, darparu cymorth, neu ymchwilio i ddrwgweithredwyr a'u herlyn yn uniongyrchol.

5.4 Nodwyd bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn ategu'r hyfforddiant oherwydd ei fod yn ceisio darparu llwybr atgyfeirio clir ar gyfer y rhai sy'n adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern. Yn ôl y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld, prif amcan y Llwybr Gofal Goroeswyr yw gwella diogelwch a chymorth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl drwy gyflwyno cynllun amlasiantaeth, holistaidd sy'n canolbwyntio ar bobl er mwyn eu cynorthwyo.

### Hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr fel nodau ac amcanion cyffredinol y cynllun cyflenwi cenedlaethol

5.5 Datblygu a darparu'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yw dau o amcanion y cynllun cyflenwi ar gyfer gwaith atal caethwasiaeth yng Nghymru, sef (Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, 2015):

- Darparu a datblygu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth Cymru.
- Darparu a datblygu Llwybr Gofal Goroeswyr atal caethwasiaeth Cymru.

5.6 O’r herwydd, mae sicrhau bod yr hyfforddiant a’r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael eu darparu yn llwyddiannus yn hanfodol i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o wneud Cymru yn elyniaethus i gaethwasiaeth fodern.

5.7 Bydd darparu’r hyfforddiant a’r Llwybr Gofal Goroeswyr hefyd yn cyfrannu at gyflawni amcanion eraill y cynllun cyflenwi, sef (Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, 2015):

- Gwella ymwybyddiaeth o wybodaeth am gaethwasiaeth a sicrhau ei bod ar gael.
- Mynd i’r afael â cham-fanteisio’n rhywiol ar blant.
- Mesurau ataliol i fynd i’r afael â cham-fanteisio ar weithwyr yng Nghymru.
- Datblygu’r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru er mwyn ymgysylltu â throseddwyr/dioddefwyr troseddau yn ymwneud â chaethwasiaeth.
- Lleihau achosion o gam-fanteisio ar bobl drwy buteindra.

**Nodau ac amcanion cyffredin yr hyfforddiant a’r Llwybr Gofal Goroeswyr**

5.8 Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn deall bod yr hyfforddiant a’r Llwybr Gofal Goroeswyr yn feysydd gwaith ategol sydd â’r prif amcan o wneud Cymru yn elyniaethus i gaethwasiaeth fodern. Cafodd y ffaith hon ei chrynhoi gan un rhanddeiliad, a ddywedodd: ‘Ni all y Llwybr Gofal Goroeswyr fodoli heb hyfforddiant. Mae’r naill yn hanfodol i oroesiad y llall. Ni all pobl wneud atgyfeiriadau os nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant. Os nad yw pobl yn mynychu’r MARAC, ni fydd yr hyfforddiant yn effeithiol oherwydd na fydd gan hyfforddwyr brofiad ymarferol o achosion.’

**Nodau ac amcanion penodol yr hyfforddiant**

5.9 Cafwyd consensws cadarn ymysg y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ynglŷn â nodau ac amcanion y ddarpariaeth hyfforddiant. Y prif nodau ac amcanion a fynegwyd oedd:

- Sicrhau bod agwedd gydlynus, gyson a chydgysylltiedig at hyfforddiant ledled Cymru ac ym mhob asiantaeth.
- Codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern ymysg pob cynulleidfa yng Nghymru, o’r cyhoedd i weithwyr proffesiynol arbenigol.
- Sicrhau bod gan gynulleidfaoedd sy’n derbyn hyfforddiant lefel briodol o wybodaeth i’w helpu i adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth

fodern, atgyfeirio achosion i fod yn destun ymchwiliad, a chynorthwyo ac ymgymryd â'r ymchwiliad.

- Sicrhau bod gan yr holl weithlu iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol a gweithwyr perthnasol eraill yng Nghymru fynediad hwylus i hyfforddiant cynaliadwy a fforddiadwy ar gaethwasiaeth fodern.
- Cynyddu adroddiadau gwybodaeth, ymchwilio i, ac erlyn troseddau yn ymwneud â chaethwasiaeth.

**Nodau ac amcanion penodol y Llwybr Gofal Goroeswyr**

5.10 Yn ôl Llywodraeth Cymru, prif nodau ac amcanion y Llwybr Gofal Goroeswyr yw datblygu gweithdrefnau systematig i gynnig cymorth amlasiantaeth sydd wedi'i gydgysylltu'n dda ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern (Griffiths, 2014).

5.11 Yn ogystal, cyfeiriodd llawer o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld at y nodau ac amcanion canlynol:

- Gwella'r gwaith o ddiogelu a chynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl drwy gyflwyno cynllun unigol ar gyfer goroeswyr sy'n nodi sut y bydd gwasanaethau cofleidiol yn cael eu darparu gydol y broses er mwyn helpu goroeswyr i ddychwelyd i fywyd arferol (Chapman, 2014: 6).
- Creu gweithdrefn atgyfeirio syml ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n hawdd i'w chyfleu a'i deall gan ddarpar atgyfeirwyr.
- Cynyddu nifer yr erlyniadau yn ymwneud â chaethwasiaeth.
- Darparu gwybodaeth fwy cywir am nifer y dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n cael eu cefnogi drwy sicrhau bod modd coladu data ar y rhai nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.
- Monitro a pharhau i ddarparu gwasanaethau wrth symud ymlaen, diolch i brosesau casglu a rhannu gwybodaeth.

## 6. Dull gweithredu'r hyfforddiant

### Trosolwg

6.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu dull gweithredu cyffredinol yr hyfforddiant. Hefyd, mae'n crynhoi gwerthusiad y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld o'r dull gweithredu.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

6.2 Mae'r hyfforddiant yn ymwneud â datblygu a darparu pecyn haenog o gyrsiau hyfforddi sy'n ceisio diwallu anghenion cynulleidfaoedd gwahanol. Mae'r cyrsiau'n cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'u darparu am ddim ar gyfer y gynulleidfa ehangaf bosibl. Defnyddir model hyfforddi'r hyfforddwr i recriwtio a pharatoi hyfforddwyr.

6.3 Gofynnodd y grŵp gweithredol atal caethwasiaeth i is-grŵp hyfforddiant ddatblygu'r pecyn hyfforddi presennol gan fod trefniadau hyfforddi blaenorol yn annigonol ac yn anghyson.

6.4 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn cymeradwyo'r dull gweithredu hwn, gan nodi bod ei botensial i sicrhau cysondeb ym maes hyfforddi ledled Cymru yn gryfder penodol.

### Y dull gweithredu cyfredol

6.5 Ategir y dull hyfforddi gan strategaeth hyfforddiant ac ymwybyddiaeth 2015-2017 yr is-grŵp hyfforddiant (Is-grŵp Hyfforddiant Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, 2015). Mae'n ymwneud â datblygu a darparu pecyn haenog o gyrsiau hyfforddi sy'n ceisio diwallu anghenion cynulleidfaoedd gwahanol. Mae manylion strwythur y pecyn hyfforddi a chynnwys y cyrsiau wedi'u nodi ym mhennod 7.

6.6 Mae'r cyrsiau'n cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'u darparu am ddim ar gyfer y gynulleidfa ehangaf bosibl. Defnyddir model hyfforddi'r hyfforddwr i recriwtio a pharatoi hyfforddwyr. Fel rhan o hyn, mae hyfforddwyr yn darparu hyfforddiant yn wirfoddol, naill ai fel unigolion neu yn dilyn cytundeb â'u cyflogwyr.

6.7 Yn ogystal, mae'r grŵp arwain wedi nodi nifer o gamau gweithredu eraill yn ymwneud â'r amcan hyfforddi yn y cynllun cyflenwi, a nodir bod pob un o'r rhain wedi'u cyflawni neu eu bod ar waith. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth yn cael ei gyflwyno i'r cwricwlwm ar gyfer myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys myfyrwyr sy'n astudio i fod yn weithwyr cymdeithasol, meddygon, nyrsys, bydwragedd a gweithwyr ieuenctid. Yn ogystal, mae'r ymrwymiad i ddatblygu cynllun gweithredu

2016-2017 sy'n seiliedig ar argymhellion y gwerthusiad hwn yn dangos bwriad y Grŵp Arwain i sicrhau rhagor o lwyddiant a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella (Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, 2015).

6.8 Mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu yng nghyd-destun gwaith ehangach i godi proffil caethwasiaeth fodern yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth o sut i adnabod ac ymateb i gaethwasiaeth fodern. Er enghraifft, mae tudalennau gwe atal caethwasiaeth Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am gaethwasiaeth fodern a sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hi (Llywodraeth Cymru, 2015).

6.9 Roedd Wythnos Atal Caethwasiaeth Cymru ym mis Hydref 2015 yn canolbwyntio ar addysg mewn ysgolion a gwaith gyda'r heddlu yn ymwneud â diwydiannau penodol a allai ddefnyddio caethwasiaeth fodern. Mae dulliau codi ymwybyddiaeth eraill yn cynnwys hysbysebion teledu, sticeri ar gyfer tacsis, posteri, a mynychu digwyddiadau a sioeau.

**Sail resymegol ar gyfer y dull gweithredu cyfredol**

6.10 Datblygwyd y dull hyfforddi cyfredol am ddau reswm allweddol. Yn bennaf, roedd y trefniadau blaenorol ar gyfer hyfforddiant yn annigonol, gan arwain at anghysondebau o safbwynt argaeledd a chynnwys hyfforddiant. Arweiniodd y trefniadau hyn at ddiffyg ymwybyddiaeth gyson o gaethwasiaeth fodern ymysg gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, a oedd yn methu adnabod a chynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl o ganlyniad. Yn ail, nodwyd bod y dull haenog o hyfforddiant lle mae cyrsiau unigol yn targedu cynulleidfaoedd penodol yn enghraifft o ymarfer da.

6.11 Hefyd, roedd sail resymegol benodol ar gyfer datblygu'r cwrs ar droseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern. Roedd uwch swyddogion ymchwilio a oedd yn gweithio ar eu hachos caethwasiaeth fodern cyntaf eisiau dod o hyd i dystiolaeth o arferion da wrth ymchwilio i'r troseddau hyn. Nodwyd nad oedd tystiolaeth o'r fath o arferion da yn bodoli. O ganlyniad, datblygwyd y cwrs i ddwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd o ymchwiliadau cynharach a darparu arweiniad ymarferol ar gyfer swyddogion ymchwilio a'r rhai sy'n erlyn troseddau caethwasiaeth fodern.

**Datblygu'r dull gweithredu cyfredol**

6.12 Eglurodd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod y gwaith o ddatblygu'r pecyn hyfforddi presennol yn cael ei arwain gan yr is-grŵp hyfforddiant, hynny ar gais y grŵp arwain. Er bod y darlun cyffredinol yn dangos darpariaeth anghyson, roedd yr is-grŵp yn cydnabod bod gan rai sefydliadau ac ardaloedd arbenigedd ym maes mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a'u bod yn darparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth sy'n cynnwys arferion da. Ymysg yr enghreifftiau o hyn oedd BAWSO, Llwybrau Newydd, Coleg yr Heddlu a Bwrdd Partneriaeth Caerdydd.

6.13 Aeth yr is-grŵp ati i ddwyn ynghyd yr arbenigedd hwn a'r deunyddiau hyn i ddatblygu'r cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth ac ymatebwyr cyntaf cychwynnol, a gyflwynwyd ledled Cymru maes o law. Datblygwyd y cwrs hwn fel y cwrs sylfaenol i godi ymwybyddiaeth gyffredinol ymysg amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd proffesiynol a chyhoeddus.

6.14 Datblygwyd y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern i fynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod ymchwilwyr ac erlynwyr troseddau caethwasiaeth yn derbyn hyfforddiant arbenigol. Datblygwyd y cwrs dysgu dros ginio yn 2014 i ymateb i'r angen am fersiwn mwy cryno o'r cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd nad oedd ganddynt gymaint o amser i'w neilltuo ar gyfer hyfforddiant. Datblygwyd y cwrs ar gam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn 2015 mewn ymateb i fwlch a nodwyd yn y pecyn hyfforddi cyffredinol.

**Gwerthusiadau rhanddeiliaid o'r dull gweithredu**

6.15 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y dull hyfforddi cyfredol yn briodol a'i fod yn cael ei gyfleu'n glir i'r rhanddeiliaid perthnasol. Nodwyd bod y pwyslais ar sicrhau cysondeb ym maes hyfforddiant ym mhob ardal yn gryfder penodol.

# 7. Dull gweithredu Llwybr Gofal Goroeswyr

## Trosolwg

7.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu dull gweithredu cyffredinol y Llwybr Gofal Goroeswyr. Hefyd, mae'n crynhoi gwerthusiad y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld o'r dull gweithredu.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

7.2 Mae'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cynnig llwybr atgyfeirio ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern. Datblygwyd y dull gweithredu yng Nghaerdydd a gofynnwyd i BAWSO ei gyflwyno ledled Cymru. Mae'n cael ei grynhoi ar fap proses un dudalen y mae modd ei rannu â gweithwyr proffesiynol. Mae'n canolbwyntio ar atgyfeiriadau i un pwynt cyswllt ac yna galw MARAC. Mae gwybodaeth sy'n cael ei rhannu yn y MARAC yn galluogi gweithwyr proffesiynol i asesu risg a chreu cynllun cymorth teilwredig, amlasiantaeth a chyfannol ar gyfer pob dioddefwr/goroeswr posibl. Hefyd, gall y wybodaeth hwyluso'r broses o ymchwilio i drosedd yn ymwneud â chaethwasiaeth.

7.3 Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod natur syml y llwybr yn ei gwneud yn hawdd i weithwyr proffesiynol ddeall ble a sut i atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl. Hefyd, nodwyd bod y broses o ddefnyddio MARACs yn gryfder oherwydd bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr yn gyfarwydd â'r dull gweithredu hwn. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y broses o gyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar lefel genedlaethol wedi mynd rhagddi yn rhy gyflym. Ym marn y rhanddeiliaid hyn, byddai cyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr mewn ffordd arafach wedi golygu bod modd dysgu gwersi o'i gyflwyno'n gynnar er mwyn gwella'r broses o'i gyflwyno mewn ardaloedd eraill maes o law.

## Y dull gweithredu cyfredol

7.4 Mae'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn darparu llwybrau i atgyfeirio a chynorthwyo oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern. Mae Ffigur 7.1 yn dangos y map proses ar gyfer y Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae tri llwybr allweddol tuag at y Llwybr Gofal Goroeswyr. Os yw'r sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad yn credu bod y dioddefwr/goroeswr posibl mewn perygl uniongyrchol, mae'n atgyfeirio'r achos i'r heddlu. Mewn achosion lle na chredir bod y


dioddefwr/goroeswr posibl mewn perygl uniongyrchol, caiff plant eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau plant a chaiff oedolion eu hatgyfeirio i BAWSO.

7.5 Yn ogystal â chydymffurfio â'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, y 'ddyletswydd i hysbysu' a dyletswyddau amddiffyn plant, mae'r llwybr yn canolbwyntio ar MARAC Masnachu Pobl ac Atal Caethwasiaeth. Mae'r MARAC yn darparu fforwm i drafod achosion posibl o gaethwasiaeth fodern, ac mae asiantaethau lluosog yn cyfnewid gwybodaeth drwy'r Protocol Rhannu Gwybodaeth er mwyn datblygu cynllun gweithredu amlasiantaeth (Cylch Gorchwyl MARAC Masnachu Pobl ac Atal Caethwasiaeth Bae'r Gorllewin, 2014).

7.6 Mae'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn creu cynllun amlasiantaeth, teilwredig i gynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern. Mae'n sicrhau bod modd cynnig cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr posibl p'un ai a ydynt yn cydsynio i atgyfeiriad Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ai peidio. Hefyd, mae'n golygu bod cymorth yn gallu parhau o dan drefniadau ariannu cenedlaethol neu leol ar ôl y cyfnod 45 diwrnod cychwynnol o fyfyrio a gwella.

7.7 Yn ogystal â datblygu'r Llwybr Gofal Goroeswyr a'r MARACs sy'n cael eu defnyddio i'w roi ar waith, nododd y grŵp arwain gam gweithredu allweddol arall o fewn amcan Llwybr Gofal Goroeswyr cynllun cyflenwi 2015-16. Mae'r cam hwn yn canolbwyntio ar ddod o hyd i eiddo sy'n addas i greu canolfannau derbyn ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr lluosog posibl a gwneud trefniadau i'w defnyddio yn ôl y gofyn (Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, 2015).

## Ffigur 7.1: Map proses o Lwybr Gofal Goroeswyr



**Sail resymegol y dull gweithredu cyfredol**

7.8 Cyn cyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr, nid oedd unrhyw weithdrefn glir i'w dilyn i gefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern. Roedd plant yn derbyn cymorth o dan drefniadau diogelu cyffredinol, ond nid oedd y trefniadau hyn yn cynnwys llawer o wybodaeth am fasnachu, ac roedd llawer o staff ym maes gwasanaethau plant heb unrhyw brofiad o ymdrin â'r math hwn o gamdriniaeth. O ganlyniad, sylweddolodd asiantaethau a oedd eisoes yn cefnogi dioddefwyr/goroeswyr posibl y byddai'n fanteisiol sefydlu llwybr clir i'w ddilyn gan weithwyr proffesiynol os oedd ganddynt bryderon am ddioddefwr/goroeswr posibl.

7.9 Yn ogystal, nid oedd y sefydliadau lluosog a oedd yn gweithio ar achos posibl o gaethwasiaeth fodern yn rhannu gwybodaeth yn fanwl neu'n amserol bob amser, ac nid oeddent yn mynd ati i gynllunio ar y cyd bob amser i gefnogi dioddefwyr/goroeswyr posibl. O ganlyniad, roedd yn amlwg bod angen cynnwys prosesau rhannu gwybodaeth a chymorth amlasiantaeth yn y llwybr hwn er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

7.10 Yn ogystal, sylweddolodd asiantaethau lleol nad oedd y cyfnod 45 diwrnod ar gyfer myfyrio a gwella, sy'n cael ei gynnig i'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, yn ddigon bob tro i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. O ganlyniad, sefydlwyd y Llwybr Gofal Goroeswyr fel modd o sicrhau bod cymorth yn parhau mewn ffordd fwy strwythuredig pan ddaw'r cyfnod 45 diwrnod i ben.

7.11 Eglurodd nifer o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld fod elfen MARAC y Llwybr Gofal Goroeswyr wedi'i dewis oherwydd bod llawer o weithwyr proffesiynol ym maes cam-drin domestig eisoes yn deall ac yn gwerthfawrogi'r elfen hon.

7.12 Penderfynwyd disgrifio'r Llwybr Gofal Goroeswyr fel 'llwybr' a pheidio â defnyddio'r term 'MARAC' yn y brandio cychwynnol. Byddai hyn yn gwahaniaethu rhwng y Llwybr Gofal Goroeswyr a'r MARACs cam-drin domestig sydd eisoes yn bodoli, ac yn pwysleisio na fyddai modd ymchwilio i ddioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern a'u cefnogi fel rhan o'r MARACs cam-drin domestig.

**Datblygu'r dull gweithredu cyfredol**

7.13 Roedd Bwrdd Partneriaeth Caerdydd, BAWSO, Llwybrau Newydd, Cymru Ddiogelach a Heddlu De Cymru wedi datblygu'r model Llwybr Gofal Goroeswyr mewn ymateb i angen lleol am gymorth amlasiantaeth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl. Defnyddiwyd y model hwn fel templed, a'i gyflwyno'n genedlaethol maes o law. Mae wedi bod ar waith yn llawn ym mhobman yng Nghymru ers mis Ebrill 2015.

7.14 Penodwyd Dirprwy Brif Weithredwr BAWSO yn arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod cyfraniad hanfodol asiantaethau'r trydydd sector at adnabod a chynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern (Griffiths, 2014).

7.15 Felly, BAWSO oedd yn bennaf gyfrifol am gyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Er mwyn rhoi'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar waith ym mhob ardal mor fuan â phosibl, mabwysiadwyd agwedd ymarferol at y broses o'i gyflwyno. Roedd hyn yn golygu bod BAWSO yn defnyddio cysylltiadau a rhwydweithiau a oedd eisoes yn bodoli i geisio hyrwyddo a datblygu cysyniad y Llwybr Gofal Goroeswyr. Roedd pob ardal yn gallu addasu'r Llwybr Gofal Goroeswyr ychydig i gyd-fynd â'r gweithdrefnau lleol a oedd eisoes yn bodoli, a gwnaed diwygiadau ar sail adborth.

**Gwerthusiadau rhanddeiliaid o'r dull gweithredu**

7.16 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod dull gweithredu'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn addas oherwydd bod ganddo'r gallu i wella canlyniadau yn ymwneud â chymorth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl, ymchwilio i achosion, a gwaith amlasiantaeth.

7.17 Ym marn y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid, mae'r ffaith fod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn ddigon syml i'w fapio ar un dudalen yn debygol o'i wneud yn hygyrch i ddarpar atgyfeirwyr. Hefyd, nododd sawl rhanddeiliad fod dull gweithredu'r MARAC yn un o gryfderau'r Llwybr Gofal Goroeswyr oherwydd bod gweithwyr proffesiynol perthnasol eisoes yn ei ddeall.

7.18 Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod cyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn ategu'r broses o ddarparu'r pecyn hyfforddi oherwydd bod angen i'r rhai sy'n mynychu hyfforddiant wybod mai'r Llwybr Gofal Goroeswyr yw'r llwybr atgyfeirio.

7.19 Fodd bynnag, dechreuodd y gwaith o gyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn gymharol fuan ar ôl ei gyflwyno yng Nghaerdydd a'r Fro. Roedd lleiafrif bach o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y grŵp arwain wedi rhoi rhywfaint o bwysau arnynt i gyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn genedlaethol ac nad oedd y cynllun peilot yng Nghaerdydd wedi'i sefydlu'n ddigon hir i ddysgu gwersi cyn ei roi ar waith mewn rhannau eraill o Gymru.

7.20 Roedd un uwch randdeiliad yn teimlo bod cysyniadau'r Llwybr Gofal Goroeswyr fel llwybr wedi bod yn amhriodol o bosibl mor gynnar yn y broses. Yn ôl y rhanddeiliad hwn, nid bwriad gwreiddiol y llwybr oedd cynllunio'r daith yn ei chyfanrwydd ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl, ond yn hytrach adlewyrchu'r broses sy'n galluogi ymarferwyr i atgyfeirio achosion mewn MARAC er mwyn asesu'r risg.[9]

[9] Dangosodd trafodaeth ddilynol gydag arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr, yr arweinydd hyfforddiant a'r cyd-gysylltydd atal caethwasiaeth fod y gwaith i ddatblygu rhannau olaf y llwybr yn parhau. Mae hyn yn debygol o gynyddu yn sgil y ffaith fod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn ei ffurf bresennol wedi'i gyflwyno ac wrthi'n cael ei sefydlu.

# 8. Cynnwys a strwythur yr hyfforddiant

## Trosolwg

8.1 Mae'r bennod hon yn adolygu cynnwys a strwythur pob cwrs hyfforddi a'r pecyn hyfforddi yn ei gyfanrwydd. Hefyd, mae'n cymharu'r cyrsiau hyfforddi a'r pecyn hyfforddi ag ymarfer da a nodwyd mewn adolygiad llenyddiaeth.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

8.2 Mae cynnwys a strwythur y pecyn hyfforddi cyffredinol a'r cyrsiau unigol yn gryfder. Mae'r adolygiad o'r deunyddiau hyfforddi yn dangos bod y cynnwys yn ffeithiol gywir a'i fod yn cael ei ddiweddaru. Mae'r cynulleidfaoedd targed a'r canlyniadau dysgu arfaethedig yn cael eu nodi'n glir. Mae'r dulliau darparu yn addas i'r cynulleidfaoedd targed ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod y deunydd yn ystyried gwahaniaethau lleol. Mae yna dystiolaeth gadarn bod y pecyn hyfforddi yn cael ei newid yn unol ag anghenion y cynulleidfaoedd targed, er y gellid rhoi mwy o ryddid i hyfforddwyr unigol addasu sesiynau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.

8.3 Mae'r pecyn hyfforddi yn ymgorffori'r rhan fwyaf o elfennau'r arferion da sy'n cael eu hargymell yn y llenyddiaeth berthnasol. Roedd yr hyfforddwyr a'r mynychwyr hyfforddiant a holwyd a'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn ategu canfyddiadau'r adolygiad o ddeunyddiau hyfforddi. Gellid cryfhau'r elfen lwyddiannus hon o'r hyfforddiant ymhellach drwy weithredu'r argymhellion yn ymwneud â chynnwys a strwythur yr hyfforddiant.

## Proffil y pecyn hyfforddi

8.4 Mae Tabl 8.1 yn crynhoi canfyddiadau Cordis Bright yn ymwneud â chynnwys a strwythur y cyrsiau hyfforddi unigol.

**Tabl 8.1: Proffil y pecyn hyfforddi atal caethwasiaeth**

| | Dysgu dros Ginio | Ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth | Ymatebwr cyntaf | Troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern | Canfanteisio'n rhywiol ar blant |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodau ac amcanion** | • Codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio ar bobl<br>• Deall rôl a chyfrifoldeb eich sefydliad wrth fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl | • Disgrifio'r gwahanol fathau o Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl<br>• Dangos dealltwriaeth o'r rhesymau pam y mae pobl yn dod yn ddioddefwyr/goroeswyr<br>• Adnabod arwyddion a dangosyddion dioddefwr/goroeswr posibl<br>• Deall pam nad yw dioddefwyr/goroeswyr yn fodlon dweud wrth bobl am eu profiadau<br>• Dangos dealltwriaeth o sut i atgyfeirio dioddefwr/goroeswr posibl ar gyfer cymorth a chyngor | • Disgrifio masnachu pobl<br>• Egluro deddfwriaeth a pholisïau yn ymwneud â masnachu pobl<br>• Adnabod unigolyn sydd wedi cael ei fasnachu<br>• Egluro rôl asiantaethau lleol a chenedlaethol ym maes masnachu pobl<br>• Ystyried sut mae masnachu pobl yn effeithio ar unigolion<br>• Nodi cyfrifoldebau ar gyfer ymateb i faterion masnachu pobl<br>• Cwblhau ffurflen Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer plant ac oedolion | • Datblygu dulliau ymchwilio<br>• Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i erlyn achosion masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern[10] | Erbyn diwedd y cwrs, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn gallu:<br>• Adnabod arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac arwyddion bod person ifanc mewn perygl<br>• Egluro eu rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â Chanllawiau Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol<br>• Adnabod y cysylltiad rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu pobl<br>• Dangos sut i asesu plentyn neu berson ifanc sydd mewn perygl drwy ddefnyddio adnodd SERAF[11] |

[10] Mae rhagor o amcanion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar y cyd ac amcanion penodol Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi'u nodi yng nghyflwyniad nodau ac amcanion cwrs Ymarferiad Hydra Troseddu Cyfundrefnol ar y Cyd Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron
[11] Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF) gweler: http://www.barnardos.org.uk/barnardo_s_cymru_sexual_exploitation_risk_assessment_framework_report_-_english_version-2.pdf

| | Dysgu dros Ginio | Ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth | Ymatebwr cyntaf | Troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern | Canfanteisio’n rhywiol ar blant |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynulleidfa targed** | Unrhyw un sy’n byw ac yn gweithio yng Nghymru | Unrhyw un sy’n byw ac yn gweithio yng Nghymru | • Yr Heddlu a’r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig<br>• Llu Ffiniau’r DU<br>• Fisâu a Mewnfudo’r Swyddfa Gartref<br>• Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau<br>• Awdurdodau Lleol<br>• Iechyd<br>• Byddin yr Iachawdwriaeth<br>• BAWSO<br>• Barnardo’s Cymru<br>• Llwybrau Newydd<br>• Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant | • Uwch Swyddogion Ymchwilio (yr Heddlu)<br>• Uwch Erlynwyr y Goron<br>• Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau<br>• Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | Unrhyw un sy’n gweithio gyda phobl ifanc neu sy’n dod i gysylltiad â phobl ifanc |
| **A yw’r cynnwys yn ffeithiol gywir ac yn gyfoes?** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **Mae’r cynnwys yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru** | Adolygiad chwarterol | Adolygiad chwarterol ac yn dilyn datblygiad cyfreithiol neu ddatblygiad polisi penodol | Adolygiad chwarterol ac yn dilyn datblygiad cyfreithiol neu ddatblygiad polisi penodol | Adolygiad chwarterol a diweddariad ar ôl pob cwrs | Adolygiad chwarterol |

| | Dysgu dros Ginio | Ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth | Ymatebwr cyntaf | Troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern | Canfanteisio'n rhywiol ar blant |
|---|---|---|---|---|---|
| **A yw'r cynnwys yn berthnasol i gynulleidfaoedd targed?** | Ydy. Mae'r cwrs yn cynnwys y cyfle i gynnwys adran fer ar achosion go iawn er mwyn 'dod â'r pwnc yn fyw' | Ydy | Ydy | Ydy. Mae cyfranogwyr yn cwblhau ymarferiad Hydra (enghraifft o achos amser real) | Ydy |
| **A yw'r dulliau gweithredu yn addas ar gyfer cynulleidfaoedd targed?** | Ydyn. Maent yn addas ar gyfer sesiwn gwybodaeth fer | Ydyn. Mae'r cwrs yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol, clipiau DVDs, astudiaethau achos bywyd go iawn, clipiau o'r cyfryngau a gwaith grŵp | Ydyn. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i gynnwys dulliau dysgu amrywiol, gan gynnwys clipiau DVDs a gwaith mewn grwpiau bach | Ydyn. Ymarferiad Hydra yw'r cwrs | Ydyn. Mae'r cwrs yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol, clipiau DVDs ac astudiaethau achos |
| **Mae'r deunydd yn ystyried gwahaniaethau lleol rhwng gweithgarwch atal caethwasiaeth** | Mae yna botensial i'r cwrs byr hwn gyfeirio at enghreifftiau lleol | Mae yna botensial i deilwra'r cwrs i ryw raddau drwy gyfeirio at enghreifftiau lleol priodol | Nid yw'n cynnwys gwybodaeth leol mewn ffordd strwythuredig, er y gall hyfforddwyr unigol ddewis trafod hyn | Mae'r cwrs yn cynnwys profiad Heddlu'r Gogledd neu Heddlu'r De, ac mae siaradwyr gwadd yn rhannu gwybodaeth leol | Mae yna gyfle ar ddiwedd y cwrs i'r cyfranogwyr ystyried sut y dylid gweithredu eu hymatebion lleol |
| **A oes digon o wybodaeth a chymhelliant i ennyn diddordeb unigolion yn yr agenda atal caethwasiaeth?** | Oes, ar gyfer sesiwn gwybodaeth fer | Mae'r cwrs yn cynnwys achosion a gafodd eu herlyn yn llwyddiannus, gwaith yr heddlu ac adroddiadau'r wasg i helpu cyfranogwyr i deimlo bod y pwnc yn 'un byw' lle y gallant 'wneud gwahaniaeth' | Mae'n amlygu rôl ymatebwyr cyntaf yn glir, yn cynnwys clipiau cymhelliant, ac yn amlygu rhwystrau ac anawsterau personol dioddefwyr/goroeswyr y gall ymatebwyr cyntaf gorfod eu hwynebu | Ymarferiad Hydra, siaradwyr gwadd a darparu deddfwriaeth berthnasol, canllawiau a pholisi Gwasanaeth Erlyn y Goron ar fasnachu pobl | Mae'n cynnwys fframweithiau perthnasol, clipiau cymhelliant, astudiaethau achos, ac yn trafod profiadau gweithwyr proffesiynol. |

| | Dysgu dros Ginio | Ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth | Ymatebwr cyntaf | Troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern | Canfanteisio’n rhywiol ar blant |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y tebygolrwydd y bydd yr hyfforddiant yn cyflawni ei nodau/amcanion/ deilliannau dysgu bwriedig** | Yn debygol o’u cyflawni, ar sail amcanion codi ymwybyddiaeth cyffredinol | Yn debygol o’u cyflawni, ond byddai ‘llawlyfr cwrs’ ar gyfer cyfranogwyr yn helpu i sefydlu’r dysgu, gan wella’r cyngor cywir a chynhwysfawr sy’n cael eu darparu ar gyfer pobl sy’n dod i gysylltiad â dioddefwr/goroeswr posibl | Yn debygol o’u cyflawni. Mae cyfranogwyr yn gwneud ‘gwaith cartref’ ar ôl yr hyfforddiant er mwyn derbyn eu ‘Dyfarniad Masnachu Pobl’, gan sicrhau bod ymgysylltiad yn parhau pan ddaw’r hyfforddiant i ben. O ganlyniad, mae modd ‘gwirio’ eto a ydynt wedi deall protocolau’r Mecanwaith Atgyfeirio yn ddigonol | Yn debygol o’u cyflawni, ar sail cwblhau ymarferiad Hydra, monitro ac adborth gan hyfforddwyr | Yn debygol o’u cyflawni, ond byddai ‘llawlyfr cwrs’ yn helpu i sefydlu’r dysgu drwy gyfuno’r holl daflenni fel pwynt cyfeirio i’w ddefnyddio’n ymarferol gan y cyfranogwyr |

### Nodau ac amcanion y cyrsiau

8.5 Mae nodau ac amcanion y cyrsiau wedi'u nodi'n glir yn y deunyddiau hyfforddi. Hefyd, roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn deall ac yn mynegi'r nodau a'r amcanion hyn, sy'n awgrymu bod diben pob cwrs hyfforddi a'r cysylltiadau rhyngddynt wedi'u cyfleu'n effeithiol i'r rhai sy'n cynllunio ac yn darparu'r hyfforddiant.

### Cywirdeb y cynnwys ac amlder adolygiadau

8.6 Dangosodd yr adolygiad o'r deunyddiau hyfforddi fod cynnwys y cyrsiau yn gywir ac yn gyfoes. Dangosodd y cyfweliad â'r arweinydd hyfforddiant fod cynnwys yr hyfforddiant yn cael ei adolygu bob chwarter ac ar ôl datblygiad polisi neu ddeddfwriaethol penodol. Cadarnhawyd y ffaith hon yn ystod y cyfweliadau â hyfforddwyr gweithredol, a nododd eu bod yn derbyn diweddariadau i'r deunydd hyfforddi mewn e-byst pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud. Fodd bynnag, dywedodd lleiafrif o'r hyfforddwyr a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (pump) y byddai'n ddefnyddiol derbyn diweddariadau mwy rheolaidd ar elfennau astudiaethau achos y cyrsiau ac ar ystadegau.

8.7 Cyfeiriodd lleiafrif o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld at ganolfan hyfforddi ar-lein sydd wedi'i datblygu,[12] gan egluro bod deunyddiau cyrsiau ar gyfer hyfforddwyr yn cael eu cadw yno, a bod modd lanlwytho fersiynau wedi'u diweddaru yn ôl y gofyn. Cadarnhaodd arweinydd yr hyfforddiant fod y ganolfan yn bodoli ond nad yw'n gweithio'n llawn ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol datblygu'r ganolfan hon fel dull effeithlon o ledaenu diweddariadau i hyfforddwyr, a mynychwyr hyfforddiant o bosibl.

8.8 Mae adolygiad o ddeunyddiau'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern yn dangos bod y deunyddiau wedi'u diwygio i gynnwys 'dysgu am yr ymchwiliad' fel rhan o amcanion Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r dulliau sy'n cael eu defnyddio yn ymchwiliadau'r heddlu. Mae hyn yn dangos bod cynnwys y cwrs yn cael ei ddiweddaru ar sail adborth.

### Cynnwys y pecyn hyfforddi cyffredinol

8.9 Mae'r dadansoddiad o'r deunyddiau hyfforddi yn dangos bod yr hyfforddiant cyffredinol yn darparu cynnwys cynhwysfawr a phriodol, yn enwedig o safbwynt cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, fel cwblhau'r ffurflen Mecanwaith

[12] Platfform ar-lein yw hwn sydd ar gael i hyfforddwyr sydd ag enw defnyddiwr a chyfrinair personol.

Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer y cwrs Ymatebwyr Cyntaf, a chynnwys fframweithiau perthnasol y cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant. Hefyd, roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod yr hyfforddiant yn gynhwysfawr ac yn addas i'r diben. Mae'r arolwg hyfforddiant yn cadarnhau'r canfyddiadau cadarnhaol yn ymwneud â chynnwys yr hyfforddiant, gan fod y rhan fwyaf o'r hyfforddwyr a holwyd (23) yn teimlo nad oedd unrhyw fylchau yng nghynnwys hyfforddiant ar atal caethwasiaeth yng Nghymru.


8.10 Mae dadansoddiad o 32 o ffurflenni adborth ar hyfforddiant a ddarparwyd yng Ngwent yn cynnig cipolwg ar adborth gan fynychwyr. Ceir crynodeb o'r adborth yn nhabl 8.2.

**Tabl 8.2: Adborth gan fynychwyr hyfforddiant yng Ngwent**

| Mesur | Sgôr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Niwtral | Cytuno | Cytuno'n gryf |
| Cyflawnwyd yr amcanion y cytunwyd arnynt | | | | 8 | 24 |
| Roedd y cynnwys yn briodol ac yn berthnasol | 1 | | 4 | 3 | 24 |
| Roedd y tiwtor yn glir | | | 2 | 14 | 16 |

8.11 Mae Tabl 8.2 yn dangos bod 32 o fynychwyr (100%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod amcanion y cwrs wedi'u cyflawni. Roedd 27 o fynychwyr (84%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod cynnwys y cwrs yn briodol ac yn berthnasol. Roedd 30 o fynychwyr (94%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod tiwtor y cwrs yn glir.

**Ffigur 8.1: I ba raddau roedd hyfforddwyr yn cytuno â datganiadau yn ymwneud â chynnwys a strwythur cyrsiau**




8.12 Mae Ffigur 8.1 yn dangos bod gan y rhan fwyaf o'r hyfforddwyr a holwyd agwedd gadarnhaol at gynnwys a strwythur y cwrs/cyrsiau roeddent yn gyfarwydd â nhw. Mae hyn yn ategu canfyddiadau'r adolygiad o ddeunyddiau hyfforddi.

8.13 Awgrymodd yr hyfforddwyr a holwyd welliannau posibl ar gyfer y cyrsiau. Roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn yn ymwneud â'r cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth, ac roedd wyth hyfforddwr yn teimlo bod modd gwella cynnwys y cwrs. Roedd un feirniadaeth yn cyfeirio at ganfyddiad bod y cwrs yn cynnwys gormod o ddeunydd ac y gellid ei wneud yn fyrrach (tri hyfforddwr). Mae adolygiad o ddeunyddiau hyfforddi'r cwrs hwn yn cadarnhau'r ffaith fod llawer o wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn amser byr. Ategwyd hyn gan nifer o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld, a ddywedodd fod cynnwys y cwrs hwn yn gallu bod yn llethol.

8.14 Hefyd, roedd dau hyfforddwr yn teimlo bod yr hyfforddiant yn rhy ragnodol ac nad yw'n galluogi hyfforddwyr i deilwra'r hyfforddiant i bob cynulleidfa. Ategwyd hyn gan nifer o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld, a nododd fanteision teilwra'r hyfforddiant i'r ardal a'r gynulleidfa, ond a ddywedodd nad oes llawer o gyfle i wneud hynny oherwydd cynnwys yr hyfforddiant presennol[13].

[13] Dangosodd sgwrs â'r arweinydd hyfforddiant fod y grŵp arwain a'r grŵp gweithredol yn ymwybodol o'r pryderon hyn. Fodd bynnag, mae natur gymharol ragnodol cynnwys yr hyfforddiant yn gysylltiedig â'r ffaith fod y pecyn hyfforddi yn cyd-fynd â Fframwaith Hyfforddi Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i gyrsiau ddilyn fformat safonol er mwyn cael eu hachredu fel rhan o'r fframwaith hwn.

8.15 Dywedodd rhai hyfforddwyr a gafodd eu cyfweld eu bod yn gwneud newidiadau yn anffurfiol, heb gytuno arnynt â'r is-grŵp hyfforddiant. Mae hyn yn amlygu blaengaredd ar ran yr hyfforddwyr, ond mae'n arwain at ddau berygl posibl. Yn gyntaf, gall y cynnwys sydd wedi'i addasu fod yn anghywir neu hepgor elfennau allweddol. Yn ail, gall y cynnwys sydd wedi'i addasu fod wedi gwella'r cynnwys gwreiddiol, ond ni fydd yn cael ei rannu â hyfforddwyr eraill oherwydd ei fod yn cael ei ddarparu ar sail ad hoc.

8.16 Hefyd, daeth ambell i awgrym am welliannau i'r amlwg yn sgil y cyfweliadau â rhanddeiliaid. Er enghraifft, awgrymodd un rhanddeiliad y gellid cyfuno elfennau o gynnwys y cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth â chynnwys y cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant ar gyfer cynulleidfaoedd nad oes angen cymaint o wybodaeth arnynt ac nad oes ganddynt ddigon o amser i fynychu dwy sesiwn hyfforddi ar wahân.

**Cynnwys llais dioddefwyr/goroeswyr**

8.17 Daeth yr adolygiad o'r deunyddiau hyfforddi i'r casgliad fod llais dioddefwyr/goroeswyr wedi'i gynnwys yn y cyrsiau camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymatebwyr cyntaf ac ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth, yn bennaf drwy glipiau ffilm[14]. Yn ogystal, mae'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern wedi cynnwys llais dioddefwyr/goroeswyr yn uniongyrchol drwy wahodd dioddefwr/goroeswr masnachu pobl i'r cwrs i siarad â mynychwyr hyfforddiant.

8.18 Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod llais dioddefwyr/goroeswyr yn cael ei glywed yn ystod yr hyfforddiant. Ar y llaw arall, dywedodd tua thraean o'r rhanddeiliaid nad yw'r dioddefwyr/goroeswyr yn cyfrannu at gynllunio'r hyfforddiant, neu nad oeddent yn gwybod a oedd dioddefwyr/goroeswyr yn cyfrannu a sut oedd hynny'n digwydd. Dywedodd dau o'r rhanddeiliaid hyn eu bod yn ffyddiog bod safbwyntiau dioddefwyr/goroeswyr wedi'u cynnwys yn ddigonol gan fod yr hyfforddiant wedi'i gynllunio gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr yn uniongyrchol.

**Diwallu anghenion cynulleidfaoedd targed posibl**

[14] Er enghraifft, mae'r cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys dwy ffilm, 'Caught in Traffick' (a grëwyd gan Fforwm Ieuenctid Merthyr Tydfil) a 'Hidden' (a grëwyd gan Barnardo's Cymru ar y cyd â BBC Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru). Mae'r cwrs ymatebwyr cyntaf yn cychwyn drwy ofyn i'r cyfranogwyr gau eu llygaid a gwrando ar 'stori Nok' sy'n adrodd hanes dioddefwr/goroeswr masnachu mewn pobl unigol.

8.19 Roedd y cynulleidfaoedd targed ar gyfer pob cwrs wedi'u dogfennu'n glir yn y deunyddiau hyfforddi. Hefyd, roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn eu deall a'u cyfleu yn rheolaidd.

8.20 Mae dadansoddiad o'r deunyddiau hyfforddi yn cynnwys tystiolaeth sy'n awgrymu bod yr hyfforddiant cyffredinol yn diwallu anghenion pob cynulleidfa targed bosibl. Mae'r cwrs Dysgu dros Ginio a'r cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth yn targedu cynulleidfaoedd eang iawn, ac o ganlyniad gallant gynnig hyfforddiant rhagarweiniol i bobl sydd â swyddogaethau a phrofiadau amrywiol. Yn ogystal, mae'r cwrs Dysgu dros Ginio yn enghraifft o ddatblygu'r pecyn hyfforddi mewn ffordd sy'n ymateb i angen y gynulleidfa, gan fod y cwrs wedi'i ddatblygu i ddiwallu anghenion pobl nad oes ganddynt ddigon o amser i fynychu cwrs tair awr.

8.21 Hefyd, mae cwrs ar-lein byr, pwrpasol ar gael yn ymwneud â masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu[15]. Nid yw'r cwrs hwn yn rhan o'r pecyn hyfforddi cenedlaethol. Fodd bynnag, dywedodd uwch randdeiliaid fod y cwrs hwn yn ategu'r pecyn oherwydd ei fod yn cynnig dull arall o ddarparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth i swyddogion a staff yr heddlu. Er enghraifft, mae 16,000 o staff Heddlu Gwent wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.

8.22 Mae cyfweliadau â'r arweinydd hyfforddiant a'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth yn dangos bod y pecyn hyfforddi cyffredinol yn cael ei ddatblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion darpar gynulleidfaoedd targed newydd. Maent yn amlygu cynlluniau i addasu'r cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth ar gyfer gweithwyr gwestai yn benodol, gyda gwesty'r Celtic Manor yn arwain, er mwyn canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i'r sector gwestai. Mae'r cwrs ymatebwyr cyntaf a'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern yn enghreifftiau o gyrsiau sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion gweithwyr proffesiynol penodol. Er enghraifft, mae cynnwys a dull cyflwyno'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern wedi'u teilwra i'r gynulleidfa targed. Mae'r ymarferiad Hydra yn ymwneud ag achos 'amser real' person ar goll, lle mae cyfranogwyr yn derbyn adroddiad ar berson ar goll y mae angen iddynt ymchwilio iddo. Ar ôl hyn, cofnodir gwybodaeth ar adegau penodol, gan gynnwys datganiadau tystion, ffotograffau a diweddariadau cyfrifiadurol yr heddlu. Mae'n rhaid i gyfranogwyr lunio cofnodion penderfyniadau sy'n cael eu monitro gan hyfforddwyr.

---

[15] Darperir y cwrs hwn drwy becynnau e-ddysgu NCALT: http://www.ncalt.com/

8.23 Yn ôl dau randdeiliad a gafodd eu cyfweld, mae'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern wedi'i ddisgrifio fel cwrs arloesol gan Grŵp o Arbenigwyr ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl (GRETA[16]), un o fentrau Cyngor Ewrop. Yn ogystal, nododd pedwar rhanddeiliad fod uwch swyddogion ymchwilio o heddluoedd y tu allan i Gymru yn mynychu'r cwrs hwn, sy'n dystiolaeth bod parch mawr at y cwrs hwn a bod pobl yn credu ei fod yn diwallu angen hyfforddiant nad yw'n cael ei ddiwallu gan gyrsiau lleol sydd ar gael i'r heddluoedd hyn.

8.24 Yn ôl mwyafrif y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld, mae'r hyfforddiant presennol yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r cynulleidfaoedd, ac mae'r hyfforddiant yn adlewyrchu ac yn ymateb i'r gwahanol fathau o gamfanteisio ar ddioddefwyr/goroeswyr.

8.25 Fodd bynnag, roedd lleiafrif o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod y pecyn hyfforddi wedi'i deilwra'n ormodol i weithwyr proffesiynol, fel gweithwyr rheng flaen, ac nad oedd mor addas i'r cyhoedd neu bobl ifanc o ganlyniad. Yn yr un modd, dywedodd bron i draean (naw) o'r hyfforddwyr a gwblhaodd yr arolwg ar-lein nad yw anghenion hyfforddi cynulleidfaoedd posibl yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Sylwodd dau hyfforddwr fod bwlch yn bodoli o ran diwallu anghenion pobl ifanc, gan nodi bod angen datblygu hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc yn benodol yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern o bob math, gan ganolbwyntio ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

8.26 Mewn ymateb i'r angen ymddangosiadol hwn, dywedodd asiantaeth ymatebwyr cyntaf ym Mae'r Gorllewin ei bod yn darparu hyfforddiant ataliol ar gyfer pobl ifanc. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cwrs Dysgu dros Ginio ar gyfer pobl dros 18 oed a phecyn hyfforddi cryno ar gyfer pobl ifanc 14-17 oed. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Cynllun Gwarchod Cymdogaeth a'r cynllun cymorth i ddioddefwyr er mwyn annog eu staff i fynychu hyfforddiant.

**Cymharu'r pecyn hyfforddi â thystiolaeth o arferion da**

8.27 Mae tystiolaeth ymchwil ym meysydd atal caethwasiaeth a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn nodi arferion da mewn darpariaeth hyfforddiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o sut i adnabod a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Y bwriad yw sicrhau bod modd adnabod dioddefwyr/goroeswyr mewn ffordd gyson, gynnar ac effeithiol er mwyn rhoi cymorth iddynt ac ymchwilio i achosion. Mae'r graddau y mae pob cwrs hyfforddi

[16] https://www.coe.int/t/dghl/monitoring/trafficking/Docs/Monitoring/GRETA_en.asp

penodol a'r pecyn hyfforddi cyffredinol yn dilyn arferion da wedi'u hasesu a'u dangos yn Nhabl 8.3.

8.28 Mae hyn yn darparu tystiolaeth bod cyrsiau hyfforddi atal caethwasiaeth penodol a'r pecyn hyfforddi cyffredinol yn dilyn canllawiau arferion da yn y rhan fwyaf o'r meysydd. Yn ogystal, dywedodd yr arweinydd hyfforddiant ei bod yn clywed yn rheolaidd gan gynrychiolwyr o ardaloedd o Loegr a gwledydd Ewrop sy'n awyddus i ddysgu o strategaeth ac ymarfer atal caethwasiaeth yng Nghymru. Dywedodd fod cynrychiolwyr Senedd Ewrop wedi cysylltu â hi hefyd.

8.29 Y prif feysydd posibl i'w datblygu yw:

- Ystyried a ddylai rhai cyrsiau hyfforddi fod yn orfodol ar gyfer grwpiau o weithwyr proffesiynol penodol.
- Darparu'r pecyn hyfforddi cyfan fel rhan o gynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus i hwyluso dysgu cynaliadwy ac eang.
- Parhau i weithio tuag at achredu holl gyrsiau'r pecyn hyfforddi o fewn Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gyda phob cwrs yn cael ei raddio yn ôl meini prawf cymhwysedd[17].
- Datblygu darpariaeth i sicrhau hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gyfer ymarferwyr, a sicrhau bod eu gwybodaeth yn cael ei diweddaru.

8.30 Mae adroddiad Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru yn nodi ymrwymiad i ddatblygu cynllun gweithredu 2016-2017 ar sail argymhellion y gwerthusiad hwn, sy'n dangos bwriad i ddatblygu'r llwyddiant a mynd i'r afael â meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn golygu bod yna botensial i'r ddarpariaeth hyfforddi atal caethwasiaeth fodloni pob canllaw ymarfer da yn y dyfodol.

[17] Mae cyfweliadau â'r cyd-gysylltydd atal caethwasiaeth a'r arweinydd hyfforddiant yn awgrymu bod hyn eisoes ar waith.

**Tabl 8.3: Sgoriau RAG ar gyfer y pecyn hyfforddi o gymharu ag arferion da**

| Elfen arferion da | Dysgu dros Ginio | Ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth | Ymatebwyr Cyntaf | Troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern | Camfanteisio'n rhywiol ar blant | Pecyn hyfforddi cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o gaethwasiaeth fodern[18]** | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| **Darparu hyfforddiant ym maes adnabod dioddefwyr/goroeswyr fel bod modd eu hadnabod yn gynnar ac yn effeithiol[19]** | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| **Cynnwys llais y dioddefwr/goroeswr[20]** | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| **Darparu hyfforddiant penodol yn ymwneud â masnachu plant[21]** | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| **Darparu hyfforddiant amlasiantaeth i hwyluso ymyrraeth gydgysylltiedig[22]** | Amherthnasol | ● | ● | ● | ● | ● |
| **Darparu hyfforddiant cyson o ansawdd uchel sy'n cael ei fonitro[23]** | ● | ● | ● | ● | ● | ● |

[18] Y Ganolfan ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol (2013)
[19] Y Ganolfan ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol (2013 a 2015) a (Doherty a Morley (2013)
[20] Bokhari a Kelly (2010) a De Angelis (2014)
[21] Hynes (2015) a Pearce (2011)
[22] Todres (2010) a Rigby et al. (2012)
[23] Y Sefydliad Masnachu Pobl (2013)

| Elfen arferion da | Dysgu dros Ginio | Ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth | Ymatebwyr Cyntaf | Troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern | Camfanteisio’n rhywiol ar blant | Pecyn hyfforddi cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu hyfforddiant fel rhan o gynlluniau Datblygiad Proffesiynol Parhaus i alluogi dysgu cynaliadwy ac eang[24]** | 🟡 | 🟡 | 🟡 | 🟢 | 🟡 | 🟡 |
| **Darpariaeth haenog o hyfforddiant arbenigol wedi’i theilwra ar gyfer cynulleidfaoedd targed[25]** | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| **Darparu hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gyfer ymarferwyr[26]** | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 |

[24] Y Sefydliad Masnachu Pobl (2013)
[25] Llywodraeth Cymru (2012)
[26] Y Swyddfa Gartref (2011 a 2012)

## 9. Darparu'r hyfforddiant

### Trosolwg

9.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau yn ymwneud â darparu hyfforddiant. Mae'n crynhoi nifer yr hyfforddwyr sydd ar gael i ddarparu'r hyfforddiant ac yn archwilio eu dulliau recriwtio a pharatoi. Mae'n ystyried tystiolaeth yn ymwneud â sicrhau ansawdd, hyrwyddo a gweinyddu hyfforddiant, ac yn pwyso a mesur a yw'r strwythurau hyfforddi presennol yn gallu ymateb i'r galw cynyddol.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

9.2 Mae ychydig dros 40 o hyfforddwyr yn mynd ati i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth/ymatebwyr cyntaf. Roedd 132 o hyfforddwyr wedi'u hyfforddi i ddarparu'r cyrsiau hyfforddi hyn, ond mae llawer ohonynt wedi'i chael yn anodd eu darparu, yn bennaf oherwydd natur wirfoddol darparu hyfforddiant a diffyg amser. Mae 52 o hyfforddwyr ar gael i ddarparu'r cwrs ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond nid ydynt wedi darparu'r cwrs eto. Ymddengys nad yw rhai ardaloedd a sefydliadau wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gronfa hyfforddwyr. Yn ogystal, gall y cyfuniad o bwll cymharol fach o hyfforddwyr a'r model gwirfoddol a ddefnyddir i ddarparu'r hyfforddiant roi hyfforddwyr gweithredol dan bwysau wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng y galw am hyfforddiant a'u gwaith am dâl. Ar hyn o bryd, gall hyn gael effaith negyddol ar allu'r hyfforddiant i ymateb i'r galw cynyddol.


9.3 Yn gyffredinol, mae hyfforddwyr yn nodi eu bod wedi'u paratoi'n dda i ddarparu hyfforddiant, ac mae'r adborth gan fynychwyr hyfforddiant yn awgrymu eu bod yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant yn gyffredinol ac yn credu ei fod yn cael ei ddarparu'n dda. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses o fonitro perfformiad a sicrhau ansawdd hyfforddiant, a bydd yn bwysig datblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol.

9.4 Ar hyn o bryd, defnyddir mwy nag un enw i ddisgrifio'r pecyn hyfforddi a rhai cyrsiau. Byddai'n ddefnyddiol datblygu brandio mwy cyson yn y dyfodol a defnyddio'r term 'caethwasiaeth fodern' neu 'atal caethwasiaeth' yn y brandio (yn hytrach na masnachu).

**Hyfforddwyr sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant**

9.5 Cafodd Cordis Bright ddata gan yr arweinydd hyfforddiant ar yr holl hyfforddwyr a oedd wedi'u recriwtio i'r gronfa hyfforddiant erbyn mis Rhagfyr 2015, sef cyfanswm o 134 o hyfforddwyr.


**Ffigur 9.1: Nifer yr hyfforddwyr ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth a hyfforddwyr ymatebwyr cyntaf fesul ardal darpariaeth**




9.6 Mae Ffigur 9.1 yn cyflwyno gwybodaeth am nifer yr hyfforddwyr sydd ar gael yn yr ardal lle maent yn darparu hyfforddiant neu'n bwriadu darparu hyfforddiant[27]. Mae hyn yn dangos mai Gwent sydd â'r nifer fwyaf o hyfforddwyr (43). Ar y llaw arall, dim ond 11 o hyfforddwyr sydd ar gael yn ardal Dyfed Powys.

[27] Mae "Cymru" yn cyfeirio at hyfforddwyr sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant ledled Cymru.

**Ffigur 9.2: Nifer y darparwyr hyfforddiant camfanteisio'n rhywiol ar blant fesul ardal darpariaeth**





9.7 Mae Ffigur 9.2 yn dangos nifer yr hyfforddwyr sydd ar gael i ddarparu'r cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant [28]. Hefyd, mae'n dangos graddfa'r gorgyffwrdd rhwng hyfforddwyr y cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r hyfforddwyr ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth/ymatebwyr cyntaf. Gan mai cwrs newydd yw hwn, nid oes unrhyw un o'r hyfforddwyr wedi darparu'r cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant eto. Hyd yma, mae 52 o weithwyr proffesiynol wedi ymuno â'r gronfa, ac nid yw 42 o'r rhain yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth/ymatebwyr cyntaf. Unwaith eto, Gwent yw'r ardal lle mae rhan fwyaf hyfforddwyr y cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant yn bwriadu darparu'r cwrs (20). Nid oes un hyfforddwr y cwrs hwn ar gael yn y Gogledd, a dim ond un sydd ar gael yn ardal Dyfed Powys.

[28] Eto, mae "Cymru" yn cyfeirio at hyfforddwyr sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant ledled Cymru.

**Hyfforddwyr gweithredol sy'n darparu hyfforddiant**


**Ffigur 9.3: Nifer yr hyfforddwyr gweithredol fesul ardal darpariaeth**




9.8 Roedd 42 (31%) o'r hyfforddwyr yn y gronfa wedi darparu hyfforddiant cyn mis Rhagfyr 2015. Mae Ffigur 9.3 yn cyflwyno gwybodaeth am yr hyfforddwyr gweithredol hyn yn ôl yr ardal lle maent yn darparu hyfforddiant[29]. Mae'r nifer fwyaf wedi'u lleoli yng Nghaerdydd a'r Fro (15). Dim ond dau hyfforddwr gweithredol sydd ar gael yn ardal Dyfed Powys.

[29] Eto, mae "Cymru" yn cyfeirio at hyfforddwyr sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant ledled Cymru.

**Ffigur 9.4: Nifer yr hyfforddwyr ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth/ymatebwyr cyntaf fesul sefydliad lle maent yn gweithio**




9.9 Mae Ffigur 9.4 yn dangos mai staff awdurdodau lleol yw cyfran uchaf hyfforddwyr y gronfa (51) a'r hyfforddwyr gweithredol (23). Ceir llawer o hyfforddwyr yn y trydydd sector hefyd, a'r sector hwn sydd â'r gyfran uchaf ond un o hyfforddwyr y gronfa (45) a hyfforddwyr gweithredol (13). Mae hyn yn cynnwys sefydliadau fel BAWSO a Llwybrau Newydd. Mae'r gwahaniaeth fwyaf rhwng canran hyfforddwyr y gronfa (28) a'r hyfforddwyr gweithredol (4) i'w weld yn yr heddlu.

**Recriwtio hyfforddwyr**

9.10 Mae'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn gweithredu'n wirfoddol fel arfer. Mae llawer o hyfforddwyr yn cael eu rhyddhau gan eu sefydliadau i ddarparu'r hyfforddiant, ac mae rhai sefydliadau yn annog eu staff i ddarparu'r hyfforddiant hwn.

9.11 Er mwyn mynychu'r cwrs hyfforddi, mae'n rhaid i hyfforddwyr feddu ar gymhwyster hyfforddi[30] neu fod yn arbenigwyr pwnc. Wedyn, maent yn mynychu cwrs i'w paratoi i ddarparu'r hyfforddiant ar atal caethwasiaeth.

9.12 Mae cyfweliadau â rhanddeiliaid yn dangos bod y dull o recriwtio hyfforddwyr wedi newid dros amser. Yn y dechrau, roedd y fforymau rhanbarthol yn rhannu dyddiadau'r cyrsiau paratoi ac yn caniatáu i bawb a oedd yn gwirfoddoli archebu lle ar y cwrs hyfforddi. Mae'n ymddangos mai'r prif amcan ar y pryd oedd recriwtio

[30] Fel: Hyfforddi'r Hyfforddwyr; Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTTLS); Tystysgrif mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (CTTLS); Diploma mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (DTTLS); Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).

digon o hyfforddwyr i sicrhau bod y model gwirfoddolwyr yn gynaliadwy ac yn gallu ymateb i'r galw.

9.13 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn cydnabod bod y dull gweithredu hwn wedi arwain at rai heriau, gan gynnwys:

- Nid oedd gan rai o'r hyfforddwyr gwirfoddol ddigon o brofiad ymarferol a gwybodaeth i siarad am gaethwasiaeth fodern yn hyderus.
- Ni wnaeth rhai o'r hyfforddwyr ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ar ôl cwblhau'r cwrs paratoi i ddarparu hyfforddiant.
- Nid oes modd i sefydliadau ryddhau hyfforddwyr o'u gwaith bob dydd i ddarparu hyfforddiant bob amser.

9.14 Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at gnewyllyn o hyfforddwyr sy'n mynd ati i ddarparu hyfforddiant a phwll ehangach o hyfforddwyr nad ydynt yn weithredol. Mewn rhai ardaloedd, ychydig iawn o hyfforddwyr sy'n hyfforddwyr gweithredol.

9.15 O ganlyniad i'r problemau hyn, dywedodd yr arweinydd hyfforddiant ei bod wedi ei gwneud yn ofynnol i hyfforddwyr ddarparu pedwar cwrs y flwyddyn er mwyn aros yn y gronfa hyfforddi. Yn ogystal, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid sy'n ymwneud â recriwtio hyfforddwyr fod rhai o'r fforymau rhanbarthol wedi dechrau datblygu meini prawf mwy llym ynglŷn â phwy sy'n gallu mynychu'r cwrs paratoi hyfforddiant. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid hyn yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi mwy o bwyslais ar brofiadau darpar hyfforddwyr o weithio ar achosion o gaethwasiaeth fodern, ac ar ddewis darpar hyfforddwyr sydd wedi'u hargymell fel hyfforddwyr addas gan eraill.

9.16 Cyfeiriodd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld at sefydliadau amrywiol sydd wedi darparu hyfforddwyr ar gyfer y gronfa. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn cyfateb i'r categorïau yn ffigur 9.4. Mewn ymateb i gwestiwn am asiantaethau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel hyfforddwyr, yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd asiantaethau iechyd, tai ac ysgolion. Roedd y rhanddeiliaid yn credu y gallai cynyddu cyfranogiad mewn darpariaeth hyfforddiant gan yr asiantaethau hyn (gan gynyddu presenoldeb mewn hyfforddiant os yw hyfforddwyr yn darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol tebyg) wella canlyniadau ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl oherwydd byddai gan staff yn y sefydliadau hyn gyfleoedd helaeth i adnabod a chynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn fanteisiol canolbwyntio ymdrechion recriwtio ar yr asiantaethau hyn yn y dyfodol.

9.17 Hefyd, nododd un rhanddeiliad a gafodd ei gyfweld ac un hyfforddwr a holwyd fod angen gwneud ymdrech i recriwtio hyfforddwyr Cymraeg gan nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y gronfa hyfforddwyr ar hyn o bryd.


**Paratoi hyfforddwyr**

9.18 Mae'r cwrs paratoi hyfforddiant yn cynnwys holl ddeunyddiau'r cwrs y mae cyfranogwyr yn cael eu hyfforddi i'w ddarparu. Yn ogystal, mae'r cwrs paratoi hyfforddiant yn nodi bod 'dulliau dysgu' yn agwedd allweddol y mae angen i hyfforddwyr fod yn ymwybodol ohoni. Ategir hyn gan y dull o gyflwyno pynciau yn ystod y cwrs, gan gynnwys drwy glipiau DVDs, gwaith grŵp ac adborth, a dulliau rhannu gwybodaeth fwy traddodiadol.

9.19 Yn ogystal, mae'r cwrs yn cael ei deilwra ar sail profiad blaenorol yr hyfforddwyr. Er enghraifft, os yw'r hyfforddiant yn cael ei gynnal ar ôl digwyddiad ymwybyddiaeth, mae'n cael ei leihau i hanner diwrnod yn hytrach na diwrnod llawn. Hefyd, mae hyfforddiant diweddaru yn cael ei gynnig yn rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau hyfforddwyr yn gyfredol.

9.20 Mae tystiolaeth o'r adolygiad o ddeunyddiau hyfforddi yn awgrymu bod canllawiau ar gyfer hyfforddwyr yn debygol o arwain at ddarpariaeth safonol o'r holl gyrsiau hyfforddi, yn bennaf oherwydd nodiadau manwl.

**Ffigur 9.5: I ba raddau y mae hyfforddwyr yn cytuno â datganiadau yn ymwneud â pharatoi hyfforddwyr?**[31]




9.21 Mae Ffigur 9.5 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r hyfforddwyr a holwyd yn credu eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cwrs/cyrsiau hyfforddi roeddent wedi'u hyfforddi i'w darparu (25), eu bod yn deall y cynnwys (29) a'r dulliau darparu (27) yn dda, eu bod yn gallu darparu'r cwrs/cyrsiau yn hyderus (23) a'u bod yn gwybod ble i drosglwyddo unrhyw wybodaeth sy'n dod i law gan fynychwyr (29). Mae hyn yn ategu canfyddiadau'r adolygiad o ddeunyddiau'r cwrs paratoi hyfforddiant, sef ei fod yn debygol o baratoi hyfforddwyr yn dda ar gyfer darparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth.

9.22 Fodd bynnag, dywedodd pump o'r hyfforddwyr a holwyd nad oeddent yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda i ddarparu'r cwrs/cyrsiau perthnasol. Roedd tri hyfforddwr yn teimlo bod angen gwella'r cyrsiau paratoi hyfforddiant.

**Sicrhau ansawdd darpariaeth hyfforddiant**

9.23 Disgrifiodd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ddwy brif elfen sicrhau ansawdd; system ar gyfer hyfforddwyr i addysgu ar y cyd a darparu cyrsiau yn rheolaidd, ac adborth gan fynychwyr.

[31] Ni chafwyd ateb gan ddau ymatebydd i'r cwestiwn hwn, ac ni chafwyd ymateb gan ymatebydd arall ynglŷn ag i ba raddau roedd yn cytuno â'r datganiad 'Llwyddodd y cwrs i gynyddu fy nealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern'.

*Addysgu ar y cyd a darpariaeth reolaidd*

9.24 Yn ôl y dystiolaeth ddogfennol, mae'n rhaid i ddarpar hyfforddwyr ymrwymo i ddarparu pedair sesiwn mewn 12 mis fel 'addysgwyr ar y cyd' ar ôl mynychu'r cwrs paratoi hyfforddiant er mwyn 'cymhwyso' fel hyfforddwyr. Ar gyfer y cwrs ymatebwyr cyntaf, mae'n rhaid i gynrychiolydd BAWSO neu Lwybrau Newydd gydweithio â'r hyfforddwr er mwyn sicrhau bod y ffurflenni Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn cael eu cwblhau'n gywir. Cafwyd ychydig o newidiadau i'r cyfarwyddiadau ar ddarparu hyfforddiant ar ôl mynychu'r cwrs paratoi hyfforddiant ym mis Tachwedd 2015 gyda'r bwriad o'i gwneud yn haws i hyfforddwyr ddarparu cyrsiau. Mae'r newidiadau'n cynnwys y canlynol:

- Os yw hyfforddwyr cymwysedig wedi darparu'r 4 sesiwn ofynnol mewn 12 mis gallant ddechrau hyfforddi'n annibynnol ar gyfer y cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth.
- Mae'n rhaid i hyfforddwyr nad ydynt wedi cymhwyso barhau i addysgu ar y cyd.
- Mae'n rhaid i'r cwrs ymatebwyr cyntaf barhau i fod ag addysgwyr ar y cyd Llwybrau Newydd/BAWSO i sicrhau bod arbenigedd ar gael o hyd ar gyfer proses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

9.25 Cadarnhaodd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod y broses addysgu ar y cyd a'r gofyniad i ddarparu pedair sesiwn hyfforddi bob blwyddyn ar waith.

*Adborth gan fynychwyr hyfforddiant*

9.26 Nododd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod adborth gan fynychwyr hyfforddiant yn cael ei gasglu ar ddiwedd pob sesiwn hyfforddi. Derbyniodd Cordis Bright nifer o dempledi ar gyfer y ffurflenni adborth a rhai enghreifftiau o ffurflenni adborth wedi'u cwblhau ar gyfer sesiynau hyfforddi penodol. Mae hyn yn awgrymu bod y mecanwaith ar waith, ond oherwydd y nifer fach o ffurflenni wedi'u cwblhau a ddarparwyd, ni allai Cordis Bright gadarnhau yn annibynnol fod yr adborth yn cael ei gasglu mewn ffordd systematig.

9.27 Nid oedd fformat y templedi a'r ffurflenni adborth a adolygwyd yn gyson. Weithiau, y rheswm am hyn oedd bod y templedi a ddefnyddiwyd i gasglu'r adborth yn amrywio, ac mewn achosion eraill roedd y dulliau o goladu'r adborth yn amrywio. Er mwyn gallu coladu a chymharu'r adborth yn effeithiol yn y dyfodol, byddai'n fanteisiol datblygu fformat safonol ar gyfer adborth.

9.28 Ni wnaeth y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fynegi'r broses ar gyfer coladu adborth mewn ffordd glir neu gyson. Er enghraifft, aeth rhai rhanddeiliaid ati i ddisgrifio proses lle mae hyfforddwyr yn dychwelyd y ffurflenni i'r cydgysylltydd rhanbarthol (y cydgysylltydd cydlyniant cymunedol yn y rhan fwyaf o ardaloedd neu'r cydgysylltydd hyfforddiant yng Nghaerdydd a'r Fro), sy'n paratoi adroddiad cryno ar gyfer yr arweinydd hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd eraill yn disgrifio proses lle mae'r hyfforddwyr yn dychwelyd y ffurflenni i'r arweinydd hyfforddiant, sy'n adolygu'r wybodaeth ac yn darparu adborth ar gyfer y fforymau rhanbarthol.

9.29 Yn ogystal, mae ymatebion i gyfweliadau yn awgrymu bod yna wahaniaethau rhanbarthol. Mae'n ymddangos bod ardaloedd Abertawe, Caerdydd a Dyfed Powys yn coladu ac yn cyflwyno eu hadborth yn fwy cyson na'r Gogledd a Gwent.


9.30 Mynegodd lleiafrif o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld amheuon ynglŷn â pha mor fanwl y mae ffurflenni adborth yn cael eu hadolygu ac a oes unrhyw gamau gweithredu yn deillio o'r broses. Er enghraifft, dywedodd un hyfforddwr nad oedd neb wedi gofyn iddo gyflwyno ei ffurflenni adborth erioed, a dywedodd rhanddeiliaid eraill eu bod wedi gweld data wedi'i goladu ar nifer y bobl sy'n mynychu hyfforddiant, ond nid ar adborth. Dywedodd dau randdeiliad nad yw dulliau mesur canlyniadau ar gyfer llwyddiant yr hyfforddiant wedi'u diffinio'n glir.

9.31 Roedd argymhellion y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ynglŷn â sut i wella'r broses o sicrhau ansawdd hyfforddiant yn cynnwys:

- Gallai hyfforddwyr profiadol a/neu staff uwch y grŵp arwain fynychu a gwerthuso sesiynau.
- Dylid sefydlu dulliau mesur canlyniadau er mwyn mesur effaith yr hyfforddiant. Er enghraifft, gallai mesur y berthynas rhwng lefel ac ansawdd yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yn rhanbarthol a nifer yr atgyfeiriadau i'r Llwybr Gofal Goroeswyr a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn yr un rhanbarth fod yn ddangosydd effaith defnyddiol.
- Dylid ariannu swydd ddynodedig ar gyfer monitro perfformiad hyfforddiant.

**Gwerthusiad mynychwyr hyfforddiant o'r ddarpariaeth**

**Ffigur 9.6: I ba raddau roedd mynychwyr hyfforddiant yn cytuno â datganiadau am ddarparu'r cwrs?**




9.32 Mae Ffigur 9.6 yn dangos bod y gyfran fach iawn o fynychwyr hyfforddiant a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo'n gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â'u profiad o'r cwrs. Dywedodd deg o'r 12 o fynychwyr y byddent yn mynychu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth yn y dyfodol, sy'n dangos lefel uchel o ddiddordeb yn y pwnc.

9.33 Nododd dau fynychwr fod yr hyfforddiant yn 'broffesiynol, wedi'i ddarparu'n dda ac yn drefnus'. Roedd un hyfforddwr yn teimlo ei bod yn bwysig parhau i ddarparu hyfforddiant ar y cyd ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu fel rhan o'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern oherwydd ei bod yn 'helpu i wella cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad'. Yn ôl mynychwr arall, roedd yn amlwg bod y cwrs 'wedi'i ddarparu gan bobl sydd â diddordeb mawr yn y pwnc dan sylw'.

9.34 Fodd bynnag, dywedodd dau fynychwr y gellid gwella'r hyfforddiant drwy ddarparu rhagor o wybodaeth cyn y sesiwn a rhoi mwy o daflenni i'r mynychwyr.

**Hyrwyddo a gweinyddu hyfforddiant**

9.35 Defnyddiodd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld nifer o deitlau gwahanol i gyfeirio at y pecyn hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant masnachu pobl a hyfforddiant ar atal caethwasiaeth. Wrth hyrwyddo'r hyfforddiant yn y dyfodol, bydd yn bwysig defnyddio un teitl yn gyson a chyfeirio at naill ai 'atal caethwasiaeth' neu

‘gaethwasiaeth fodern’ yn y teitl. Defnyddir y termau hyn mewn strategaethau a deddfwriaeth bresennol. Hefyd, maent yn cyfleu’r neges nad oes angen i ddioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern gael eu masnachu o reidrwydd.

9.36 Dangosodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid fod cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol yn gwneud gwaith allweddol yn hyrwyddo ac yn gweinyddu hyfforddiant ar lefel ranbarthol. Mae hyn yn cynnwys cynllunio a hysbysebu amserlenni hyfforddiant, derbyn ceisiadau a threfnu bod hyfforddwyr yn darparu cyrsiau.

9.37 Caiff swyddi cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae 20% o’u hamser yn cael ei ariannu ar gyfer gwaith caethwasiaeth fodern. Mae wyth cydgysylltydd cydlyniant cymunedol yn gweithredu ledled Cymru, ac mae pob un yn gyfrifol am ddwy neu dair ardal awdurdod lleol.

9.38 Mae tystiolaeth o’r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu bod y graddau y mae deiliaid swydd yn neilltuo amser ac adnoddau ar gyfer gwaith caethwasiaeth fodern yn amrywio. Un rheswm am hyn yw’r ffaith eu bod yn gweithredu mewn cyd-destunau lleol gwahanol, sy’n dylanwadu ar y graddau y mae gwaith caethwasiaeth fodern yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth. Rheswm posibl arall yw lefel diddordeb personol deiliaid swydd yn y pwnc, gyda’r rhai sydd â diddordeb penodol yn neilltuo amser ychwanegol ac yn rhagori ar yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud. Mae hyn yn arwain at wahaniaethau rhanbarthol rhwng effeithiolrwydd hyrwyddo a chydgysylltu’r hyfforddiant ar atal caethwasiaeth[32].

9.39 Mae Caerdydd a’r Fro wedi neilltuo adnoddau ychwanegol ar gyfer cydgysylltu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth. Mae’r rhanbarth hwn wedi ariannu cydgysylltydd hyfforddiant rhan-amser sy’n cyflawni’r un swyddogaethau â’r cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol. BAWSO sy’n gyfrifol am y swydd hon. Yn ôl y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld, mae’r swydd hon yn golygu bod hyfforddiant yn cael ei hyrwyddo a’i gydgysylltu yn fwy effeithiol, yn fwy effeithlon ac yn fwy systematig na mewn rhai rhanbarthau eraill.

9.40 Ar hyn o bryd, mae swydd cydgysylltydd atal caethwasiaeth ddynodedig yn bodoli yn y Gogledd. Yn ôl y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld, mae’r swydd hon yn gwneud gwahaniaeth mawr i effeithiolrwydd cydgysylltu hyfforddiant drwy gynnig arweiniad ac adnodd dynodedig ychwanegol. Mae’r cydgysylltydd wedi’i leoli yn yr

[32] Mae trafodaeth ddilynol â’r cydgysylltydd atal caethwasiaeth yn awgrymu bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i’r afael â lefelau gweithgarwch amrywiol cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol gwahanol. Er enghraifft, mae cynlluniau gwaith newydd ar gyfer 2016-17 wedi’u trafod, ac maent yn nodi tasgau disgwyliedig cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol yn gliriach.

awdurdod lleol, ac roedd un rhanddeiliad yn teimlo bod y ffaith hon yn llwyddo i ddatblygu rhwydwaith a pherthynas waith effeithiol ag awdurdodau lleol.

**Gallu hyfforddiant i ymateb i’r galw cynyddol**

9.41 Nid yw’r rhan fwyaf o’r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu y gallai’r trefniadau hyfforddi presennol ymateb i gynnydd yn y galw am hyfforddiant. Y prif resymau a nodwyd am hyn oedd:

- Mae nifer yr hyfforddwyr sy’n mynd ati i ddarparu hyfforddiant yn rhy fach i ymdopi â chynnydd yn y galw.
- Mae’r model hyfforddi’r hyfforddwyr gwirfoddol yn golygu bod llawer o hyfforddwyr yn darparu cyrsiau yn ogystal â gwneud swyddi llawnamser, sy’n cyfyngu ar eu gallu i ddarparu hyfforddiant.
- Mae sawl asiantaeth yn dangos diffyg ymrwymiad, a byddai’n bosibl iddynt ryddhau rhagor o hyfforddwyr.
- Gan fod y swydd arwain hyfforddiant ar atal caethwasiaeth yn un wirfoddol yng Nghymru, mae’r gwaith yn cael ei wneud ochr yn ochr â swydd lawnamser am dâl.
- Oherwydd y cyllid a’r adnoddau dynodedig cyfyngedig sy’n cael eu neilltuo i’r gwaith o gydgysylltu’r hyfforddiant ar lefel ranbarthol, mae staff yn ceisio ymdopi â blaenoriaethau gwahanol, ac mae’n bosibl na allant neilltuo digon o amser i gydgysylltu hyfforddiant.

9.42 Cafwyd awgrymiadau gan randdeiliaid a gafodd eu cyfweld ynglŷn â sut i wella cynaliadwyedd hyfforddiant, gan gynnwys:

- Canolbwyntio ar wella gwybodaeth hyfforddwyr presennol ac ar ryddhau’r cohort profiadol hwn.
- Datblygu modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a defnyddio’r sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen.
- Cynnig cymhelliant i asiantaethau, fel eu bod yn teimlo y bydd rhyddhau staff i ddarparu hyfforddiant yn fanteisiol iddynt hwy hefyd.

Manteisio’n llawn ar allu hyfforddwyr presennol; os ydynt yn cyflwyno sesiwn yn y bore, trefnwch sesiwn yn y prynhawn yn yr un lle hefyd.

# 10. Cyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr

## Trosolwg

10.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau yn ymwneud â chyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae'n ystyried cyfraniad asiantaethau gwahanol ac yn disgrifio'r prosesau perthnasol.

## Crynodeb o'r canfyddiadau


10.2 Y prif asiantaethau sy'n ymwneud â'r Llwybr Gofal Goroeswyr yw'r heddlu a'r gwasanaeth ffiniau, BAWSO a Llwybrau Newydd, a'r sector addysg. Nid yw rhai asiantaethau sydd mewn sefyllfa yn ddamcaniaethol i adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl yn gwneud llawer o atgyfeiriadau. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau plant, a gofal cymdeithasol ac iechyd oedolion.

10.3 Aeth y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ati i fynegi a gwerthuso'n gadarnhaol y pwyntiau mynediad i'r Llwybr Gofal Goroeswyr a'r broses MARAC berthnasol. Roedd pwynt gadael y Llwybr Gofal Goroeswyr yn llai eglur, ond gallai gwaith brandio a hyrwyddo gwell wneud y sefyllfa'n gliriach. Dylai hyn gydnabod mai'r MARAC yw'r prif ddull gweithredu ar gyfer y Llwybr Gofal Goroeswyr, sy'n ymwneud yn bennaf â chynllunio a chymorth amlasiantaeth, a bod gwasanaethau eraill ar gael yn ddamcaniaethol i'r rhai nad ydynt yn cyrchu'r Llwybr Gofal Goroeswyr.

10.4 Gellid gwella dulliau monitro perfformiad ac ymgynghori â dioddefwyr/goroeswyr ar y Llwybr Gofal Goroeswyr, ac yn ddelfrydol dylai'r gwaith hwn gyd-fynd â monitro hyfforddiant er mwyn nodi'r berthynas rhwng y ddau faes. I wneud hyn, mae'n debyg y bydd angen cyflwyno adnoddau/staff dynodedig i goladu a dadansoddi data monitro perfformiad ac archwilio cysylltiadau â hyfforddiant.

**Asiantaethau sy’n atgyfeirio i’r Llwybr Gofal Goroeswyr**

**Ffigur 10.1: Asiantaethau sy’n atgyfeirio i’r Llwybr Gofal Goroeswyr**




10.5 Mae Ffigur 10.1 yn cyflwyno data ar y mathau o asiantaethau sy’n gwneud atgyfeiriadau i’r Llwybr Gofal Goroeswyr. Cofnodwyd y wybodaeth hon ar gyfer 99 o achosion. Y mathau o asiantaethau sy’n gwneud y nifer fwyaf o atgyfeiriadau yw’r heddlu a gwasanaethau ffiniau (32 neu 32%), asiantaethau ymatebwyr cyntaf y trydydd sector, sef BAWSO a’r Llwybr Newydd (22 neu 22%) ac addysg (22 neu 22%).

10.6 Mae unrhyw atgyfeiriad i’r Llwybr Gofal Goroeswyr yn atgyfeiriad cadarnhaol gan ei fod yn gallu adnabod dioddefwr/goroeswr posibl a nodi gwybodaeth am y llwybr


atgyfeirio priodol. Fodd bynnag, mae nifer yr atgyfeiriadau gan y sectorau gofal cymdeithasol i oedolion (2 neu 2%), gwasanaethau plant (4 neu 4%) ac iechyd (2 neu 2%) yn gymharol isel. Dyma'r asiantaethau a ddylai fod mewn sefyllfa i adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl yn ôl rhanddeiliaid. Hefyd, cyfeiriodd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld at nifer o asiantaethau eraill a oedd yn llai tebygol o wneud atgyfeiriadau i'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn eu barn nhw, er eu bod yn debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr/goroeswyr posibl. Yr asiantaethau hyn oedd y gwasanaethau tân ac achub, timau troseddau ieuenctid, staff ysgolion a staff cartrefi gofal. Yn ôl y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid, diffyg ymwybyddiaeth o'r Llwybr Gofal Goroeswyr sy'n gyfrifol am y diffyg atgyfeiriadau ymddangosiadol gan y grwpiau hyn.

10.7 Bydd yn bwysig monitro lefelau'r atgyfeiriadau gan bob asiantaeth yn gyson er mwyn nodi a yw atgyfeiriadau gan y ffynonellau hyn yn cynyddu, ac a yw lefelau atgyfeiriadau sy'n aros yn isel yn amlygu angen hyfforddiant a/neu ddiffyg ymgysylltu â'r Llwybr Gofal Goroeswyr.

**Asiantaethau sy'n mynychu Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARACs)**

10.8 Derbyniodd Cordis Bright ddata ar yr asiantaethau sydd wedi mynych MARACs yn y rhanbarthau gwahanol. Mae Ffigur 10.2 yn crynhoi'r data.

**Ffigur 10.2: Cyfanswm yr asiantaethau a fynychodd o leiaf un MARAC**




10.9 Mae Ffigur 10.2 yn dangos bod y nifer fwyaf o asiantaethau wedi mynychu o leiaf un MARAC yng Nghaerdydd a'r Fro, lle mae'r MARACs wedi'u sefydlu am y cyfnod hiraf. Yma, roedd 23 o asiantaethau gwahanol wedi mynychu o leiaf un MARAC rhwng mis Ebrill 2014 a mis Rhagfyr 2015. Ym Merthyr, lle mae'r MARACs wedi'u sefydlu yn ddiweddar, mae pum asiantaeth wedi mynychu hyd yn hyn.

10.10 Wrth gymharu'r mathau o asiantaethau sy'n mynychu mewn rhanbarthau gwahanol, mae'n dod i'r amlwg mai'r heddlu ac ymatebwyr cyntaf y trydydd sector (h.y. BAWSO a/neu Lwybrau Newydd) yw'r unig fathau o asiantaethau sydd wedi mynychu MARAC ym mhob rhanbarth. Mae'n amlwg mai'r rhain yw'r asiantaethau craidd y mae'n ofynnol iddynt fynychu MARAC.

10.11 Mae mathau eraill o asiantaethau amrywiol wedi mynychu un MARAC neu fwy mewn un rhanbarth neu fwy. Yn eu plith y mae gwasanaethau diogelu oedolion, gwasanaethau plant, yr Adran Gwaith a Phensiynau, addysg, iechyd, tai, UKVI ac amrywiaeth o asiantaethau arbenigol yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

10.12 Hefyd, roedd data Caerdydd a'r Fro yn dangos pa mor aml roedd asiantaethau gwahanol wedi mynychu. Mae dadansoddiad o'r data hwn yn dangos bod asiantaethau craidd, fel Heddlu'r De, BAWSO, Llwybrau Newydd, gwasanaethau plant, y gwasanaeth lles addysg, Fisâu a Mewnfudo y DU, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Bwrdd Partneriaeth Caerdydd yn mynychu MARACs yn rheolaidd. Hefyd, mynychodd nifer o asiantaethau arbenigol

un MARAC yn unig, sy'n awgrymu bod Caerdydd a'r Fro yn nodi asiantaethau perthnasol i'w gwahodd fesul achos.

10.13 Nododd rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ym mhob rhanbarth fod sefydliadau'n cael eu gwahodd i fynychu MARACs fesul achosion unigol, gan ddibynnu ar anghenion y dioddefwyr/goroeswyr unigol posibl sy'n cael eu trafod. Cyfeiriodd un rhanddeiliad o Gaerdydd a'r Fro at yr hyn sy'n cael ei wneud i helpu gweithwyr proffesiynol i fynychu drwy leihau baich mynychu ar eu hamser. Neilltuir amser i drafod achosion penodol mewn cyfarfodydd, sy'n golygu bod gweithwyr proffesiynol sydd ond yn ymwneud ag un o'r achosion sy'n cael eu trafod yn y MIRAC yn gallu cyrraedd mewn pryd i drafod yr unigolyn hwnnw yn unig.

10.14 Nododd llawer o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod angen i asiantaethau iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau addysg, gwasanaethau plant a gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion gymryd mwy o ran yn y Llwybr Gofal Goroeswyr, a'r MARACs yn benodol. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai mynychu MARACs fod yn orfodol ar gyfer sefydliadau allweddol sy'n debygol o allu cyfrannu at y broses o gynorthwyo neu ymchwilio i achosion sy'n cael eu cyflwyno yn y MARACs.

10.15 Mae'n rhaid ystyried y canfyddiadau hyn yng nghyd-destun yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Nododd uwch randdeiliaid fod angen ystyried y dulliau gorau o gyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr ym mhob rhanbarth a threulio amser yn annog asiantaethau i ymddiddori yn y cysyniad a'r gwaith. Felly, mae'n ymddangos y bydd presenoldeb mewn MARACs, ac atgyfeiriadau atynt, yn cynyddu dros amser wrth i'r Llwybr Gofal Goroeswyr gael ei sefydlu ac wrth i wersi gael eu dysgu yn sgil ei weithredu.

**Defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr**

10.16 Dangosodd cyfweliadau â rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr fod gan y gweithwyr proffesiynol hyn ddealltwriaeth glir, gyffredin o bwyntiau mynediad y Llwybr Gofal Goroeswyr. Roedd pob un yn gallu disgrifio'r broses o ddefnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n blant neu'n oedolion.

10.17 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod y Llwybr Gofal Goroeswyr ar gael i'r un graddau i bob dioddefwr/goroeswr posibl o gaethwasiaeth fodern. Yn gyffredinol, credir hyn oherwydd bod yr hyfforddiant yn lledaenu dealltwriaeth o gamfanteisio o bob math, sy'n golygu y dylai mynychwyr

feddu ar y wybodaeth i adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl. Mae’r ffaith fod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn teilwra cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr unigol posibl yn golygu ei fod yn cael ei ystyried yn gynllun sydd ar gael i bawb. Fodd bynnag, cyfeiriodd nifer fach o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld at grwpiau penodol a allai wynebu rhwystrau i gyrchu cymorth, gan gynnwys:

- Y rhai na allant ddefnyddio arian cyhoeddus.
- Y rhai na allant siarad Cymraeg neu Saesneg.
- Dioddefwyr Prydeinig gwyn, oherwydd y canfyddiad bod caethwasiaeth fodern yn ymwneud â masnachu pobl o dramor.
- Y rhai sy’n camddefnyddio sylweddau, a allai ei chael yn anos manteisio ar gymorth yn rheolaidd.
- Dioddefwyr gwrywaidd, a allai ei chael yn anos sylweddoli bod rhywrai’n camfanteisio arnynt, ac sy’n llai tebygol o gael eu hadnabod fel dioddefwyr/goroeswyr gan eraill.

10.18 Roedd lleiafrif o’r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu nad yw’r Llwybr Gofal Goroeswyr ar gael i’r un graddau i bob dioddefwr/goroeswr posibl oherwydd nad yw’r hyfforddiant wedi ymgysylltu’n ddigonol eto â phob gweithiwr proffesiynol neu aelod o’r cyhoedd a allai ddod i gysylltiad â dioddefwyr/goroeswyr posibl.

**Y broses MARAC**

10.19 Gofynnwyd i randdeiliaid a gafodd eu cyfweld sy’n ymwneud â’r MARACs i ddisgrifio’r broses MARAC. Roedd eu disgrifiadau o’r broses MARAC yn debyg yn gyffredinol, er bod rhai gwahaniaethau rhanbarthol wedi dod i’r amlwg.

*Galw’r MARAC*

10.20 Adeg atgyfeirio unigolyn, mae BAWSO yn gyfrifol am alw’r MARAC. Fel arfer, mae’r sawl sy’n atgyfeirio yn awgrymu pwy i’w wahodd i’r gynhadledd, ond mewn rhai achosion mae’n bosibl y bydd gan BAWSO fwy o fewnbwn yn y cyswllt hwn.

*Amseroedd aros rhwng atgyfeiriad a MARAC*

10.21 Nid yw’r data monitro sy’n cael ei ddarparu ar gyfer y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cynnwys data ar yr amser rhwng atgyfeirio a thrafod yn y MARAC. Fodd bynnag, dangosodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid fod MARAC yn cael ei chynnal ymhen saith diwrnod i’r atgyfeiriad cychwynnol fel arfer, ond bod modd ei chynnal yn gynt mewn achosion brys.

10.22 Nododd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod MARACs yn cael eu cynnal ar gyfer achosion unigol oherwydd bod nifer yr atgyfeiriadau yn ddigon bach i hwyluso hyn. Yr eithriad yw Caerdydd a'r Fro, sy'n cytuno ar ddyddiadau MARAC misol rheolaidd ymlaen llaw. Eglurodd rhanddeiliaid yng Nghaerdydd a'r Fro fod modd cynnal MARAC rhwng y dyddiadau hyn os oes angen trafod achos ar frys.

*Cadeirio'r MARAC*

10.23 Yr heddlu sy'n gyfrifol am gadeirio'r MARACs ym mhob rhanbarth. Nododd nifer o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld fod hyn yn bwysig fel dolen gyswllt rhwng ymchwilio i'r drosedd honedig a chynorthwyo'r dioddefwr/goroeswr posibl. Hefyd, mae'n sicrhau bod yr heddlu yn cyfrannu at y gwaith amlasiantaeth.

*Neilltuo asiantaeth arweiniol*

10.24 Pan fydd angen rhagor o gamau gweithredu mewn achosion a drafodwyd mewn MARAC (h.y. nid yw'r achos yn cael ei gau yn dilyn y MARAC), mae asiantaeth arweiniol yn cael ei neilltuo. Fel arfer, yr asiantaeth sydd â'r cysylltiad mwyaf â'r dioddefwr/goroeswr posibl sy'n cael ei dewis yn asiantaeth arweiniol, neu'r asiantaeth sy'n debygol o fod â'r mewnbwn mwyaf i'r achos yn dilyn y camau gweithredu sy'n cael eu cytuno yn y MARAC.

*Gweinyddu'r MARAC*

10.25 Mae trefniadau ar gyfer gweinyddu'r MARAC yn amrywio rhwng y rhanbarthau. Er enghraifft, mae Caerdydd a'r Fro wedi creu swydd weinyddol benodedig i gefnogi'r MARACs, sy'n cael ei lleoli yn BAWSO a'i hariannu gan Fwrdd Partneriaeth Caerdydd. Mae cyfrifoldebau'r swydd yn cynnwys casglu gwybodaeth ychwanegol gan y sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad a phartneriaid eraill cyn y MARAC, gwahodd mynychwyr a chadw cofnodion. Ar hyn o bryd, mae deilydd y swydd hon yn gwneud rhywfaint o'r gwaith gweinyddol ar gyfer MARACs yn y rhanbarthau eraill (er nad yw'r swydd yn cael ei hariannu ar gyfer hyn). Fodd bynnag, yn Nyfed Powys a Gwent nid oes unrhyw gydgysylltydd masnachu pobl MARAC penodedig, ac mae proses y MARAC yn dibynnu ar weinyddwr MARAC Caerdydd a'r Fro neu ar weithiwr yn swyddfa BAWSO yn y Gogledd.

10.26 Fel sy'n wir am yr hyfforddiant, nododd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod y broses o weinyddu'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cymryd llawer o amser a bod modd ei gwella drwy ddarparu rhagor o adnoddau dynodedig ar ffurf amser staff a ariennir er mwyn cydgysylltu ac adrodd ar waith y MARACs.

### Y cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr

10.27 Cyfeiriodd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld at sawl math o gymorth sydd ar gael i ddioddefwyr/goroeswyr posibl drwy'r Llwybr Gofal Goroeswyr, gan gynnwys: llety diogel, cymorth un i un, sgrinio iechyd, cwnsela, cymorth i fynychu apwyntiadau a chyfweliadau, cymorth i ddod o hyd i lety parhaol, cyngor ariannol, cymorth i ddychwelyd i'w mamwlad a gwasanaethau dehongli.

10.28 Hefyd, mae cymorth ar gael ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr gwrywaidd posibl drwy brosiect masnachu dynion BAWSO, sy'n cynnwys gweithiwr allgymorth gwrywaidd i gyfeirio ceiswyr lloches at wasanaethau a chymorth.

### Gadael y Llwybr Gofal Goroeswyr

10.29 Ar sail y cyfweliadau â'r rhanddeiliaid, roedd yn anodd gwybod pryd yn union y mae dioddefwr/goroeswr posibl yn gadael y Llwybr Gofal Goroeswyr a beth sy'n digwydd wedyn. Er enghraifft, cyfeiriodd un rhanddeiliad at ddiffyg cymorth hirdymor ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl, tra dywedodd un arall bod cymorth parhaus ar gael ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl.

10.30 Mae'r cysylltiad rhwng y Llwybr Gofal Goroeswyr ac atgyfeiriad i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn aneglur. Mae cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu bod dioddefwyr/goroeswyr posibl yn gallu defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr waeth beth a ydynt yn cytuno i atgyfeiriad Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ai peidio. Mae hyn yn awgrymu nad yw mynediad i elfennau o gymorth sy'n cael eu cynnig gan y Llwybr Gofal Goroeswyr yn dibynnu ar gyfnod myfyrio ac adfer a ariennir gan y Swyddfa Gartref.

10.31 Mae'n bosibl bod y cysyniad o'r Llwybr Gofal Goroeswyr fel llwybr wedi arwain at ddryswch ynglŷn â'r pwynt gadael a dryswch ynglŷn â'r cysylltiad rhwng y llwybr a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Yr hyn sy'n gwneud y Llwybr Gofal Goroeswyr yn wahanol i drefniadau cymorth blaenorol ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern yw'r un man cyswllt ar gyfer atgyfeiriadau a'r broses o ddefnyddio MARAC. Nid oes gan yr elfennau hyn unrhyw gysylltiad uniongyrchol â chyllid ar gyfer pecynnau cymorth unigol, ac nid 'llwybrau' mohonynt mewn gwirionedd; maent yn ymwneud yn bennaf â gwella gwaith amlasiantaeth a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr/goroeswyr posibl yn gallu derbyn cymorth gan asiantaethau sy'n arbenigo mewn gwaith sy'n mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Felly, mae'n bosibl y bydd yn gwneud mwy o synnwyr ailfrandio'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn 'MARAC caethwasiaeth fodern'

neu'n 'MARAC atal caethwasiaeth'. Byddai hyn yn cyfleu diben a dull y llwybr yn glir i'r rhai sydd am wneud atgyfeiriadau.

10.32 Mae trafodaethau dilynol â rhanddeiliaid allweddol yn awgrymu bod mwy o waith yn cael ei wneud i ddatblygu camau olaf y 'llwybr' ers i'r Llwybr Gofal Goroeswyr gael ei gyflwyno a'i sefydlu yn y rhanbarthau. Os yw'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu a bod modd ei gysyniadu mewn unrhyw ffordd safonedig (gan ystyried anghenion, dymuniadau a phrofiadau unigol pob dioddefwr/goroeswr posibl), gall y term llwybr fod yn fwy priodol yn yr hirdymor.

**Mesur perfformiad y Llwybr Gofal Goroeswyr**

10.33 Mae adroddiadau monitro chwarterol y MARACs yn ddull o fesur effeithiolrwydd y Llwybr Gofal Goroeswyr. Maent yn cynnwys data ar atgyfeiriadau, allbynnau a rhywfaint o ddata ar ganlyniadau ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl. Mae pennod 11 a phennod 12 yn trafod dulliau posibl o wneud yr adroddiadau hyn yn fwy defnyddiol yn ymarferol, ochr yn ochr â dadansoddi data'r adroddiadau monitro.

10.34 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld naill ai'n ansicr a yw'r data sy'n cael ei goladu yn cyfleu effaith y Llwybr Gofal Goroeswyr ar ddioddefwyr/goroeswyr, neu'n credu nad yw'r data yn cyfleu'r effaith. Credai'r rhanddeiliaid hyn fod y data sy'n cael ei goladu yn bwysig ar gyfer monitro allbynnau a gweithgareddau ond bod angen dull arall i ddangos effaith, fel adborth uniongyrchol gan ddioddefwyr/goroeswyr ar ôl iddynt adael y Llwybr Gofal Goroeswyr.

10.35 Hefyd, roedd sawl rhanddeiliad yn credu bod nifer yr atgyfeiriadau yn arwydd o lwyddiant y Llwybr Gofal Goroeswyr. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn dadlau bod pob atgyfeiriad yn dangos bod y sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad yn ymwybodol o'r Llwybr Gofal Goroeswyr, a'i fod yn gyfle i'r dioddefwr/goroeswr posibl dderbyn cymorth amlasiantaeth.

10.36 Fel sy'n wir am yr hyfforddiant, cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at y ffaith fod coladu a dadansoddi'r data monitro yn cymryd llawer o amser, ac y byddai'n ddefnyddiol creu swydd a ariennir i wneud y gwaith hwn.

**Hyrwyddo'r Llwybr Gofal Goroeswyr**

10.37 Fel sy'n wir am yr hyfforddiant, byddai'n ddefnyddiol sicrhau cysondeb wrth frandio'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Wrth ddisgrifio'r Llwybr Gofal Goroeswyr, cyfeiriodd y

rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld at 'MARACs masnachu pobl' yn rheolaidd, ac at 'gaethwasiaeth' ac 'atal caethwasiaeth'. Argymhellir y dylid defnyddio term sy'n cyd-fynd â brandio'r pecyn hyfforddi ac sy'n cynnwys naill ai 'caethwasiaeth fodern' neu 'atal caethwasiaeth[33]. Bydd hyn yn helpu i gadarnhau'r cysylltiad rhwng y ddau faes, a'i gwneud yn glir i'r rhai sy'n defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr ei fod yn gallu cynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern nad ydynt wedi'u masnachu.

10.38 Mae cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu mai'r prif ddull o hyrwyddo'r Llwybr Gofal Goroeswyr yw trwy'r hyfforddiant. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at ddulliau hyrwyddo eraill, gan gynnwys:

- Yn y Gogledd, mae matiau llygoden â 'Llwybr Gofal Goroeswyr' wedi'i argraffu arnynt wedi'u dosbarthu i asiantaethau a allai wneud atgyfeiriadau.
- Yn Nyfed Powys, mae copïau papur o'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael eu dosbarthu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, fel meddygon teulu, unedau mân anafiadau, ymwelwyr iechyd a bydwragedd.
- Mae'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar gael ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar fewnrwyd rhai sefydliadau.
- Cyfeirir at y Llwybr Gofal Goroeswyr mewn cynadleddau.

10.39 Oni bai bod yr hyfforddiant yn cael ei wneud yn orfodol ar gyfer holl weithwyr iechyd proffesiynol rheng flaen ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol, bydd yn bwysig hyrwyddo'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn well y tu allan i'r maes hyfforddiant yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod pobl nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant yn gwybod am fodolaeth y Llwybr Gofal Goroeswyr, ac yn gwybod sut i wneud atgyfeiriadau iddo.

[33] Yn dilyn trafodaeth ddilynol â'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth, nodwyd bod cynllun cyflenwi 2016-17 ar gyfer gwaith atal caethwasiaeth yng Nghymru yn ymwneud ag ailfrandio'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn Llwybr Gofal Cymru.

**Gallu'r Llwybr Gofal Goroeswyr i ymateb i'r galw cynyddol**

10.40 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo na fyddai'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn gallu ymateb i gynnydd yn y galw. Awgrymwyd rhesymau amrywiol am hyn, gan gynnwys:

- Byddai rhagor o atgyfeiriadau i'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn arwain at fwy o MARACs. Yng nghyd-destun yr adnoddau a'r lefelau staffio presennol, gall hyn arwain at alw na ellir ei reoli ar amser staff i gydgysylltu, mynychu ac adrodd ar MARACs.
- Byddai rhagor o atgyfeiriadau i'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn debygol o olygu y bydd angen cymorth gan wasanaethau ar fwy o ddioddefwyr/goroeswyr posibl. Bydd angen rhagor o adnoddau ar gyfer y llwyth achosion cynyddol ar ffurf staff sydd â'r arbenigedd priodol, ynghyd â rhagor o gyllid.
- Fel arfer, mae nifer cyfyngedig o leoedd ar gael mewn llety diogel, ac ni fyddai'r system yn gallu ymdopi â chynnydd yn nifer y dioddefwyr/goroeswyr[34].
- Mewn achosion lle mae dioddefwyr/goroeswyr lluosog posibl yn cael eu hadnabod ar yr un pryd, nid oes gan rai rhanbarthau'r seilwaith na'r adnoddau i ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa. Er enghraifft, nid oes canolfan derbyn ar gael yn ardal Dyfed Powys.

10.41 Fel sy'n wir am yr hyfforddiant, mae tystiolaeth o'r cyfweliadau yn awgrymu bod sicrhau bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael ei gynnal a'i wella lle bo angen yn dibynnu ar weithgarwch ac ewyllys da gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes ar hyn o bryd. Mae prinder cymharol adnoddau ffurfiol ar gyfer y Llwybr Gofal Goroeswyr yn ei wneud yn fregus os yw staff allweddol sy'n gweithio'n wirfoddol i'w ddatblygu yn gadael eu swyddi, neu os yw blaenoriaethau gwahanol yn golygu na all asiantaethau barhau i gynnig amser staff i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol.

10.42 Yn ogystal, gan nad yw gwasanaethau'n cael eu hariannu yn benodol i gyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr, gallai unrhyw leihad yn y cyllid sy'n dod o ffynonellau eraill effeithio ar y gwasanaethau sy'n darparu pecynnau cymorth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n cael eu hatgyfeirio. Er enghraifft, os yw nifer y gwelyau ar gyfer ffoaduriaid yn lleihau oherwydd problemau ariannu, bydd llai o leoedd ar gael mewn llety diogel ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr.

---

[34] Yn dilyn trafodaeth ddilynol ag arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr, nodwyd bod llety ar gael y tu allan i Gymru os oes angen oherwydd y galw mawr am lety.

10.43 Yn y dyfodol, bydd yn bwysig monitro’r defnydd o wasanaethau gan ddioddefwyr/goroeswyr posibl sy’n defnyddio’r Llwybr Gofal Goroeswyr. Hefyd, bydd yn bwysig defnyddio’r wybodaeth hon i benderfynu a oes angen canfod a darparu cyllid penodol ar gyfer y gwasanaethau hyn fel y gallant ddarparu cymorth i’r rhai sy’n cael eu hatgyfeirio drwy’r Llwybr Gofal Goroeswyr.

**Cyfraniad dioddefwyr at y Llwybr Gofal Goroeswyr**

10.44 Roedd y rhan fwyaf o’r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn ansicr a oedd dioddefwyr/goroeswyr wedi cyfrannu ar unrhyw adeg at gynllunio, darparu neu adolygu’r Llwybr Gofal Goroeswyr. Disgrifiodd lleiafrif o randdeiliaid sut oedd ddioddefwyr/goroeswyr wedi llwyddo i gyfrannu. Er enghraifft, dywedodd dau randdeiliad fod y cymorth sy’n cael ei gynnig gan y Llwybr Gofal Goroeswyr i ddioddefwyr/goroeswyr yn canolbwyntio ar yr unigolyn, felly mae’r rhai sy’n defnyddio’r Llwybr Gofal Goroeswyr yn helpu i gynllunio a darparu eu llwybr eu hunain. Yn ôl rhanddeiliad arall, mae pob sefydliad sy’n cyfrannu at y gwaith o gynllunio’r Llwybr Gofal Goroeswyr yn manteisio ar ei brofiad a’i wybodaeth o weithio gyda dioddefwyr/goroeswyr, ac o ganlyniad roedd mewn sefyllfa i gynrychioli buddiannau dioddefwyr/goroeswyr. Dywedodd rhanddeiliad yn y Gogledd fod BAWSO yn mynd ati i ymgynghori â dioddefwyr/goroeswyr ar gynllunio’r Llwybr Gofal Goroeswyr.

10.45 Cydnabyddir bod cynnwys dioddefwyr/goroeswyr yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn enghraifft o ymarfer da. Yn y dyfodol, byddai’n ddefnyddiol cynnal ymgynghoriad mwy ffurfiol â dioddefwyr/goroeswyr posibl ar y Llwybr Gofal Goroeswyr, gan nodi a oes modd ei wella/sut i’w wella.

# 11. Effaith yr hyfforddiant

## Trosolwg

11.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau yn ymwneud ag effaith yr hyfforddiant. Mae'n archwilio lefelau presenoldeb er mwyn darparu gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi mynychu hyfforddiant. Mae'n ymchwilio i effaith bosibl yr hyfforddiant. Wedyn, mae'n archwilio tystiolaeth o effaith yr hyfforddiant, neu'r effaith ymddangosiadol, ymysg grwpiau o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys mynychwyr, hyfforddwyr a rhanddeiliaid ehangach sy'n gysylltiedig â'r agenda.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

11.2 Mynychodd 4,344 o bobl hyfforddiant ar atal caethwasiaeth yn 2015, sy'n gynnydd o 214% o gymharu â 2014. Mae hyn yn dystiolaeth gadarn bod yr hyfforddiant yn cael ei hyrwyddo a'i ddarparu yn llwyddiannus.

11.3 Nododd hyfforddwyr, mynychwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid ehangach fod yr hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar ddioddefwyr/goroeswyr a gweithwyr proffesiynol, ac o ganlyniad mae'n helpu i sicrhau bod Cymru yn elyniaethus i gaethwasiaeth fodern. Roedd canlyniadau allweddol yr hyfforddiant yn cynnwys: mwy o ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern yng Nghymru; gwella gwybodaeth a chynyddu hyder wrth roi gwybod am ddioddefwyr/goroeswyr posibl, a'u cefnogi; mwy o atgyfeiriadau o ansawdd gwell i'r Llwybr Gofal Goroeswyr a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Amlygir y cynnydd mewn atgyfeiriadau i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn yr ystadegau, ac mae'n ymddangos bod y cynnydd yn cyd-fynd â chyflwyno hyfforddiant, a'r ffaith fod mwy o bobl yn mynychu hyfforddiant.

11.4 Mae Tabl 11.1 yn cynnwys gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi atal caethwasiaeth yn 2014 a 2015. Mae'n dangos bod y niferoedd wedi cynyddu'n gyflym: mynychodd 2,030 o bobl sesiwn hyfforddi yn 2014, a mynychodd 6,374 hyfforddiant yn 2015. Mae hyn yn gynnydd o 214% (neu 4,344 o fynychwyr).

11.5 Y cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth a welodd y cynnydd mwyaf yn nifer y mynychwyr dros y ddwy flynedd, sef cynnydd o 296% (neu 3,490 o fynychwyr). Datblygwyd y cwrs Dysgu dros Ginio yn 2015, felly nid oedd ar gael yn 2014. Mynychodd 597 o bobl sesiynau Dysgu dros Ginio yn 2015, a hwn oedd y cwrs mwyaf poblogaidd ond un.

11.6 Monitro data ar fynychu hyfforddiant

**Tabl 11.1: Presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi 2014-2015**

| Hyfforddiant | 2014 | | | | | 2015 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | C1 | C02 | C3 | C4 | Cyfanswm | |
| Cwrs paratoi hyfforddiant | 80 | 30 | 0 | 0 | 50 | 80 | 160 |
| Cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth | 1,784 | 936 | 976 | 140 | 1,438 | 3490 | 5,274 |
| Cwrs ymatebwyr cyntaf | 106 | 0 | 18 | 21 | 102 | 141 | 247 |
| Cwrs Dysgu dros Ginio | 0 | 22 | 151 | 0 | 424 | 597 | 597 |
| Cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern | 60 | 0 | 12 | 24 | 0 | 36 | 96 |
| Cyfanswm | 2,030 | 988 | 1,157 | 185 | 2,014 | 4,344 | 6,374 |

**Effaith yr hyfforddiant yn ôl yr hyfforddwyr**


11.7 Mae Ffigur 11.1 yn cyflwyno data ar gwestiynau'r arolwg o hyfforddwyr a ofynnodd i hyfforddwyr am effaith yr hyfforddiant ar fynychwyr.

*Effaith ar wybodaeth, sgiliau a hyder*

11.8 Nododd y rhan fwyaf o'r hyfforddwyr fod yr hyfforddiant wedi cael yr effaith ganlynol ar wella gallu mynychwyr:

- Dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern (29).
- Gallu i adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl (28).
- Gwybodaeth am sut i atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern ar gyfer cymorth/ymchwiliad (28).
- Hyder i adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern (26).
- Hyder, sgiliau a dealltwriaeth i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern (26).

**Ffigur 11.1: I ba raddau roedd hyfforddwyr yn cytuno â datganiadau am effaith yr hyfforddiant ar fynychwyr?**




*Effaith ar ymarfer*

11.9 Dywedodd naw hyfforddwr fod mynychwyr wedi datgelu gwybodaeth am ddioddefwyr/goroeswyr neu gyflawnwyr posibl o gaethwasiaeth fodern yn ystod neu ar ôl y cwrs.

11.10 Yn ogystal, roedd yr hyfforddwr a gyflwynodd y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern tri diwrnod yn teimlo bod y cwrs wedi gwella sgiliau ymarferol a hyder y mynychwyr mewn ymchwilio i/erlyn achosion o gaethwasiaeth fodern.

11.11 Hefyd, nododd yr hyfforddwyr fod mynychu hyfforddiant wedi newid ymarfer mynychwyr ym maes caethwasiaeth fodern oherwydd eu bod yn gwneud y canlynol bellach:


- Gofyn mwy o gwestiynau am gaethwasiaeth fodern yn eu cynlluniau cymorth neu yn ystod eu trafodaethau â defnyddwyr gwasanaethau.
- Gofyn i asiantaethau priodol am gyngor yn ymwneud â phryderon penodol.

- Cynyddu nifer yr atgyfeiriadau i Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg Masnachu Pobl (MARACs).
- Cynyddu faint o ffurflenni Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol sy'n cael eu cwblhau.
- Trosglwyddo gwybodaeth fel sy'n briodol.

11.12 Un enghraifft a gafwyd gan hyfforddwr oedd achos lle'r oedd ymwelwyr iechyd wedi mynychu cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth, ac ar ôl hynny'n gallu adnabod arwyddion posibl o gaethwasiaeth fodern mewn cartrefi penodol lle'r oedd ganddynt 'deimlad greddfol bod rhywbeth o'i le' o'r blaen. Yn ogystal, gwnaeth yr ymwelwyr iechyd atgyfeiriad i'r MARAC Masnachu Pobl, gan rannu gwybodaeth â hi hefyd.

**Effaith yr hyfforddiant yn ôl mynychwyr**

**Ffigur 11.2: I ba raddau roedd mynychwyr a holwyd yn cytuno â datganiadau am effaith y cwrs/cyrsiau hyfforddi arnynt?**




*Effaith ar wybodaeth, sgiliau a hyder*

11.13 Yn gyffredinol, nododd y nifer fach iawn o fynychwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein fod y cwrs/cyrsiau hyfforddi wedi cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth, eu gallu, eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder. Mae Ffigur 11.2 yn dangos i ba

raddau roedd mynychwyr yn cytuno â datganiadau am effaith barhaus y cwrs/cyrsiau hyfforddi.

*Effaith ar ymarfer*

11.14 Ers mynychu'r cwrs/cyrsiau hyfforddi, dywedodd tri mynychwr a holwyd eu bod wedi adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern, ac roedd un mynychwr wedi atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern ar gyfer cymorth/ymchwiliad. Yn ogystal, dywedodd pedwar mynychwr eu bod wedi newid eu hymarfer ym maes caethwasiaeth fodern ar ôl mynychu'r cwrs/cyrsiau hyfforddi, yn bennaf o safbwynt adnabod arwyddion o gaethwasiaeth fodern wrth weithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau.

11.15 Dywedodd y ddau berson a fynychodd y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern eu bod wedi ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwilio i/erlyn achosion caethwasiaeth fodern fel Uwch Swyddogion Ymchwilio ers mynychu'r cwrs. Fodd bynnag, nid oedd y naill na'r llall wedi ymwneud ag achosion a arweiniodd at euogfarnau ar gyfer troseddau caethwasiaeth.

11.16 Dywedodd y ddau fynychwr fod y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern wedi gwella eu sgiliau ymarferol a'u hyder mewn ymchwilio i/erlyn achosion o gaethwasiaeth fodern. Yn benodol, dywedodd un o'r mynychwyr fod y cwrs wedi cynyddu ei hyder mewn ysgrifennu penderfyniadau polisi yn ymwneud ag achosion, yn enwedig o ganlyniad i hyfforddiant ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron.

11.17 Mae dadansoddiad o 32 o ffurflenni adborth a gwblhawyd gan fynychwyr hyfforddiant yng Ngwent yn dangos bod 78% (25) wedi dweud eu bod yn deall eu rôl yn well ar ôl mynychu'r hyfforddiant.

**Adborth ansoddol gan fynychwyr**

*Adborth ar gyrsiau Dysgu dros Ginio/atal caethwasiaeth ac ymatebwyr cyntaf*

11.18 Derbyniodd Cordis Bright sampl fach o adborth gan yr arweinydd hyfforddiant a phartneriaid eraill. Roedd y sampl yn cynnwys ffurflenni adborth ac adborth mewn e-byst i hyfforddwyr. Dadansoddwyd yr adborth i greu datganiadau yn ymwneud ag effaith yr hyfforddiant. Felly, mae'r drafodaeth yn yr adran hon yn seiliedig ar sampl fach, ac nid yw'r sampl yn strwythuredig neu'n gynrychioladol.

11.19 Roedd yr adborth cadarnhaol yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith yr hyfforddiant ar gynyddu ymwybyddiaeth mynychwyr cyrsiau o gaethwasiaeth fodern a sut i atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl ar gyfer cymorth. Yn benodol, dywedodd

nifer o fynychwyr fod y DVDs sy’n cynnwys hanesion a lleisiau dioddefwyr/goroeswyr wedi cael effaith emosiynol.

*Adborth ar y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern*

11.20 Nododd mynychwyr y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern fod y cwrs wedi cael effaith ar eu gwybodaeth a’u sgiliau ymarferol. Roeddent yn priodoli effeithiolrwydd y cwrs i’r ffaith ei fod yn efelychu achos gwirioneddol a’i fod yn dwyn ynghyd yr asiantaethau allweddol sy’n ymwneud â’r broses ymchwilio ac erlyn er mwyn darparu hyfforddiant ar y cyd.

11.21 Mae adborth enghreifftiol gan weithwyr proffesiynol o’r asiantaethau allweddol gwahanol a dargedir ar gyfer hyfforddiant yn cynnwys y dyfyniad canlynol gan Dditectif Arolygydd yn yr heddlu:

> ‘Roedd y cwrs Troseddu Cyfundrefnol – Caethwasiaeth Fodern ar y cyd yn hynod ddefnyddiol. Dysgais am y gofynion ymchwilio, anghenion dioddefwyr a’r anawsterau y gallaf eu hwynebu fel Uwch Swyddog Ymchwilio. Yn fuan wedi’r cwrs, fe ymchwiliais i lafur gorfodol cyfundrefnol yn fy Uned Reoli Sylfaenol, a heb y cwrs ni fyddwn wedi gwybod sut i fynd i’r afael â llawer o’r problemau a gododd. Diolch i’r cwrs, llwyddais i greu strategaethau a pholisïau a throsglwyddo’r hyn a ddysgais i’r tîm ymchwilio. O ganlyniad i’r ymchwiliad hwn, cafodd naw dyn eu hachub a chafodd 19 dyn eu harestio, a byddant yn wynebu cyhuddiadau maes o law. Ar ddiwrnod y cyrch, atafaelwyd asedau gwerth £1.08 miliwn!’

11.22 Cafodd y cwrs ei ddisgrifio fel a ganlyn gan un o erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn yr Uned Gwaith Achos Cymhleth: ‘Roedd yn gwrs da iawn. Roedd ganddo ddynamig achos go iawn ac roedd mewnbwn yr Heddlu yn agoriad llygad ac yn addysgiadol iawn.’

Meddai swyddog gwybodaeth maes rhanbarthol o’r Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau: ‘Yn ogystal â fformat y cwrs, un o’r prif fanteision eraill oedd y cyfle i ddwyn ynghyd Uwch Swyddogion Ymchwilio’r heddlu. Hefyd, llwyddodd y cwrs i godi ymwybyddiaeth o natur gymhleth ymchwiliadau i gaethwasiaeth, codi ymwybyddiaeth o’r Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau, a datblygu cysylltiadau fel bod unigolion yn gallu cynorthwyo ei gilydd.’

**Gwerthusiadau rhanddeiliaid o effaith yr hyfforddiant**

*Effaith ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr*

11.23 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi dioddefwyr/goroeswyr. Nodwyd y canlynol fel y prif newidiadau cadarnhaol a ddeilliodd o'r hyfforddiant:

- Mwy o ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern ymysg unigolion.
- Codi proffil caethwasiaeth fodern mewn sefydliadau.
- Gwella gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau.
- Gwella gwybodaeth am weithdrefnau adrodd a ffurflenni atgyfeirio.
- Cynyddu hyder staff i ymdrin ag achosion o gaethwasiaeth fodern.
- Mwy o atgyfeiriadau i'r Llwybr Gofal Goroeswyr a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.
- Gwella ansawdd atgyfeiriadau.

11.24 Dim ond dau randdeiliad a gafodd eu cyfweld a oedd yn credu y gallai hyfforddiant gael mwy o effaith ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr. Er gwaetha'r hyfforddiant, roedd un rhanddeiliad yn credu bod lefelau ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth yn isel o hyd. Yn ôl rhanddeiliad arall, er bod yr hyfforddiant yn cael croeso mawr fel arfer, nid oedd yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau penodol lle'r oedd modd dangos bod hyfforddiant wedi newid arferion.

*Effaith ar weithwyr proffesiynol sy'n ymchwilio i achosion*

11.25 Yn gyffredinol, roedd pob un o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar ymchwiliadau. Gan gyfeirio at y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern yn benodol, roedd y rhanddeiliaid yn credu bod yr hyfforddiant wedi gwneud y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern ymysg swyddogion yr heddlu, Uwch Swyddogion Ymchwilio, erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron a staff ymchwilio allweddol eraill.
- Cynyddu gwybodaeth am droseddau caethwasiaeth fodern.

- Cynyddu hyder i erlyn achosion o gaethwasiaeth fodern.
- Gwella gwaith amlasiantaeth.
- Arwain at fwy o ymchwiliadau, gan gynnwys achosion newydd ac ailymchwilio i achosion blaenorol ar ôl gwella gwybodaeth am droseddau'n ymwneud â chaethwasiaeth.
- Arwain at fwy o euogfarnau.

11.26 Mae un sylw gan randdeiliad yn darparu tystiolaeth anecdotaidd bod y cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern wedi newid canfyddiadau mynychwyr o natur achosion a sut i ymdrin â nhw:

> 'Yn ôl erlynwyr, mae dysgu am natur gymhleth achosion wedi newid eu canfyddiad. Yn y gorffennol, byddent wedi rhannu'r diwylliant o anghrediniaeth, ond ar ôl derbyn hyfforddiant maent yn teimlo'n fwy hyderus i erlyn achos o fasnachu pobl.'

11.27 Yn ôl un rhanddeiliad sy'n gyfarwydd â dulliau gweithredu Gwasanaeth Erlyn y Goron, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud nifer o newidiadau sefydliadol ym maes caethwasiaeth fodern ar ôl i staff fynychu'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi sefydlu adnoddau gwaith achos ar ei system fewnrwyd, sy'n cynnwys adran ar gaethwasiaeth fodern ac E-ddysgu masnachu pobl.

11.28 Yn ôl un rhanddeiliad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros oruchwylio achosion o gaethwasiaeth fodern, mae adnabod achosion o fasnachu pobl wedi gwella diolch i'r hyfforddiant. Er enghraifft, mae modd ailedrych ar achosion a fyddai wedi cael eu trin fel anghydfodau sifil neu faterion mewnfudo o'r blaen er mwyn chwilio am arwyddion posibl o gamfanteisio. Hefyd, roedd y rhanddeiliad hwn yn credu bod hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar y berthynas rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd, a'u bod yn cyfathrebu'n well.

11.29 Dim ond un rhanddeiliad a gafodd ei gyfweld a oedd yn ansicr am effaith hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag ymchwiliadau, gan nad oedd yn credu bod yr effaith hon wedi'i phrofi mewn ffordd fesuradwy.

*Effaith ar ddioddefwyr/goroeswyr*

11.30 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod yr hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar ddioddefwyr/goroeswyr, gan gyfeirio at nifer o ganlyniadau cadarnhaol allweddol ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr:

- Mae mwy o ddioddefwyr/goroeswyr yn cael eu hadnabod oherwydd bod mynychwyr hyfforddiant wedi dysgu sut i adnabod arwyddion a symptomau o gaethwasiaeth fodern.
- Mae mwy o ddioddefwyr/goroeswyr yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth oherwydd bod y rhai sy'n mynychu'r hyfforddiant yn gwybod am y llwybr atgyfeirio cywir.
- Ymchwilir i fwy o achosion dioddefwyr/goroeswyr gan fod ansawdd yr atgyfeiriadau yn uwch ymysg staff sydd wedi'u hyfforddi, ac mae staff rheng flaen mewn swyddi ymchwilio yn fwy tebygol o gredu'r atgyfeiriadau sy'n dod i law.
- Mae dioddefwyr/goroeswyr yn derbyn cymorth amlasiantaeth o ansawdd uwch gan fod staff sydd wedi'u hyfforddi mewn sefydliadau yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau, gan arwain at gymorth mwy cydgysylltiedig a holistaidd.
- O ganlyniad i'r uchod, mae mwy o ddioddefwyr/goroeswyr yn cael eu diogelu.
- O ganlyniad i'r uchod, mae mwy o ddioddefwyr/goroeswyr yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt a'u parchu. Mae hyn yn golygu bod modd iddynt ddarparu mwy o wybodaeth am eu hachos eu hunain a rhoi adborth ar y cymorth a gawsant, gan gynnig mwy o gyfleoedd i wella cymorth.

11.31 Roedd dau randdeiliad a gafodd eu cyfweld yn ansicr am effaith yr hyfforddiant ar ddioddefwyr/goroeswyr. Yn ôl y rhanddeiliaid hyn, nid oes unrhyw ddull clir o fesur yr effaith wedi'i sefydlu eto, a'i bod yn rhy gynnar yn y broses o ddatblygu'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr i asesu'r effaith hirdymor.

## 12. Proffil dioddefwyr/goroeswyr posibl sy’n defnyddio’r Llwybr Gofal Goroeswyr

### Trosolwg

12.1 Mae’r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau yn ymwneud â phroffil dioddefwyr/goroeswyr posibl sy’n defnyddio’r Llwybr Gofal Goroeswyr.

### Crynodeb o’r canfyddiadau

12.2 Ers ei sefydlu, mae 105 o ddioddefwyr/goroeswyr posibl wedi’u hatgyfeirio i’r Llwybr Gofal Goroeswyr a’u trafod mewn MARAC. Mae’r nifer fwyaf o atgyfeiriadau i’r Llwybr Gofal Goroeswyr wedi’u gwneud yng Nghaerdydd a’r Fro. Cyflwynwyd y Llwybr Gofal Goroeswyr yn gynharach yng Nghaerdydd a’r Fro na mewn rhanbarthau eraill, ac mae wedi cael mwy o amser i ymsefydlu.

12.3 Nid oes llawer o dystiolaeth o batrymau yn y math o gamfanteisio neu broffil y dioddefwyr/goroeswyr sydd wedi’u hatgyfeirio i’r Llwybr Gofal Goroeswyr hyd yn hyn. Dylid monitro’r sefyllfa hon yn gyson dros gyfnod hirach fel bod modd nodi unrhyw batrymau posibl.

### Nifer y dioddefwyr/goroeswyr posibl a atgyfeiriwyd i MARAC

12.4 Ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2014, mae 105 o ddioddefwyr/goroeswyr posibl wedi’u hatgyfeirio i’r Llwybr Gofal Goroeswyr a’u trafod mewn MARAC.

12.5 Mae Ffigur 12.1 yn dangos nifer yr atgyfeiriadau ym mhob un o’r pedwar rhanbarth rhwng mis Ebrill 2014 a mis Rhagfyr 2015[35]. Cafodd 60% o’r holl atgyfeiriadau i’r Llwybr Gofal Goroeswyr eu gwneud yng Nghaerdydd a’r Fro (63). Cafodd 14% (15) eu gwneud yn y Gogledd a 15% (16) eu gwneud ym Mae’r Gorllewin. Cafodd 8% (8) o’r atgyfeiriadau eu gwneud yng Ngwent, a llai na 2% yr un yn Nyfed Powys (2) a Merthyr (1).


12.6 Mae’r ffaith fod y Llwybr Gofal Goroeswyr wedi’i gyflwyno’n gynharach yng Nghaerdydd a’r Fro nag yn y rhanbarthau eraill yn rheswm posibl am y gyfran uchel o atgyfeiriadau yng Nghaerdydd a’r Fro. Ar ôl i’r Llwybr Gofal Goroeswyr fod ar waith ym mhob rhanbarth am gyfnod hirach, bydd angen archwilio’r data eto i weld

[35] Er bod y prosesau llywodraethu, strwythuro a hyfforddi yn adrodd ledled pum rhanbarth, mae data monitro’r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cyfuno Gwent, Dyfed Powys a Merthyr, gan adrodd ledled pedwar rhanbarth. Yn y dyfodol, da o beth fyddai sicrhau bod rhanbarthau adrodd ar y Llwybr Gofal Goroeswyr a rhanbarthau adrodd ar hyfforddiant yn cyfateb, er mwyn archwilio effaith hyfforddiant ar weithgarwch y Llwybr Gofal Goroeswyr. Byddai’n gwneud synnwyr i’r rhanbarthau adrodd gyfateb i’r rhanbarthau yn y strwythur llywodraethu.

a yw nifer yr atgyfeiriadau yng Nghaerdydd a'r Fro (neu mewn unrhyw ranbarth arall) yn uwch yn gyson.


12.7 Hefyd, byddai'n ddefnyddiol archwilio'r cyd-destun ar gyfer atgyfeiriadau, o safbwynt gwahaniaethau rhanbarthol posibl yn nifer yr achosion (sy'n anodd i'w nodi oherwydd nifer anhysbys y dioddefwyr/goroeswyr cudd) ac o safbwynt unrhyw achosion lle mae dioddefwyr/goroeswyr lluosog posibl yn cael eu hadnabod fel rhan o'r un achos (a fydd yn arwain at lawer iawn o atgyfeiriadau i'r Llwybr Gofal Goroeswyr)[36].

**Ffigur 12.1: Cyfanswm yr atgyfeiriadau i MARAC fesul rhanbarth**




[36] Dangosodd trafodaeth ddilynol â rhanddeiliaid allweddol fod y grŵp arwain wedi cytuno ar gam gweithredu ym mis Chwefror 2016. Fel rhan o'r cam hwn, byddai arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr a'r arweinydd hyfforddiant yn ystyried proffil dioddefwyr/goroeswyr posibl a atgyfeiriwyd i'r Llwybr Gofal Goroeswyr a/neu'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn 2015. Nodir y bydd y gwaith proffilio hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio unrhyw newidiadau i'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn y dyfodol. Dyma enghraifft o wella'r dull o fonitro a chyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr wrth iddo ennill ei blwyf.

**Ffigur 12.2: Cyfanswm yr atgyfeiriadau i MARAC fesul mis**





12.8 Mae Ffigur 12.2 yn dangos gwybodaeth fisol am gyfanswm yr atgyfeiriadau i'r MARACs ym mhob rhanbarth. Mae'n anodd nodi unrhyw batrwm ar sail y data hwn, yn rhannol oherwydd bod y data yn ymwneud â chyfnod cymharol fyr ers sefydlu'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Hefyd, mae nifer yr atgyfeiriadau yn gymharol isel yn gyffredinol, felly mae cynnydd bach yn nifer yr atgyfeiriadau mewn mis penodol yn cael ei gofnodi fel newid cymharol fawr mewn lefelau atgyfeirio.

**Proffil o ddioddefwyr/goroeswyr posibl a atgyfeiriwyd i MARAC**


12.9 Mae'r adroddiadau monitro ar weithgarwch MARAC yn cynnwys data demograffig y mae modd ei ddefnyddio i broffilio dioddefwyr/goroeswyr posibl a atgyfeiriwyd i'r Llwybr Gofal Goroeswyr, ac felly nodi unrhyw nodweddion cyffredin ymysg dioddefwyr/goroeswyr posibl. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod gan y Llwybr Gofal Goroeswyr ddigon o adnoddau i ddiwallu unrhyw anghenion penodol y grwpiau hyn. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen sgiliau iaith a gwybodaeth ddiwylliannol arbenigol ar staff er mwyn cynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n perthyn i grwpiau ethnig penodol.

*Ethnigrwydd*

**Ffigur 12.3: Ethnigrwydd dioddefwyr/goroeswyr posibl**




**Ffigur 12.4: Ethnigrwydd dioddefwyr/goroeswyr posibl yn ôl rhanbarth**





12.10 Mae Ffigurau 12.3 a 12.4 yn dangos ethnigrwydd dioddefwyr/goroeswyr posibl a drafodwyd mewn MARACs rhwng mis Ebrill 2014 a mis Rhagfyr 2015. Ar lefel genedlaethol, Rwmanaidd oedd yr ethnigrwydd mwyaf cyffredin (16 atgyfeiriad), er bod pob un o'r dioddefwyr/goroeswyr posibl hyn wedi'u hadnabod yng Nghaerdydd a'r Fro. Yr ethnigrwydd mwyaf cyffredin ond un oedd Fietnameaidd (naw atgyfeiriad). Yn gyffredinol, roedd dioddefwyr/goroeswyr posibl yn dod o amrywiaeth

eang o gefndiroedd ethnig. Oherwydd hyn efallai, ychydig iawn o orgyffwrdd sydd rhwng ethnigrwydd dioddefwyr/goroeswyr posibl mewn rhanbarthau gwahanol. Dim ond dau ethnigrwydd a gofnodwyd mewn tri rhanbarth: Prydeinig a Fietnameaidd.


12.11 Defnyddiwyd categorïau o ethnigrwydd mewn ffordd anghyson ledled y rhanbarthau. Er enghraifft, defnyddiwyd y categori 'Prydeinig' mewn rhai rhanbarthau, tra bod rhanbarthau eraill wedi defnyddio 'Cymreig' a 'Seisnig'. Yn yr un modd, roedd rhai rhanbarthau wedi defnyddio'r term 'Affricanaidd' tra bod eraill wedi defnyddio is-gategorïau er mwyn cofnodi'r wlad tarddiad. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd cymharu data ledled y rhanbarthau neu goladu data ynglŷn â'r sefyllfa genedlaethol. Yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol sicrhau bod data yn cael ei gasglu a'i adrodd yn gyson ledled y rhanbarthau.

*Oedran*

**Ffigur 12.5: Oedran dioddefwyr/goroeswyr posibl**



**Ffigur 12.6: Oedran dioddefwyr/goroeswyr posibl yn ôl rhanbarth[37]**




12.12 Mae Ffigurau 12.5 a 12.6 yn dangos oedran dioddefwyr/goroeswyr posibl a drafodwyd mewn MARACs rhwng mis Ebrill 2014 a mis Rhagfyr 2015. Cofnodwyd oedran mewn 85 achos. Ar lefel genedlaethol, roedd y rhai a atgyfeiriwyd i'r MARAC yn blant neu'n oedolion ifanc fel arfer; roedd 27 o ddioddefwyr/goroeswyr posibl yn 15 oed neu'n iau (32%) ac roedd 28 o ddioddefwyr posibl rhwng 16 a 21 oed (33%).

12.13 Ar lefel ranbarthol, atgyfeiriodd Caerdydd a'r Fro gyfran gymharol uchel o ddioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n blant (24 neu 41%). Fodd bynnag, yn y Gogledd, atgyfeiriwyd cyfran gymharol uchel o bobl rhwng 31 a 40 oed (5 neu 38%, o gymharu â'r gyfran genedlaethol o 19%) ac o bobl 41 oed a throsodd (3 neu 23%, o gymharu â'r gyfran genedlaethol o 6%).

*Rhyw*


12.14 Derbyniodd Cordis Bright ddata yn ymwneud â rhyw pob dioddefwr/goroeswr a atgyfeiriwyd i'r MARACs yn Nyfed, Powys, Gwent, Merthyr, y Gogledd a Bae'r Gorllewin, a phob un a atgyfeiriwyd rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2015 yng Nghaerdydd a'r Fro (cyfanswm o 68 o ddioddefwyr/goroeswyr posibl). Mae Ffigur 12.7 yn cyflwyno data ar gyfran y menywod a atgyfeiriwyd i'r MARACs yn 2015. Ar lefel genedlaethol, roedd 68% o'r dioddefwyr/goroeswyr posibl yn fenywod. Roedd

[37] Cofnodwyd data ar oedran fel un cyfanswm ar gyfer Gwent, Dyfed Powys a Merthyr. O ganlyniad, nid oedd modd manylu ar y data yn y dadansoddiad.

rhywfaint o wahaniaeth rhwng y rhanbarthau, ond roedd o leiaf 63% o'r achosion a atgyfeiriwyd yn ymwneud â menywod.

12.15 Bydd yn bwysig monitro'r data hwn yn gyson, a'i gymharu â ffynonellau data eraill yn ymwneud â rhyw dioddefwyr/goroeswyr posibl. Bydd hyn yn helpu i ddeall a yw cyfran y dioddefwyr/goroeswyr benywaidd posibl yn aros yn gymharol gyson; a yw hyn yn adlewyrchu cyfran y menywod mewn data ehangach ar nifer achosion; a oes angen addasu'r Llwybr Gofal Goroeswyr i ddarparu ar gyfer y gyfran uwch o ddioddefwyr benywaidd a/neu a oes angen addasu'r hyfforddiant ar atal caethwasiaeth neu'r Llwybr Gofal Goroeswyr er mwyn helpu i adnabod rhagor o ddioddefwyr/goroeswyr gwrywaidd posibl.

**Ffigur 12.7: Canran y dioddefwyr/goroeswyr benywaidd a atgyfeiriwyd yn 2015**[38]




*Rhywioldeb*


12.16 Derbyniodd Cordis Bright ddata ar rywioldeb pob dioddefwr/goroeswr a atgyfeiriwyd i'r MARACs yn Nyfed, Powys, Gwent, Merthyr, y Gogledd a Bae'r Gorllewin a phob un a atgyfeiriwyd rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2015 yng Nghaerdydd a'r Fro (cyfanswm o 68 o ddioddefwyr/goroeswyr posibl). Nodwyd bod 67 (99%) o'r unigolion hyn yn heterorywiol. Fel sy'n wir am ryw, bydd yn bwysig monitro'r data hwn yn rheolaidd, ochr yn ochr â ffynonellau data eraill, gan ystyried unrhyw oblygiadau ar gyfer y Llwybr Gofal Goroeswyr neu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth.

[38]Cofnodwyd data ar ryw fel un cyfanswm ar gyfer Gwent, Dyfed Powys a Merthyr. O ganlyniad, nid oedd modd manylu ar y data yn y dadansoddiad.


**Y mathau o gamfanteisio honedig y mae dioddefwyr/goroeswyr posibl yn eu dioddef**

12.17 Derbyniodd Cordis Bright ddata ynglŷn â'r mathau honedig o gamfanteisio a ddioddefodd pob un o'r dioddefwyr/goroeswyr a atgyfeiriwyd i'r MARACs yn Nyfed, Powys, Gwent, Merthyr, y Gogledd a Bae'r Gorllewin, a phob un a atgyfeiriwyd rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2015 yng Nghaerdydd a'r Fro (cyfanswm o 68 o ddioddefwyr/goroeswyr posibl). Mae Ffigurau 12.8 a 12.9 yn crynhoi'r data.

**Ffigur 12.8: Y mathau honedig o gamfanteisio a wynebodd ddioddefwyr/goroeswyr posibl a atgyfeiriwyd yn 2015**



**Ffigur 12.9: Y mathau honedig o gamfanteisio fesul rhanbarth** [39]




12.18 Mae Ffigurau 12.8 a 12.9 yn dangos mai'r math mwyaf cyffredin o gamfanteisio yn 2015 oedd camfanteisio rhywiol. Roedd 23 achos honedig o gamfanteisio rhywiol (34%). Roedd 15 achos honedig o gamfanteisio ar weithwyr (22%) a 12 achos o gamfanteisio troseddol (18%). Cofnodwyd 12 achos fel 'Amherthnasol/ddim yn achosion masnachu' (18%).

12.19 Gan fod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddata blwyddyn, mae'n anodd nodi unrhyw wahaniaethau yn y mathau o gamfanteisio a ddigwyddodd/a nodwyd mewn rhanbarthau gwahanol. Bydd yn bwysig monitro mathau o gamfanteisio yn gyson er mwyn nodi unrhyw dueddiadau posibl sy'n dod i'r amlwg ar lefel genedlaethol neu ranbarthol.

[39] Cofnodwyd data ar gamfanteisio fel un cyfanswm ar gyfer Gwent, Dyfed Powys a Merthyr. O ganlyniad, nid oedd modd manylu ar y data yn y dadansoddiad.

# 13. Dadansoddi astudiaethau achos o’r daith drwy’r Llwybr Gofal Goroeswyr

## Trosolwg

13.1 Mae’r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau dadansoddiadau chwe astudiaeth achos o daith dioddefwyr/goroeswyr posibl drwy’r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae’r astudiaethau achos yn canolbwyntio ar oedolion a phlant sy’n ddioddefwyr/goroeswyr posibl. Mae’r bennod yn ystyried themâu amrywiol, gan gynnwys diben atgyfeiriadau i’r Llwybr Gofal Goroeswyr, datblygiadau ym meysydd cymorth ac ymchwiliadau’r heddlu yn sgil yr atgyfeiriad i’r Llwybr Gofal Goroeswyr, a chanlyniadau’r Llwybr Gofal Goroeswyr.

## Crynodeb o’r canfyddiadau

13.2 Mae’r dadansoddiad o’r astudiaethau achos yn dangos natur gymhleth yr achosion sy’n cael eu hatgyfeirio i’r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae’n dangos bod asiantaethau â gwybodaeth arbenigol yn gwneud atgyfeiriadau i’r Llwybr Gofal Goroeswyr ochr yn ochr ag asiantaethau anarbenigol. Ymddengys bod atgyfeiriadau’n cael eu gwneud ar gyfer achosion cyfredol o gaethwasiaeth fodern honedig ac achosion hanesyddol. Mae’r atgyfeiriad yn arwain at MARAC sy’n cynnwys gweithgareddau yn ymwneud â chymorth ac ymchwilio. Mae’r gweithgareddau hyn yn arwain at ganlyniadau cymorth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl, canlyniadau ymchwilio a gwybodaeth, a chanlyniadau ar gyfer gwaith amlasiantaeth.

## Natur gymhleth achosion

13.3 Mae’r chwe astudiaeth achos yn ymwneud ag achosion unigol ac nid ydynt yn cynrychioli pob taith drwy’r Llwybr Gofal Goroeswyr. Fodd bynnag, maent yn amlygu natur gymhleth yr achosion sy’n cael eu hatgyfeirio i’r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae’r natur gymhleth yn deillio o anghenion cymorth lluosog dioddefwyr/goroeswyr posibl, ac yn deillio o nifer ac ystod yr asiantaethau sydd wedi cyfrannu at achos hanesyddol, sy’n cyfrannu at achos ar hyn o bryd neu sydd angen cyfrannu at achos yn dilyn atgyfeiriad i’r Llwybr Gofal Goroeswyr.

## Diben atgyfeiriadau i’r Llwybr Gofal Goroeswyr

13.4 Roedd yr astudiaethau achos yn ymwneud ag amrywiaeth o fathau gwahanol o gamfanteisio honedig, gan gynnwys camfanteisio rhywiol, caethwasanaeth domestig a chamfanteisio troseddol.

13.5 Mae tair astudiaeth achos yn ymwneud ag achosion honedig diweddar o gaethwasiaeth fodern, ac mae'n bosibl bod y dioddefwyr/goroeswyr yn yr achosion hyn o dan fygythiad o hyd. Maent yn enghraifft o'r broses yn defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr a'r MARACs cysylltiedig i ymchwilio i achosion honedig o gaethwasiaeth fodern a chyrchu neu wella cymorth amlasiantaeth ar gyfer pob dioddefwr/goroeswr posibl.

13.6 Mae tair astudiaeth achos yn ymwneud ag achosion honedig o gaethwasiaeth fodern a oedd yn achosion hanesyddol adeg eu hatgyfeirio i'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae hyn yn ddiddorol ac mae'n awgrymu nad yw'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael ei ddefnyddio yn unig i ddwyn ynghyd asiantaethau i ymateb i berygl uniongyrchol i'r dioddefwyr/goroeswyr posibl sydd wedi cael eu hatgyfeirio.

13.7 Mewn dau achos, mae'n ymddangos bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i hyrwyddo'r broses o rannu gwybodaeth at ddibenion ymchwilio. Fodd bynnag, gall y broses hon arwain at ganlyniadau ar gyfer y dioddefwr drwy ei gynorthwyo i ddatrys yr achos.

13.8 Yn y trydydd achos o gaethwasiaeth fodern hanesyddol honedig, mae'n ymddangos bod y Llwybr Gofal Goroeswyr wedi'i ddefnyddio i sbarduno pecyn cymorth amlasiantaeth ar gyfer y dioddefwyr/goroeswyr posibl, a gellid dadlau y dylai'r pecyn cymorth hwn fod wedi bod ar gael drwy borth nad yw'n gysylltiedig â chaethwasiaeth (fel gwasanaethau plant neu wasanaethau cam-drin domestig).

**Adnabod y dioddefwr/dioddefwyr neu'r goroeswr/goroeswyr posibl**

13.9 Mae tair astudiaeth achos yn enghreifftiau o atgyfeiriadau i'r Llwybr Gofal Goroeswyr sy'n cael eu gwneud gan weithwyr proffesiynol nad ydynt yn arbenigo ym maes caethwasiaeth fodern. Mewn dau o'r achosion hyn, nodir cysylltiad uniongyrchol â hyfforddiant ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth gan fod y gweithiwr proffesiynol a wnaeth yr atgyfeiriad wedi mynychu'r hyfforddiant yn ddiweddar. Felly, mae'n ymddangos bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cyflawni ei amcan arfaethedig yn yr achosion hyn drwy ddarparu gweithwyr proffesiynol anarbenigol sy'n nodi achosion posibl o gaethwasiaeth fodern â mewnbwn arbenigol ac ymateb amlasiantaeth i waith ymchwilio a chynorthwyo.

13.10 Mae'r tair astudiaeth achos arall yn enghreifftiau o asiantaeth arbenigol o'r trydydd sector (naill ai BAWSO neu Lwybrau Newydd) yn atgyfeirio dioddefwr/dioddefwyr neu oroeswr/goroeswyr posibl i'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Yn yr achosion hyn, mae'n ymddangos bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cyflawni ei amcan gan fod yr

atgyfeiriad yn arwain at drafodaeth MARAC, sy'n golygu bod y gweithwyr proffesiynol arbenigol yn gallu derbyn gwybodaeth gan amrywiaeth ehangach o asiantaethau (yn enwedig asiantaethau cyfiawnder troseddol) a/neu ddatblygu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig o gynorthwyo'r dioddefwr/dioddefwyr neu'r goroeswr/goroeswyr posibl.

**Gweithgarwch sy'n deillio o'r atgyfeiriad i'r Llwybr Gofal Goroeswyr**

13.11 Ym mhob un o'r chwe astudiaeth achos, trafodwyd yr achos mewn MARAC, a gynhaliwyd fel arfer ymhen wythnos neu bythefnos i ddyddiad yr atgyfeiriad i'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mynychwyd y MARACs gan asiantaethau perthnasol, a rhannwyd gwybodaeth am yr achos. Mewn sawl astudiaeth achos, nid oedd rhai asiantaethau yn y MARAC wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol. Mewn astudiaethau achos eraill, roedd pob un o'r asiantaethau wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol, ond nid oeddent wedi gweithio mewn partneriaeth na rhannu gwybodaeth â'i gilydd o reidrwydd.

13.12 Neilltuwyd asiantaethau arwain yn y MARACs, a chytunwyd ar gamau gweithredu amrywiol. Roedd y camau gweithredu'n ymwneud ag ymchwilio i'r gaethwasiaeth fodern honedig a chynorthwyo'r dioddefwr/dioddefwyr neu'r goroeswr/goroeswyr posibl. Mewn rhai achosion, roedd y camau gweithredu'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau rannu gwybodaeth am ymchwiliadau a oedd wedi cau ar ôl cael eu cynnal yn y gorffennol.

**Effaith y Llwybr Gofal Goroeswyr**

13.13 Amlygodd yr astudiaethau achos amrywiaeth o ganlyniadau gwahanol ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr yn sgil y Llwybr Gofal Goroeswyr, gan gynnwys:

- Dod o hyd i lety diogel.
- Defnyddio gwasanaethau eraill i sicrhau canlyniadau penodol, fel canlyniadau iechyd neu addysg.
- Sicrhau penderfyniad mewnfudo cadarnhaol gan UKVI.

13.14 Hefyd, mewn dwy o'r astudiaethau achos, roedd yr atgyfeiriad i'r Llwybr Gofal Goroeswyr a'r wybodaeth a rannwyd yn y MARAC wedyn wedi galluogi asiantaeth ymatebwr cyntaf i gwblhau Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gan arwain at benderfyniad seiliau cadarn.

13.15 Dangosodd pob un o'r astudiaethau achos fod yr atgyfeiriad i'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn arwain at rannu mwy o wybodaeth fanwl ac amserol ymysg

amrywiaeth ehangach o asiantaethau, ac na fyddai hyn wedi digwydd heb y Llwybr Gofal Goroeswyr. Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer cynllunio a darparu cymorth amlasiantaeth i ddioddefwyr/goroeswyr posibl. Mewn rhai achosion, mae'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer ymchwilio i droseddau honedig yn ymwneud â chaethwasiaeth, neu ar gyfer rhannu gwybodaeth am ymchwiliadau blaenorol.

## 14. Effaith y llwybr gofal goroeswyr

### Trosolwg

14.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi tystiolaeth o effaith y Llwybr Gofal Goroeswyr[40]. Mae'n ystyried yr effaith ar ddioddefwyr/goroeswyr posibl ac ar weithwyr proffesiynol a gwaith amlasiantaeth.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

14.2 Mae tystiolaeth gadarn o ganlyniadau'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn gyfyngedig gan nad yw'r canlyniadau yn cael eu nodi'n gyson yn y data monitro[41]. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen cynllun gweithredu unigol ar gyfer dros 40% o'r dioddefwyr/goroeswyr posibl a atgyfeiriwyd i'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Ymhlith y canlyniadau a gofnodwyd yn y data monitro oedd dod o hyd i lety diogel a sicrhau penderfyniad seiliau casgliad cadarnhaol gan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

14.3 Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y Llwybr Gofal Goroeswyr wedi cael effaith gadarnhaol iawn. Roedd hyn yn seiliedig ar hygyrchedd, amseroldeb ac ansawdd y broses amlasiantaeth o rannu gwybodaeth a chynllunio cymorth. Ymhlith y canlyniadau a nodwyd gan randdeiliaid oedd y ffaith fod mwy o ddioddefwyr/goroeswyr posibl wedi cael gafael ar gymorth holistaidd, amlasiantaeth, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer eu diogelwch ac yn ailadeiladu eu bywydau. Roedd y canlyniadau eraill yn cynnwys gwella gweithgarwch a llwyddiant wrth ymchwilio i droseddau yn ymwneud â chaethwasiaeth.

### Canlyniadau a nodwyd yn y data monitro


14.4 Nodwyd y canlyniadau drwy edrych ar nodiadau achosion ysgrifenedig yn yr adroddiadau monitro ar gyfer MARACs. Nid oedd y nodiadau wedi'u cofnodi mewn ffordd gyson, naill ai rhwng rhanbarthau neu yn yr un rhanbarth. Yn benodol, dim ond Caerdydd a'r Fro a Bae'r Gorllewin a oedd wedi cofnodi gwybodaeth i gadarnhau a oedd achos wedi'i gau i'r MARAC. Yn ogystal, nid oedd nifer yr atgyfeiriadau yn cyfateb i nifer yr achosion yr oedd nodiadau wedi'u cynnwys ar eu cyfer. Yn y dyfodol, byddai'n fanteisiol cyflwyno fformat safonol ar gyfer adran

[40] Mae Pennod 13 yn cynnwys rhywfaint o dystiolaeth o effaith a amlygir gan yr astudiaethau achos.
[41] Dywedodd uwch randdeiliaid wrth Cordis Bright fod profforma safonol ar gael i gofnodi canlyniadau MARAC. Fodd bynnag, ni adolygodd Cordis Bright gopïau wedi'u cwblhau o'r pro fforma hwn, felly nid yw'n gallu gwneud sylw ar y graddau y mae wedi'i gwblhau neu ei effeithiolrwydd yn cofnodi data ar ganlyniadau.

nodiadau achos yr adroddiadau monitro, yn ogystal â chynnwys data meintiol ar ganlyniadau.

*Canlyniadau MARAC*

**Ffigur 14.1: Canlyniadau MARAC**





14.5 Mae Ffigur 14.1 yn crynhoi'r canlyniadau MARAC ar gyfer yr 86 achos lle'r oedd modd nodi canlyniad. Ar lefel genedlaethol, penderfynwyd bod angen cynllun gweithredu unigol mewn 38 achos (44%). Roedd 28 o'r unigolion hyn wedi ymgysylltu â'r cymorth (33% o'r holl achosion.

14.6 Mae Ffigur 14.2 yn cyflwyno data ar y canlyniadau unigol a gofnodwyd yn yr adroddiadau monitro ar gyfer y MARACs. Dangosir data lefel genedlaethol yn unig gan nad oes modd cymharu data rhanbarthol oherwydd y gwahaniaeth mawr rhwng nifer yr achosion ym mhob rhanbarth a'r nifer fach o ganlyniadau a gofnodwyd yn yr adroddiadau yn gyffredinol.

14.7 Cofnodwyd cyfanswm o 22 o ganlyniadau cadarnhaol. Y canlyniad cadarnhaol mwyaf cyffredin oedd dioddefwr/goroeswr posibl yn dod o hyd i lety diogel, a chofnodwyd hynny mewn 12 achos. Fodd bynnag, cofnodwyd canlyniad negyddol mewn 8 achos, sef nad oedd y dioddefwr/goroeswr posibl yn byw yn yr ardal bellach neu nad oedd ei leoliad yn hysbys.

*Canlyniadau ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl*

**Ffigur 14.2 Canlyniadau ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl**




**Gwerthusiadau rhanddeiliaid o'r effaith**

14.8 Dywedodd arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr fod cynrychiolwyr o ranbarthau yn Lloegr yn cysylltu â hi yn rheolaidd i ddysgu am y gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae hyn yn awgrymu bod rhanddeiliaid y tu allan i Gymru yn credu bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn llwyddiannus.

*Effaith ar ddioddefwyr/goroeswyr posibl*

14.9 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fod y Llwybr Gofal Goroeswyr wedi cael effaith gadarnhaol ar ddioddefwyr/goroeswyr posibl am y rhesymau canlynol:

- Mae defnyddio MARACs yn gwella'r broses o rannu gwybodaeth am achosion, sy'n golygu bod gan asiantaethau sy'n gweithio gyda dioddefwr/troseddwr posibl wybodaeth fwy cyflawn am anghenion risg a chymorth.
- Mae defnyddio MARACs yn arwain at gyfathrebu ac ymrwymiad i weithredu mwy amserol, sy'n golygu bod dioddefwyr/goroeswyr posibl yn gallu derbyn cymorth priodol a holistaidd yn gyflymach.
- Mae dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael cynnig pecynnau cymorth mwy teilwredig a holistaidd.
- Mae dioddefwyr/goroeswyr posibl yn teimlo bod mwy o barch atynt a bod eu llais yn cael ei glywed i raddau mwy nag o dan y trefniadau blaenorol.

- Mae defnyddio'r MARAC yn golygu bod modd rhannu gwybodaeth â'r heddlu, sy'n golygu y gellir ymchwilio'n fwy llwyddiannus i fwy o achosion.

14.10 Cyfeiriodd un rhanddeiliad at enghraifft o unigolyn a oedd wedi'i fasnachu ac wedi'i dderbyn i ysbyty: diolch i gydweithio effeithlon rhwng sawl asiantaeth, roedd yr unigolyn hwn yn ddiogel yn yr ysbyty ac roedd cymorth ar gael iddo adeg ei ryddhau o'r ysbyty, gan osgoi unrhyw fylchau mewn darpariaeth.

Roedd lleiafrif o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo ei bod yn rhy gynnar iddynt wneud sylw ar effaith y Llwybr Gofal Goroeswyr ar ddioddefwyr/goroeswyr, a bod nifer yr atgyfeiriadau wedi bod yn rhy isel i nodi newidiadau arwyddocaol.

*Yr effaith ar weithwyr proffesiynol*

14.11 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y Llwybr Gofal Goroeswyr wedi cael effaith gadarnhaol ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr am y rhesymau canlynol:

- Mae gweithwyr proffesiynol yn gwybod â phwy i gysylltu i fynegi pryderon am ddioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn gwybod sut a ble i atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl ar gyfer cymorth.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n fwy hyderus wrth ymdrin ag achosion o gaethwasiaeth fodern.
- Mae'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cynnig cynllun clir, syml a hyblyg i ymdopi â natur unigryw pob achos.

*Yr effaith ar waith amlasiantaeth*

14.12 Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y Llwybr Gofal Goroeswyr wedi cael effaith gadarnhaol ar waith amlasiantaeth. Roedd rhai sylwadau'n gadarnhaol iawn, gan gynnwys: 'Mae gwaith partneriaeth wedi gwella'n sylweddol' a'i fod yn 'hynod lwyddiannus'. Nodwyd y rhesymau canlynol am y ffaith fod gwaith partneriaeth wedi gwella:

- Mwy o ymwybyddiaeth o gyfraniad posibl pob asiantaeth.
- Mae rhannu gwybodaeth mewn MARACs yn gwella gwybodaeth pob asiantaeth am bob achos.
- Mae'r broses gyfathrebu a chynllunio sydd ar waith wedi gwella diolch i strwythur y Llwybr Gofal Goroeswyr.

- Mae cymryd rhan yn y MARAC yn cadarnhau cyfrifoldeb pob asiantaeth ac yn lleihau oedi cyn gweithredu.

14.13 Dywedodd dau randdeiliad a gafodd eu cyfweld fod manteision y Llwybr Gofal Goroeswyr i'w gweld y tu allan i'r maes caethwasiaeth fodern. Meddai un: 'Mae yna gyfleoedd i hyrwyddo mwy nag un agenda yn y model hyfforddiant, fel PREVENT, er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau ym maes caethwasiaeth fodern yn arwain at gymorth amlasiantaeth ar gyfer grwpiau eraill sy'n agored i niwed'. Meddai ymatebydd arall: 'Byddai'n bosibl cyflwyno'r model hwn mewn meysydd eraill, fel troseddau casineb a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Gallem drosglwyddo'r hyn rydym yn ei ddysgu i'r strwythur trais domestig.'

## 15. Cyd-effaith yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar adroddiadau gwybodaeth, ymchwiliadau ac erlyn troseddau

### Trosolwg

15.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi canfyddiadau yn ymwneud ag effaith yr hyfforddiant a'r llwybr gofal goroeswyr ar adroddiadau gwybodaeth, ymchwiliadau ac erlyn troseddau. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn ddwy elfen hanfodol ac ategol o'r gwaith i wneud Cymru yn elyniaethus i gaethwasiaeth fodern. O ganlyniad, felly, nid oeddent yn gwahaniaethu o reidrwydd rhwng effaith y ddwy elfen ar wybodaeth, ymchwilio ac erlyn, a'i bod yn well ganddynt grynhoi effaith gyffredinol y ddwy elfen.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

15.2 Yn ystod y cyfnod cymharol gynnar hwn yn y broses o gyflwyno'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, mae'n anodd dod i gasgliadau ynglŷn â'r effaith ar erlyn troseddau. Y rheswm am hyn yw'r nifer gymharol fach o achosion yng Nghymru a'r amser sydd ei angen i erlyn achos.

15.3 Fodd bynnag, mae tystiolaeth o randdeiliaid a gafodd eu cyfweld yn awgrymu bod y rhai sy'n ymwneud â chynllunio a chyflwyno'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn credu bod yr elfennau hyn o'r gwaith atal caethwasiaeth yn gwella lefel ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei hadrodd. Credir bod y gwaith amlasiantaeth sy'n cael ei gefnogi gan y MARAC a'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern yn helpu i wella arferion ymchwilio ac erlyn. Felly, mae'n edrych yn debygol bod yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn gallu helpu i gynyddu nifer yr euogfarnau ar gyfer troseddau yn ymwneud â chaethwasiaeth yn fwy hirdymor.

### Effaith yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar adroddiadau gwybodaeth

15.4 Mae ystadegau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn dangos bod nifer yr atgyfeiriadau yng Nghymru yn cynyddu (Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2016; Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, 2013). Yng Nghymru, mae nifer yr atgyfeiriadau yn 2015 yn dangos cynnydd o 394% o gymharu â 2012. Ledled y DU, mae nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu 275% yn 2015 o gymharu â 2012. Yn 2012-2014, roedd cyfran yr atgyfeiriadau ledled y DU a wnaed yng Nghymru rhwng 2.9% a 3%. Fodd bynnag, roedd y gyfran hon yn 4.1% yn 2015. Gall y ffaith fod

atgyfeiriadau i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn cynyddu ar raddfa uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y DU awgrymu bod mwy o achosion o gaethwasiaeth fodern yn cael eu nodi yng Nghymru. Mae'n bosibl bod yr hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn rhannol gyfrifol am hyn.

15.5 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod cyflwyno'r hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn arwain at fwy o adroddiadau gwybodaeth. Nodwyd y rhesymau canlynol am y cynnydd hwn:

- Diolch i'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, yn ogystal ag ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ehangach, mae proffil caethwasiaeth fodern yng Nghymru wedi tyfu. Er enghraifft, mae achosion yn ymwneud â chaethwasiaeth yn cael eu hadrodd yn amlach yn y cyfryngau.
- O ganlyniad i strwythur yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, mae mwy o achosion wedi'u nodi a'u hatgyfeirio ar gyfer ymchwiliad a chymorth.
- Mae ansawdd yr atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol wedi gwella diolch i'r hyfforddiant a hygyrchedd y Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae hyn yn golygu bod mwy o wybodaeth o ansawdd gwell yn cael ei throsglwyddo i ymchwilwyr yn gynnar yn yr achos.
- Mae'r MARACs yn gyfle allweddol i weithwyr proffesiynol rannu gwybodaeth am achosion, gan gynyddu lefel ac ansawdd y wybodaeth ddilynol sy'n cael ei darparu ar gyfer achosion gydol cyfraniad y gweithwyr proffesiynol at y Llwybr Gofal Goroeswyr.
- Diolch i'r cwrs hyfforddi ymatebwyr cyntaf a'r wybodaeth a rennir yn y MARACs, mae ymatebwyr cyntaf yn gallu cwblhau atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn fwy effeithiol a chynhwysfawr. O ganlyniad, mae mwy o wybodaeth o ansawdd gwell yn cael ei hadrodd i Ganolfan Masnachu Pobl y DU.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau ac yn rhannu gwybodaeth yn gyflymach diolch i'r Llwybr Gofal Goroeswyr, sy'n golygu bod gwybodaeth yn cael ei derbyn yn gyflymach.
- Mae lefel y wybodaeth sy'n cael ei hadrodd gan y cyhoedd a/neu staff anarbenigol wedi cynyddu gan fod y dull haenog o ddarparu hyfforddiant yn golygu bod modd cyflwyno cyrsiau codi ymwybyddiaeth ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn.

Dim ond tri rhanddeiliad a gafodd eu cyfweld a fynegodd amheuon ynglŷn ag effaith yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar wybodaeth. Meddai un ohonynt: 'Nid yw'r sylfaen dystiolaeth yn bodoli eto. Rydym yn symud i'r cyfeiriad cywir ond nid yw'r cysylltiad tystiolaethol yn gadarn yn ystadegol. Ni allem honni fod hyfforddiant wedi arwain at gynyddu nifer yr adroddiadau.'

**Effaith yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar ymchwilio i droseddau**

15.6 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr wedi arwain at fwy o ymchwiliadau i droseddau'n ymwneud â chaethwasiaeth, yn ogystal ag ymchwiliadau o ansawdd gwell. Awgrymwyd nifer o esboniadau am hyn, gan gynnwys:

- Mae'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, ynghyd ag ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ehangach, yn llwyddo i gyfleu gelyniaeth Cymru i gaethwasiaeth fodern. Mae hyn yn cynyddu lefelau diffyg goddefgarwch o gaethwasiaeth fodern ymysg y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, sy'n fwy tebygol o erlyn troseddwyr o ganlyniad.
- Mae cynyddu ymwybyddiaeth yn arwain at gynyddu nifer yr atgyfeiriadau, sy'n golygu bod mwy o achosion posibl o gaethwasiaeth fodern yn destun ymchwiliadau.
- Mae rhannu mwy o wybodaeth o ansawdd gwell mewn MARACs yn gwella ymchwiliadau i achosion unigol.
- Mae'r cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern yn arwain at ymchwiliadau mwy effeithiol a chadarn i droseddau posibl, sy'n fwy tebygol o gyrraedd y llys wedyn.
- Diolch i'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr, gall yr unigolion hyn gyfrannu at ymchwiliadau oherwydd eu bod yn fwy cyfforddus a hyderus yn cydweithredu â'r heddlu a rhannu gwybodaeth â nhw.

15.7 Disgrifiodd dau randdeiliad a gafodd eu cyfweld un enghraifft o newid prosesau sydd â'r amcan uniongyrchol o gynyddu nifer yr ymchwiliadau. Mae'r broses beilot hon yn ei gwneud yn ofynnol i nodi cyfeirnod trosedd ar gyfer pob atgyfeiriad i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gan arwain at adroddiadau gwybodaeth ar bob achos honedig o gaethwasiaeth fodern sy'n cael ei atgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

**Effaith yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar erlyn troseddau**

15.8 Dywedodd tri rhanddeiliad a gafodd eu cyfweld fod nifer yr erlyniadau wedi cynyddu yn sgil yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Cyfeiriodd y tri rhanddeiliad at y ffaith fod gwaith gyda dioddefwyr/goroeswyr a atgyfeiriwyd i'r MARAC gyntaf wedi arwain at euogfarn am drosedd caethwasiaeth fodern. Roedd chwech rhanddeiliad yn fwy ansicr am y cysylltiad. Dywedodd un ohonynt fod nifer yr ymchwiliadau wedi cynyddu, ond nid nifer yr erlyniadau. Roedd y gweddill yn teimlo nad yw'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr wedi bodoli am ddigon o amser i asesu'r effaith ar erlyniadau yn llawn.

'Operation Base'

15.9 Cyfeiriodd pump rhanddeiliad at 'Operation Base' fel enghraifft o effaith yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr ar ymchwilio i droseddau caethwasiaeth fodern, a'u herlyn. Awgrymodd y rhanddeiliaid hyn fod yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ymchwiliad hwn mewn sawl ffordd bosibl, sef:

- Mae'n bosibl bod yr hyfforddiant wedi cyfrannu at ganfod yr achos yn y lle cyntaf, gan mai gwybodaeth gymunedol a amlygodd yr achos, ac mae'r model hyfforddiant yn hwyluso darparu hyfforddiant i gynulleidfaoedd cymunedol.

- Roedd staff yr heddlu a'r awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth, ac roeddent yn gwybod am y Llwybr Gofal Goroeswyr. Roedd bodolaeth llwybr clir wedi rhoi hyder iddynt ymdrin â'r achos. Roedd y llwybr yn rhan o wybodaeth swyddogion am yr achos.

- Diolch i'r ganolfan derbyn leol a oedd ar gael o fewn dwy awr, roedd modd cynorthwyo dioddefwyr lluosog (111) yn gyflym a chynnig cymorth cydgysylltiedig iddynt gan asiantaethau mewn un lleoliad.

- Aed ati i ymgysylltu â dioddefwyr a'u cynorthwyo yn y ganolfan derbyn. Cafodd hyn effaith ar wybodaeth barhaus am yr achos, gan arwain at ymchwiliad llwyddiannus gan fod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn derbyn cymorth i gydweithredu â'r ymchwiliad.

- Roedd dau ymchwiliad blaenorol yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern yn y rhanbarth hwn wedi bod yn llai llwyddiannus. Roedd yr ymchwiliadau hyn wedi'u cynnal cyn sefydlu'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, felly mae'n bosibl

rhagdybio'n rhesymol bod llwyddiant 'Operation Base' i'w briodoli'n rhannol i'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr.

## 16. Casgliadau ac argymhellion

16.1 Mae'r dystiolaeth helaeth a adolygwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu bod yr hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr wedi'u cyflwyno'n dda iawn yn gyffredinol yng Nghymru. Un o gryfderau penodol yr hyfforddiant yw'r model haenog sy'n cyflwyno cynnwys priodol i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd gwahanol. Un o gryfderau allweddol y Llwybr Gofal Goroeswyr yw'r ffaith ei fod yn defnyddio MARACs, model sy'n cael ei barchu gan weithwyr proffesiynol, sy'n gweithio yn ymarferol, a sy'n hyrwyddo gwaith amlasiantaeth effeithiol ac yn helpu i ddiogelu a chynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl.

16.2 Mae cysylltiad agos rhwng hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr ym maes atal caethwasiaeth yng Nghymru. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern ymysg pob cynulleidfa targed, a thrwy ddarparu llwybr atgyfeirio a chymorth clir ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n cael eu hadnabod yn sgil yr ymwybyddiaeth gynyddol, mae'r ddwy elfen yn cyfrannu'n llwyddiannus at amcan Llywodraeth Cymru o wneud Cymru yn elyniaethus i gaethwasiaeth fodern a darparu'r cymorth gorau posibl ar gyfer goroeswyr.

16.3 Ni all y gwaith ymchwil hwn wneud unrhyw sylw ynglŷn ag i ba raddau y mae'r dull gweithredu wedi dyblygu neu ategu prosesau sydd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, byddai'n ddiddorol deall y cysylltiad rhwng y cwrs hyfforddi camfanteisio'n rhywiol ar blant atal caethwasiaeth, ac unrhyw hyfforddiant camfanteisio'n rhywiol ar blant prif ffrwd sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol unigol. Yn yr un modd, byddai'n ddiddorol archwilio unrhyw ddulliau eraill sy'n cael eu defnyddio gan wasanaethau plant i gynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern, os nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio i'r Llwybr Gofal Goroeswyr.

16.4 Mae Tabl 16.1 yn crynhoi nodweddion allweddol yr arferion da a nodwyd yn ystod y gwerthusiad.

**Tabl 16.1: Crynodeb o'r ymarfer da a nodwyd**

| Elfen o ymarfer da | Cyfeiriad pennod a'r dull o nodi'r ymarfer |
|---|---|
| Mae'r pecyn hyfforddiant yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr a phriodol o gynnwys, yn enwedig o safbwynt cynnwys sydd wedi'i deilwra i gynulleidfaoedd penodol. Mae'n cyd-fynd ag arferion da a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae rhanddeiliaid yn credu ei fod yn addas i'r diben, ac mae sawl un yn dweud bod y pecyn hyfforddi antyn cael ei ystyried yn un arloesol iawn ym maes hyfforddiant ar atal caethwasiaeth ym marn y rhai sy'n gweithio y tu allan i Gymru. | Pennod 8<br>Adolygiad llenyddiaeth<br>Dadansoddi deunyddiau hyfforddiant<br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid<br>Arolwg o hyfforddwyr a mynychwyr hyfforddiant |
| Mae'r Cwrs Troseddu Cyfundrefnol a Chaethwasiaeth Fodern yn cael ei gynnal ar y cyd gan Heddluoedd Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru. Mae'n cael ei fynychu gan Uwch Swyddogion Ymchwilio ac Uwch Erlynwyr y Goron o Gymru, a hefyd gan nifer o Heddluoedd ac ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn Lloegr. Mae'r rhanddeiliaid yn nodi bod y cwrs wedi'i ddisgrifio fel cwrs arloesol gan Grŵp o Arbenigwyr ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl (GRETA), menter Cyngor Ewrop. Mae hyn yn cynnig tystiolaeth bod yna barch mawr at y cwrs a bod pobl yn credu ei fod diwallu angen hyfforddiant nad yw'n cael ei ddiwallu gan gyrsiau lleol sydd ar gael i'r heddluoedd hyn. | Pennod 8<br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid |
| Darparwyd hyfforddiant ar atal caethwasiaeth ar gyfer 6,374 o fynychwyr yn 2014 a 2015. Mae rhanddeiliaid yn nodi bod yr hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau, hyder ac ymarfer mynychwyr pan eu bod yn adnabod, yn atgyfeirio, yn cynorthwyo, yn ymchwilio i, ac yn erlyn achosion o gaethwasiaeth fodern. | Pennod 11<br>Adolygu'r data monitro<br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid<br>Arolwg o hyfforddwyr a mynychwyr hyfforddiant |
| Yn ôl y rhanddeiliaid, mae'r ffaith fod proses y Llwybr Gofal Goroeswyr yn ddigon syml i'w mapio ar un dudalen yn debygol o'i gwneud yn hygyrch i ddarpar atgyfeirwyr. Hefyd, dywedodd sawl rhanddeiliad fod defnyddio'r MARAC yn un o gryfderau'r Llwybr Gofal Goroeswyr gan fod gweithwyr proffesiynol perthnasol eisoes yn deall y broses hon. Credir bod MARACs yn enghraifft o ymarfer da wrth gefnogi dioddefwyr/goroeswyr agored i niwed o gam-drin domestig. Mae uwch randdeiliaid yn dweud bod y rhai sy'n gweithio y tu allan i Gymru yn credu bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn arwain y ffordd ym maes cynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr posibl. | Penodau 7, 10 a 14<br>Adolygiad llenyddiaeth<br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid |
| Mae 105 o ddioddefwyr/goroeswyr posibl wedi'u hatgyfeirio i MARACs y Llwybr Gofal Goroeswyr ers sefydlu'r Llwybr. Mae rhanddeiliaid yn dweud bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael effaith gadarnhaol ar adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl, ar nifer ac ansawdd yr atgyfeiriadau i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, ar gymorth amlasiantaeth, cydgysylltiedig ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr posibl, ac ar ganlyniadau ar gyfer y dioddefwyr/goroeswyr hyn. | Penodau 12, 13 a 14<br>Adolygu'r data monitro<br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid |

| Elfen o ymarfer da | Cyfeiriad pennod a'r dull o nodi'r ymarfer |
|---|---|
| Mae rhanddeiliaid yn nodi bod yr hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cyfrannu ar y cyd at gynyddu nifer yr atgyfeiriadau i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gwella'r gwaith o adrodd gwybodaeth a gwella'r broses o ymchwilio i droseddau'n ymwneud â chaethwasiaeth, a'u herlyn. | Pennod 15<br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid |
| Mae Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru yn nodi ei ymrwymiad i ddatblygu cynllun gweithredu 2016-2017 sy'n seiliedig ar argymhellion y gwerthusiad hwn, sy'n dangos bwriad i sicrhau rhagor o lwyddiant a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Mae hyn yn golygu y gall yr hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r Llwybr Gofal Goroeswyr fodloni holl ganllawiau ymarfer da yn y dyfodol. | Pennod 8<br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid<br>Adolygu dogfennau |

16.5 Mae Tabl 16.2 yn crynhoi'r argymhellion sy'n deillio o'r gwerthusiad hwn. Mae un argymhelliad cyffredinol yn ymwneud â chyllid i benodi aelodau staff dynodedig i nifer o swyddi allweddol. Gallai swyddi gael eu creu yn ôl tasgau penodol (fel cydgysylltu data) neu eu rhannu yn ôl rhanbarth, gan efelychu swydd cydgysylltydd atal caethwasiaeth y Gogledd. Yn y naill achos a'r llall, bydd yn bwysig sicrhau bod yr arweinydd strategol ar gyfer hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael ei ymgorffori'n glir yn y swyddi a ariennir. Gall hyn wneud yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn fwy cynaliadwy drwy sicrhau nad ydynt yn dibynnu gormod ar weithwyr proffesiynol yn gwneud gwaith strategol a gweithredol yn wirfoddol, yn ogystal â'u gwaith am dâl. Hefyd, gallai gynyddu capasiti a chreu adnoddau ac amser i ddatblygu'r gwaith rhagorol sydd eisoes wedi'i gwblhau er mwyn gwella'r broses o gyflwyno'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn y dyfodol.

16.6 Mae ail argymhelliad cyffredinol yn ymwneud â gwella prosesau monitro. Mae hyn yn dechrau gydag argymhellion i wella cysondeb a defnyddioldeb y data monitro perfformiad sy'n cael ei gasglu. Hefyd, mae'n sicrhau bod y data hwn yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd yn effeithiol fel bod modd ei ddefnyddio i lywio newidiadau mewn darpariaeth yn y dyfodol.

16.7 Mae trydydd argymhelliad pwysig yn ymwneud â hyrwyddo'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr. Mae argymhellion penodol yn cynnwys mabwysiadu brandio cyson ar gyfer yr hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr, a symud tuag at ddefnyddio'r term 'caethwasiaeth fodern' neu 'atal caethwasiaeth' yn hytrach na 'masnachu pobl'.

16.8 Mae argymhellion eraill yn ymwneud â hyfforddiant yn cynnwys:

- Adolygu cynnwys a strwythur rhai elfennau'r pecyn.
- Gwella prosesau recriwtio wedi'u targedu ar gyfer hyfforddwyr.
- Gweithio i sefydlu hyfforddiant mewn strwythurau'r Llwybr Gofal Goroeswyr.
- Ystyried atebion ar-lein i ddarparu hyfforddiant.

16.9 Mae argymhellion ychwanegol yn ymwneud â'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cynnwys gwella a chadarnhau ei systemau llywodraethu, ar lefel ranbarthol yn benodol.

**Tabl 16.2: Crynodeb o'r argymhellion**

| Argymhelliad cyffredinol | Argymhellion penodol | Pennod/penodau sy'n cynnwys y canfyddiadau cysylltiedig |
|---|---|---|
| Cynyddu adnoddau dynodedig ar gyfer hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr | Ceisio sicrhau cyllid ar gyfer swydd am dâl fel arweinydd hyfforddiant er mwyn cynyddu'r amser a'r adnoddau sydd ar gael i gydgysylltu hyfforddiant mewn ffordd strategol. Dylai'r swydd hon gynnwys cyfrifoldeb am gyflwyno systemau monitro perfformiad mwy cadarn a choladu data monitro i adrodd ar berfformiad.<br>Ceisio sicrhau cyllid ar gyfer swydd am dâl fel arweinydd y Llwybr Gofal Goroeswyr er mwyn cynyddu'r amser a'r adnoddau sydd ar gael i gydgysylltu hyfforddiant mewn ffordd strategol. Dylai hyn gynnwys trefnu ymgynghoriad â dioddefwyr/goroeswyr ar y Llwybr Gofal Goroeswyr er mwyn rhannu ymarfer da a gwella ymarfer presennol. Hefyd, dylid cyflwyno systemau monitro perfformiad mwy cadarnhaol, a choladu data monitro cenedlaethol ar y MARACs er mwyn adrodd ar berfformiad.<br>Ceisio sicrhau cyllid i gynyddu adnoddau dynodedig ar lefel ranbarthol er mwyn ategu gwaith y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol/cydgysylltydd hyfforddiant. Dylai'r swydd hon gynnwys hyrwyddo a chydgysylltu'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn lleol a choladu data monitro lleol ar gyfer MARACs.<br>Monitro defnydd gwasanaethau gan ddioddefwyr/goroeswyr posibl sy'n defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr a defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a oes angen nodi a darparu cyllid penodol ar gyfer y gwasanaethau hyn fel y gallant ddarparu cymorth i'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio o ganlyniad i'r Llwybr Gofal Goroeswyr. | 9 a 10 |
| Gwella'r gwaith o fonitro perfformiad a sicrhau ansawdd | Sicrhau bod y rhanbarthau sy'n sylfaen i adroddiadau ar ddata monitro perfformiad y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cyfateb i'r rhanbarthau sy'n sylfaen i adroddiadau ar ddata hyfforddiant, a bod y naill a'r llall yn cyfateb i ranbarthau'r strwythur llywodraethu.<br>Sicrhau bod y data monitro yn ymwneud â MARACs y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael ei gofnodi a'i adrodd yn gyson ym mhob rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y data eisoes ar gael mewn fformat sydd ar gael yn hwylus i'r rhai sydd am ei ddefnyddio.<br>Cyflwyno dulliau o sicrhau bod data monitro ar berfformiad, gan gynnwys adborth gan fynychwyr hyfforddiant a dulliau mesur canlyniadau eraill, yn cael eu casglu mewn fformat cyson, eu coladu a'u hadolygu mewn ffordd systematig, a'u defnyddio i lywio datblygiad hyfforddiant.<br>Ymgynghori'n fwy ffurfiol â dioddefwyr/goroeswyr posibl ar y Llwybr Gofal Goroeswyr ac ar a oes modd ei wella/sut i | 9, 10, 12 and 14 |

| Argymhelliad cyffredinol | Argymhellion penodol | Pennod/penodau sy'n cynnwys y canfyddiadau cysylltiedig |
|---|---|---|
| | wneud hynny.<br><br>Archwilio'r gallu i gyflwyno adolygiadau a hapwiriadau o hyfforddiant gan hyfforddwyr profiadol. | |
| Gwella'r gwaith o hyrwyddo'r hyfforddiant a'r Llwybr Gofal Goroeswyr | Datblygu brandio cyson ar gyfer y pecyn hyfforddiant sy'n defnyddio'r term 'caethwasiaeth fodern' neu 'atal caethwasiaeth' ac nad yw'n cynnwys y term 'masnachu'[42].<br><br>Mabwysiadu brandio cyson ar gyfer y Llwybr Gofal Goroeswyr sy'n cyd-fynd â brandio'r hyfforddiant ac yn cynnwys y term 'caethwasiaeth fodern' neu 'atal caethwasiaeth'[43]. Hefyd, gall defnyddio'r term 'MARAC' yn hytrach na 'llwybr' gyfleu prif amcan a dull gweithredu'r Llwybr Gofal Goroeswyr yn well.<br><br>Buddsoddi mwy o adnoddau mewn dulliau o hyrwyddo'r Llwybr Gofal Goroeswyr y tu allan i'r maes hyfforddi. I ddechrau, dylid canolbwyntio ar asiantaethau craidd nad ydynt yn ymgysylltu â'r broses. | 9 a 10 |
| Adolygu cynnwys a strwythur yr hyfforddiant | Adolygu cynnwys a strwythur y cwrs ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth. Dylai'r adolygiad sicrhau ei bod yn ymarferol cynnwys yr holl ddeunydd mewn tair awr heb orlwytho mynychwyr, a sicrhau bod gan hyfforddwyr unigol yr hyblygrwydd i ymateb i gynulleidfaoedd penodol. Hefyd, gall fod yn ddefnyddiol datblygu llawlyfr cwrs i gyd-fynd â'r hyfforddiant.<br><br>Ystyried a yw'r hyfforddiant yn diwallu anghenion pobl ifanc fel cynulleidfa bosibl. | 7 |
| Recriwtio hyfforddwyr | Canolbwyntio ar recriwtio hyfforddwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gronfa hyfforddwyr ar gyfer asiantaethau allweddol. Mae hyn yn cynnwys meysydd iechyd, tai ac addysg.<br><br>Ystyried sut i gymell pobl i gymryd rhan yn y broses o ddarparu hyfforddiant.<br><br>Ystyried y galw neu'r gofynion posibl ar gyfer hyfforddiant Cymraeg a recriwtio hyfforddwyr i ddarparu'r hyfforddiant os oes angen. | 8 |

[42] Mae trafodaeth ddilynol â'r cyd-gysylltydd atal caethwasiaeth yn awgrymu bod gwaith wedi dechrau i sicrhau bod y term 'atal caethwasiaeth' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio a hyrwyddo'r hyfforddiant ledled Cymru.
[43] Mae trafodaeth ddilynol â'r cyd-gysylltydd atal caethwasiaeth yn dangos bod y Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael ei ailfrandio fel Llwybr Gofal Cymru, a bod y term hwn wedi'i gynnwys yng nghynllun cyflenwi 2016-17 ar gyfer gwaith atal caethwasiaeth yng Nghymru.

| Argymhelliad cyffredinol | Argymhellion penodol | Pennod/penodau sy’n cynnwys y canfyddiadau cysylltiedig |
|---|---|---|
| | Parhau i ddatblygu’r adnoddau ar-lein ar gyfer hyfforddwyr. | |
| Cynyddu cynaliadwyedd a chyrhaeddiad hyfforddiant | Ystyried a ddylid sicrhau bod rhai cyrsiau hyfforddi yn orfodol ar gyfer grwpiau o weithwyr proffesiynol penodol.<br>Ystyried elfennau o’r pecyn hyfforddiant fel rhan o gynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i alluogi dysgu cynaliadwy ac eang. Ystyried a oes modd gwneud hyn mewn ffordd sy’n cyd-fynd â Fframwaith Hyfforddi Llywodraeth Cymru, neu a ddylid datblygu cyrsiau ar wahân fel rhan o DPP gweithwyr proffesiynol penodol, nad ydynt yn cyd-fynd â’u cynlluniau DPP proffesiynol/sefydliadol, yn hytrach na’r Fframwaith.<br>Parhau i weithio tuag at achredu’r hyfforddiant fel rhan o Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan raddio pob cwrs yn unol â meini prawf cymhwysedd[44].<br>Datblygu hyfforddiant er mwyn darparu hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gyfer ymarferwyr, er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth yn cael ei hadolygu a’i diweddaru.<br>Ystyried y posibilrwydd o hyfforddiant ar-lein er mwyn gwella gallu hyfforddiant i ymateb i’r galw heb gynyddu’r adnoddau sydd eu hangen i wneud hyn. Gall hyn gynnwys ystyried defnyddio’r adnoddau hyfforddiant ar-lein yn fwy helaeth. | 8 a 9 |
| Gwella ac egluro gwaith llywodraethu’r Llwybr Gofal Goroeswyr | Sicrhau bod prosesau llywodraethu’r Llwybr Gofal Goroeswyr yn cael eu cyfleu’n gliriach i randdeiliaid. Dylai hyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall y broses lywodraethu ar lefel ranbarthol, a’r berthynas rhwng strwythurau llywodraethu’r Llwybr Gofal Goroeswyr ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. | 4 |

[44] Mae cyfweliadau â’r cydgysylltydd atal caethwasiaeth a’r arweinydd hyfforddiant yn awgrymu bod y broses hon eisoes ar waith.

**Llyfryddiaeth**

The Anti-Trafficking Monitoring Group. (2011). *Assistance to trafficked people.* Llundain: Anti-Slavery International.

Bales, K., Hesketh, O. a Silverman, B. (2015). Modern slavery in the UK: How many victims? *Significance, 12 (3*):16-21.

Bokhari, F. a Kelly, E. (2010). Child Rights, Culture and exploitation: UK experiences of child trafficking. In *Child Slavery Now: A Contemporary Reader*, Craig, G (Gol). Bryste: The Policy Press.

Chapman, S. (2014). *Annual Report of the Welsh Government Anti-Slavery Coordinator*. Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: http://www.yoursenedd.com/debates/2014-11-25-statement-the-anti-slavery-co-ordinator-s-annual-report

Centre for Social Justice. (2015). *A Modern Response to Modern Slavery*. Llundain: Centre for Social Justice.

Centre for Social Justice. (2013). *It Happens Here: Equipping the United Kingdom to Fight Modern Slavery. A policy report by the Slavery Working Group*. Llundain: Centre for Social Justice.

De Angelis, M. (2014). *'I thought I am Modern Slavery': Giving a Voice to Trafficked Women. British Journal of Community Justice, 12 (3):* 49-66.

Doherty, S. a Morley, R. (2013). Recognising and Responding to Victims of Human Trafficking: New guidance for health professionals in the UK. *BMJ, 346.*

ECPAT UK. (2015). *The National Referral Mechanism*. Cyrchwyd o: http://www.ecpat.org.uk/content/national-referral-mechanism

Griffiths, Lesley. (2014). *Written Statement - Update on Making Wales Hostile to Slavery.* Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2014/slavery/?lang=cy

Y Swyddfa Gartref. (2015). *Modern Slavery Act 2015*. Y Swyddfa Gartref. Cyrchwyd o: https://www.gov.uk/government/collections/modern-slavery-bill

Y Swyddfa Gartref. (2014a). *Modern Slavery: an application of multiple systems estimation.* Y Swyddfa Gartref. Cyrchwyd o: https://www.gov.uk/government/publications/modern-slavery-an-application-of-multiple-systems-estimation

Y Swyddfa Gartref. (2014b). Y Swyddfa Gartref. *Modern slavery strategy*. Cyrchwyd o: https://www.gov.uk/government/publications/modern-slavery-strategy

Y Swyddfa Gartref. (2012). *A Call to End Violence against Women and Girls: Taking Action – the next chapter.* Y Swyddfa Gartref.

Y Swyddfa Gartref. (2011). *A Call to End Violence against Women and Girls: Action Plan.* Y Swyddfa Gartref.

Human Trafficking Foundation. (2013). *Establishing Britain as a World Leader in the Fight against Modern Slavery: Report of the Modern Slavery Bill Evidence Review*. Llundain: Human Trafficking Foundation.

Hynes, P. (2015). No 'Magic Bullets': Children, Young People, Trafficking and Child Protection in the UK, *International Migration, 53 (4)*: 62-67.

Grŵp Gweinidogol Rhyng-adrannol ar Gaethwasiaeth Fodern. (2015). *Report of the Inter-Departmental Ministerial Group on Modern Slavery*.

Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. (2016). *National Referral Mechanism Statistics – End of Year Summary 2015*. Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

Pearce, J. (2011). Working with Trafficked Children and Young People: Complexities in Practice. *British Journal of Social Work, 41 (8)*: 1421-1441.

Rigby, P., Malloch, M. a Hamilton Smith, N. (2012). *A Report on Child Trafficking and Care Provision: Towards Better Survivor Care*. Yr Alban: Prifysgol Stirling.

Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol. (2013). *NRM Provisional Statistics 2012*. Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol.

Todres, J. (2010). Addressing the root causes of exploitation: a human rights approach to preventing sex trafficking of children. In *Child Slavery Now: A Contemporary Reader*, Craig, G. (Ed). Bryste: The Policy Press.

Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru. (2015). *Delivery Plan 2015-2016: Delivering the Anti-Slavery Strategy in Wales*. Llywodraeth Cymru.

Is-Grŵp Hyfforddi Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru. (2015). *Training and Awareness Strategy 2015 – 2017*. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2015). *Atal Caethwasiaeth*. Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/anti-slavery/?lang=cy

Llywodraeth Cymru. (2012). *Papur Gwyn: Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth ar gyfer rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Cymru)*. Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: http://gov.wales/docs/dsjlg/consultation/121126evawdaconsultationcy.pdf

Western Bay Human Trafficking and Anti-Slavery Multi-Agency Risk Assessment Conference Terms of Reference. (2014).

## Atodiad A: Termau chwilio ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth

Chwiliwyd am bob prif derm ar y cyd â therm eilaidd. Defnyddiwyd Google Scholar a Google i chwilio.

| **Prif dermau chwilio** | **Termau chwilio eilaidd** |
|---|---|
| Caethwasiaeth | Hyfforddiant |
| Masnachu pobl | Dioddefwr |
| Caethwasanaeth domestig | Goroeswr |
| Llafur dan orfod | Cymorth |
| Camfanteisio | Arfer da |
| | Arfer gorau |
| | Effeithiolrwydd |
| | Gwerthuso |
| | Canlyniadau |
| | Effaith |
| | Ymchwil |
| | Cymru |
| | Y DU |

## Atodiad B: Sampl o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld

| Sefydliad | Rôl |
|---|---|
| **Cyngor Ynys Môn** | Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Gogledd Cymru/Cadeirydd fforwm rhanbarthol Gogledd Cymru<br>Aelod o grŵp arwain atal caethwasiaeth Cymru |
| **Barnardo's Cymru** | Hyfforddwr (cyfrannu at gynllunio cwrs camfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd) |
| **BAWSO** | Cadeirydd fforwm rhanbarthol Dyfed Powys/Cyfarwyddwr yn gweithio yn Dyfed Powys a Bae'r Gorllewin<br>Cyfarwyddwr yn gweithio yng Nghaerdydd a'r Fro<br>Cyfarwyddwr yn gweithio yn y Gogledd<br>Gweithiwr cymorth yn gweithio yng Nghaerdydd a'r Fro a Gwent<br>Gweithiwr cymorth yn gweithio yn y Gogledd<br>Gweithiwr cymorth yn gweithio ym Mae'r Gorllewin<br>Arweinydd llwybr gofal goroeswyr<br>Hyfforddwr (cyfrannu at gynllunio'r cwrs ymatebwr cyntaf hefyd) |
| **Caerlas** | Hyfforddwr/ymatebwr cyntaf ym Mae'r Gorllewin |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | Hyfforddwr |
| **Bwrdd Partneriaeth Caerdydd** | Hyfforddwr/ymatebwr cyntaf yng Nghaerdydd a'r Fro |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin** | Cydgysylltydd cydlyniant cymunedol Dyfed Powys |
| **Cyngor Dinas Caerdydd** | Hyfforddwr |
| **Gwasanaeth Erlyn y Goron** | Erlynydd yn mynychu cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern (x2)<br>Arweinydd hyfforddiant/Cadeirydd grŵp gweithredol atal caethwasiaeth Cymru |
| **Heddlu Dyfed Powys** | Cadeirydd MARAC Dyfed Powys |
| **Heddlu Gwent** | Uwch Swyddog Ymchwilio fu ar gwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern |

| Sefydliad | Rôl |
|---|---|
| **Y Swyddfa Gartref** | Aelod o dîm rheng flaen troseddu difrifol a chyfundrefnol |
| **Llamau** | Hyfforddwr (cyfrannu at gynllunio cwrs ymwybyddiaeth atal caethwasiaeth hefyd) |
| **Llwybrau Newydd** | Hyfforddwr/ymatebwr cyntaf yng Ngwent (cyfrannu at gynllunio cwrs ymatebwr cyntaf hefyd) |
| **GIG Cymru** | Ymatebwr cyntaf yn Nyfed Powys |
| **Cymru Ddiogelach** | Hyfforddwr |
| **Heddlu De Cymru** | Uwch Swyddog Ymchwilio fu ar gwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern<br>Hyfforddwr ar y grŵp troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern (cyfrannu at gynllunio'r cwrs hwn hefyd) |
| **Cyngor Dinas a Sir Abertawe** | Cydgysylltydd cydlyniant cymunedol Bae'r Gorllewin<br>Ymatebwr cyntaf ym Mae'r Gorllewin |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** | Cydgysylltydd cydlyniant cymunedol Gwent |
| **Cyngor Bro Morgannwg** | Hyfforddwr |
| **Llywodraeth Cymru** | Cydgysylltydd atal caethwasiaeth<br>Cadeirydd grŵp arwain atal caethwasiaeth Cymru<br>Aelod o'r tîm diogelu (cyfrannu at gynllunio hyfforddiant camfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd) |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | Cydgysylltydd cydlyniant cymunedol Gogledd Cymru |
| **Ddim yn gysylltiedig â sefydliad** | Hyfforddwr/Cadeirydd fforwm rhanbarthol Bae'r Gorllewin<br>Hyfforddwr |

## Atodiad C: Arweiniad i'r pynciau ar gyfer cyfweliadau

## Cwestiynau hyfforddiant

1. Pam gafodd y dull hyfforddi cyfredol ei sefydlu? Beth yw nodau/amcanion y dull? Pa drefniadau (os o gwbl) oedd ar waith ar gyfer hyfforddiant ar atal caethwasiaeth cyn y dull hwn?

2. Pwy sy'n gyfrifol am y strategaeth hyfforddiant? A yw'r strategaeth gyfredol yn cael ei chyfathrebu'n glir i randdeiliaid? Ai dyma'r strategaeth iawn ar gyfer yr hyfforddiant? Pam eich bod chi'n dweud hyn?

3. Pwy yw'r gynulleidfa/cynulleidfaoedd targed ar gyfer y cyrsiau hyfforddi canlynol?
   a. Sesiwn Dysgu dros Ginio
   b. Hyfforddiant ymwybyddiaeth 3 awr ar atal caethwasiaeth
   c. Cwrs ymwybyddiaeth o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant
   d. Cwrs Ymatebwr Cyntaf 1 diwrnod
   e. Cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern 3 diwrnod

4. Pa ganlyniadau mae'r hyfforddiant cyffredinol yn bwriadu eu cyflawni?

5. Pa ganlyniadau mae'r cyrsiau canlynol yn bwriadu eu cyflawni?
   a. Sesiwn Dysgu dros Ginio
   b. Hyfforddiant ymwybyddiaeth 3 awr ar atal caethwasiaeth
   c. Cwrs ymwybyddiaeth o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant
   d. Cwrs Ymatebwr Cyntaf 1 diwrnod
   e. Cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern 3 diwrnod

6. Pa bartneriaid sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu'r hyfforddiant? Pa mor dda mae'r partneriaid hyn yn cydweithio i ddarparu'r llwybr? Oes yna bartneriaid eraill y dylid eu cynnwys, nad ydynt yn cymryd rhan ar hyn o bryd?

7. Beth yw rolau'r fforymau rhanbarthol a Grŵp Gweithredol Atal Caethwasiaeth Cymru mewn perthynas â hyfforddiant? Ai dyma'r rolau cywir ar gyfer pob grŵp?

8. Pa swyddi allweddol sy'n gyfrifol am hyrwyddo a chydgysylltu hyfforddiant ar lefel ranbarthol? Pa mor effeithiol yw gwaith hyrwyddo a chydgysylltu hyfforddiant?

9. Sut mae hyfforddwyr yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi i ddarparu'r hyfforddiant?

10. Sut mae hyfforddwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i gynnwys cyrsiau?

11. Sut mae ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei fonitro?

12. A yw'r ddarpariaeth hyfforddiant gyffredinol yn cwmpasu'r holl gynnwys perthnasol mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern? Oes yna bynciau neu faterion sydd angen eu cynnwys mewn hyfforddiant ar atal caethwasiaeth nad ydynt yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd? Oes yna bynciau neu faterion sydd angen eu cynnwys yn fwy effeithiol?

13. A yw'r ddarpariaeth hyfforddiant gyffredinol yn diwallu anghenion yr holl gynulleidfaoedd targed posibl? A yw'r hyfforddiant cyfredol yn methu diwallu anghenion unrhyw gynulleidfaoedd ar hyn o bryd – pa rai?

14. Sut effaith gafodd yr hyfforddiant cyffredinol ar:
    a. Weithwyr proffesiynol sy’n dod i gysylltiad â dioddefwyr/goroeswyr?
    b. Gweithwyr proffesiynol sy’n ymchwilio/erlyn troseddau caethwasiaeth?
    c. Dioddefwyr/goroeswyr?

15. I ba raddau mae data monitro perfformiad yn helpu i fesur effeithiolrwydd yr hyfforddiant? Pa ddata sy’n cael ei gasglu? Pwy sy’n coladu’r data hwn?

16. A yw/oedd lleisiau dioddefwyr/goroeswyr yn cael eu cynnwys ar unrhyw gam yn y gwaith o gynllunio, darparu neu adolygu’r hyfforddiant? Os felly, sut mae/oedd hyn yn digwydd? (E.e. a yw lleisiau dioddefwyr/goroeswyr yn cael eu cynnwys yng nghynnwys yr hyfforddiant ei hun? Neu a ymgynghorwyd â nhw ar y dull hyfforddi/cyrsiau penodol? Neu a ydynt ar unrhyw grwpiau neu fforymau sy’n cyfrannu’n barhaus at gynllunio neu weithredu’r hyfforddiant?)

17. Os yw’r galw am hyfforddiant yn cynyddu, a all y trefniadau hyfforddi cyfredol ymateb i’r galw cynyddol? Pam ydych chi’n dweud hyn? Beth, os o gwbl, y gellir ei wneud i wella gallu i ymateb i alw cynyddol?

18. A ellir gwella’r hyfforddiant? Os felly, pa welliannau fyddech chi’n eu hawgrymu?

**Cwestiynau Llwybr Gofal Goroeswyr**

*Nodyn i’r holwr: Ystyriwch a yw’r rhanddeiliad yn gwybod am y llwybr ledled Cymru neu am y llwybr mewn rhanbarth benodol ac addasu’r cwestiynau i gyd-fynd â hynny.*

1. Pam sefydlwyd y llwybr gofal goroeswyr? A oedd yn seiliedig ar angen a nodwyd?

2. Pa ganlyniadau mae’r llwybr yn bwriadu eu cyflawni?

3. Pa drefniadau (os o gwbl) oedd ar waith i gefnogi dioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern cyn cyflwyno’r llwybr?

4. Sut y sefydlwyd y llwybr? Beth (os o gwbl) oedd yr heriau wrth sefydlu? Sut yr aethpwyd i’r afael â nhw?

5. Beth yw’r trefniadau llywodraethu ar gyfer y llwybr? Pwy sy’n atebol yn y pen draw ar gyfer darparu’r llwybr? A yw’r trefniadau llywodraethu’n gadarn a phriodol?

6. Pa bartneriaid sy’n rhan o ddarparu’r llwybr? Pa mor dda mae’r partneriaid hyn yn cydweithio i ddarparu’r llwybr? Oes yna bartneriaid eraill y dylid eu cynnwys?

7. Allwch chi ddisgrifio strwythur y llwybr? Sut mae dioddefwyr/goroeswyr posibl yn cael eu hatgyfeirio iddo? Pa gamau sy’n cael eu cymryd a chan bwy? Sut mae dioddefwyr/goroeswyr posibl yn cymryd rhan mewn pecyn cymorth (e.e. os ydynt yn cael eu hatgyfeirio i’r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) heb wybodaeth am yr atgyfeiriad hwn)? Pa gymorth sy’n cael ei gynnig i ddioddefwyr/goroeswyr sy’n defnyddio’r llwybr? Sut a phryd maent yn gadael y llwybr?

8. Ydych chi’n mynychu’r Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg sy’n cefnogi darpariaeth y llwybr? Os felly, allwch chi ddweud mwy wrthyf am broses MARAC?

9. *Nodyn: i staff sy’n gwybod am fwy nag un rhanbarth*. Sut mae’r broses o rannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn cael ei rheoli? Oes yna brotocol rhannu gwybodaeth

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ar gyfer atal caethwasiaeth yn y rhanbarth? Os oes, beth mae'n ei gwmpasu? Pa mor ddefnyddiol ydyw i hyrwyddo rhannu gwybodaeth? Pam eich bod chi'n dweud hyn?

10. Sut mae'r llwybr yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr/oroeswyr posibl i gaethwasiaeth fodern?

11. Beth yw'r prif heriau wrth ddarparu'r llwybr? Sut yr eir i'r afael â'r rhain neu sut y gellir mynd i'r afael â nhw yn y dyfodol?

12. Sut mae'r llwybr yn cael ei hysbysebu i bobl a allai fod eisiau atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr iddo? Pa mor hyderus ydych chi fod pobl a all fod mewn sefyllfa i nodi dioddefwyr/goroeswyr yn gwybod am y llwybr a sut i atgyfeirio pobl iddo? Ydych chi'n credu bod yna grwpiau penodol o atgyfeirwyr posibl sy'n llai tebygol o atgyfeirio i'r llwybr nag eraill? Pam eich bod chi'n dweud hyn?

13. Sut effaith gafodd yr hyfforddiant cyffredinol ar:
    a. Ddioddefwyr/goroeswyr?
    b. Gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr/goroeswyr?
    c. Gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o ddarparu'r llwybr?
    d. Gwaith Amlasiantaeth?

14. I ba raddau mae data monitro perfformiad yn helpu i fesur effeithiolrwydd yr hyfforddiant? Pa ddata sy'n cael ei gasglu? Pwy sy'n coladu'r data hwn?

15. Ydych chi'n credu bod y llwybr yn hygyrch i holl ddioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern? Oes yna unrhyw grwpiau o ddioddefwyr/goroeswyr a fyddai'n llai tebygol o fanteisio ar y llwybr? (E.e. yn seiliedig ar ffactorau fel math o gam-fanteisio, lefel anghenion cymorth, rhywedd, oedran, ethnigrwydd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, rhanbarth eu cartref)

16. A yw/oedd lleisiau dioddefwyr/goroeswyr yn cael eu cynnwys ar unrhyw gam yn y gwaith o gynllunio, darparu neu adolygu'r hyfforddiant? Os felly, sut mae/oedd hyn yn digwydd? (E.e. a ofynnwyd i'r dioddefwyr/goroeswyr a ddefnyddiodd y llwybr am adborth ar eu profiad ohono? Neu a ymgynghorwyd â nhw cyn sefydlu'r llwybr? Neu a ydynt ar unrhyw grwpiau neu fforymau sy'n cyfrannu'n barhaus at gynllunio neu weithredu'r hyfforddiant?)

17. Os yw'r atgyfeiriadau i'r llwybr yn cynyddu, a all y llwybr ymateb i'r galw cynyddol? Pam ydych chi'n dweud hyn? Beth, os o gwbl, y gellir ei wneud i wella gallu'r llwybr i ymateb i alw cynyddol?

18. A ellir gwella'r llwybr? Os felly, pa welliannau fyddech chi'n eu hawgrymu?

**Cwestiynau cyffredinol**

19. Beth (os o gwbl) yw'r berthynas rhwng y llwybr gofal goroeswyr a'r hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a ddarperir yng Nghymru?

20. I ba raddau mae'r hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r llwybr gofal goroeswyr yn arwain at fwy o adroddiadau gwybodaeth am gaethwasiaeth fodern?

21. I ba raddau mae'r hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r llwybr gofal goroeswyr yn arwain at fwy o ymchwilio i droseddau caethwasiaeth ac at erlyn?

22. Oes gennych chi sylwadau eraill?

**Atodiad D: Templed i ddadansoddi deunyddiau hyfforddi**

**Cyrsiau unigol**

1. Beth yw cynulleidfaoedd tared yr hyfforddiant?

2. A yw nodau/amcanion/deilliannau dysgu bwriedig yr hyfforddiant wedi'u diffinio'n glir?

3. A yw cynnwys yr hyfforddiant yn ffeithiol gywir ac yn gyfredol?

4. Oes yna unrhyw dystiolaeth o pryd/sut mae cynnwys yn cael ei adolygu a'i ddiwygio?

5. A yw'r cynnwys yn berthnasol i gynulleidfaoedd targed?

6. A yw'r dulliau darparu arfaethedig yn briodol i'r cynulleidfaoedd targed ac yn debygol o'u cael i gymryd rhan?

7. Pan fo angen, a oes cyfle i deilwra'r cynnwys i gynulleidfaoedd penodol? (E.e. gweithwyr proffesiynol mewn swyddi penodol, plant a phobl ifanc ac ati.)

8. Pan fo angen, a yw'r deunydd yn ystyried gwahaniaethau lleol mewn darpariaeth gweithgarwch atal caethwasiaeth? (E.e. trefniadau MARAC gwahanol mewn rhanbarthau gwahanol).

9. A yw'r hyfforddiant yn darparu digon o wybodaeth ac ysgogiad i unigolion gymryd rhan yn yr agenda atal caethwasiaeth?

10. Ar sail cynnwys a dulliau darparu arfaethedig, a yw'r hyfforddiant yn debygol o gyflawni ei nodau/amcanion/deilliannau dysgu bwriedig?

11. A yw'r canllawiau i hyfforddwyr yn debygol o olygu y bydd yr holl hyfforddwyr yn darparu'r cwrs hyfforddi yn yr un ffordd?

**Hyfforddiant cyffredinol**

12. A yw'r ddarpariaeth hyfforddiant gyffredinol yn diwallu anghenion yr holl gynulleidfaoedd targed posibl? A yw'r hyfforddiant cyfredol yn methu diwallu anghenion unrhyw gynulleidfaoedd ar hyn o bryd – pa rai?

13. A yw'r hyfforddiant cyffredinol yn darparu'r amrywiaeth o gynnwys sydd ei angen? Oes yna fylchau yn y cynnwys?

14. A yw'r hyfforddiant cyffredinol yn debygol o arwain at nodi mwy o ddioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern, cymorth gwell iddynt ac erlyn mwy o'r cyflawnwyr?

**Atodiad E: Arolwg ar-lein o hyfforddwyr**

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cordis Bright i gynnal gwerthusiad o hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r llwybr gofal goroeswyr yng Nghymru. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn hoffem glywed gan bobl sydd wedi darparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth, i ddysgu am eich gwybodaeth, sgiliau a'ch profiad o ddarparu hyfforddiant, a'ch canfyddiadau o ba mor briodol a pherthnasol yw'r deunyddiau hyfforddi ac effaith yr hyfforddiant.

Diolch am gwblhau'r holiadur hwn am yr hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a ddarparwyd gennych. Dylai gymryd 5-10 munud i'w gwblhau. Nid ydym yn gofyn am eich enw a dim ond Cordis Bright fydd yn darllen yr ymatebion unigol. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg yw **dydd Gwener 12 Chwefror 2016** fan bellaf.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr holiadur neu'r gwerthusiad ffoniwch Hannah Nickson yn Cordis Bright ar 020 7330 9170 neu e-bostiwch hannahnickson@cordisbright.co.uk

**Manylion cyrsiau**

1. Pa gwrs/gyrsiau hyfforddi atal caethwasiaeth rydych wedi'ch hyfforddi i'w darparu? (Ticiwch bob un perthnasol)

   Sesiwn Dysgu dros Ginio 30-45 munud ☐
   Cwrs ymwybyddiaeth atal caethwasiaeth 3 awr ☐
   Cwrs ymwybyddiaeth cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ☐
   Cwrs Ymatebwr Cyntaf 1 diwrnod ☐
   Cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern 3 diwrnod ☐

2. Pa ddatganiadau yw'r disgrifiadau gorau o pa mor aml rydych chi wedi darparu'r cwrs/cyrsiau hyfforddi?

   Rwyf wedi darparu'r cwrs/cyrsiau 4 gwaith neu fwy ☐
   Rwyf wedi darparu'r cwrs/cyrsiau 2 neu 3 gwaith ☐
   Rwyf wedi darparu'r cwrs/cyrsiau unwaith ac yn bwriadu gwneud eto ☐
   Rwyf wedi darparu'r cwrs/cyrsiau unwaith ond nid wyf yn bwriadu gwneud eto ☐
   Nid wyf wedi darparu'r cwrs/cyrsiau ond rwy'n bwriadu gwneud yn y dyfodol ☐
   Nid wyf wedi darparu'r cwrs/cyrsiau ac nid wyf yn bwriadu gwneud yn y dyfodol ☐

3. Ym mha ranbarthau rydych chi'n darparu/bwriadu darparu'r cwrs/cyrsiau? (Ticiwch yr holl rai perthnasol)

   Caerdydd a'r Fro ☐
   Dyfed Powys ☐
   Gwent ☐
   Gogledd Cymru ☐
   Bae'r Gorllewin ☐

4. I ba gynulleidfaoedd ydych chi'n darparu/bwriadu darparu cwrs/cyrsiau?

| | |
|---|---|
| Yr Heddlu/swyddogion gorfodi'r gyfraith | ☐ |
| Erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron | ☐ |
| Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol | ☐ |
| Gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol | ☐ |
| Gweithwyr addysg proffesiynol | ☐ |
| Gweithwyr meysydd awyr/porthladdoedd | ☐ |
| Disgyblion/myfyrwyr | ☐ |
| Gweithwyr proffesiynol yn y gymuned a sectorau gwirfoddol | ☐ |
| Aelod o'r cyhoedd/grwpiau cymunedol | ☐ |
| Arall | ☐ |

Os arall, nodwch yma:

____________________________________________

____________________________________________

**Darparu'r hyfforddiant**

5. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?
Graddfa: 1 – anghytuno'n gryf, 2 – anghytuno i ryw raddau, 3 – ddim yn cytuno/anghytuno, 4 – cytuno i ryw raddau, 5 – cytuno'n gryf

   a. Fe wnaeth yr hyfforddiant a gefais i ddarparu'r cwrs/cyrsiau fy mharatoi'n dda.
   b. Mae gen i ddealltwriaeth dda o gynnwys y cwrs/cyrsiau.
   c. Mae gen i ddealltwriaeth dda o ddulliau darparu'r cwrs/cyrsiau.
   d. Rwy'n gallu darparu'r cwrs/cyrsiau yn hyderus.
   e. O ganlyniad i ddarparu'r cwrs/cyrsiau, rwy'n gwybod ble i drosglwyddo unrhyw wybodaeth sy'n dod i law gan fynychwyr.

**Ansawdd y cyrsiau hyfforddi**

6. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?
Graddfa: 1 – anghytuno'n gryf, 2 – anghytuno i ryw raddau, 3 – ddim yn cytuno/anghytuno, 4 – cytuno i ryw raddau, 5 – cytuno'n gryf

   a. Mae nodau/amcanion/deilliannau dysgu bwriedig y cwrs/cyrsiau'n glir i mi.
   b. Mae cynnwys y cwrs/cyrsiau'n briodol i'r gynulleidfa darged.
   c. Mae cynnwys y cwrs/cyrsiau'n gyfredol.
   d. Mae'r cwrs/cyrsiau'n ennyn a chynnal diddordeb y gynulleidfa darged.
   e. Mae'r adnoddau/deunyddiau a ddarperir i fynychwyr yr hyfforddiant yn berthnasol a defnyddiol iddynt.
   f. Mae'r cwrs/cyrsiau'n cyflawni eu nodau/amcanion/deilliadau dysgu bwriedig yn llwyddiannus.

7. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar sut i wella'r cwrs/cyrsiau?

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

**Effaith yr hyfforddiant**

8. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?
Graddfa: 1 – anghytuno'n gryf, 2 – anghytuno i ryw raddau, 3 – ddim yn cytuno/anghytuno, 4 – cytuno i ryw raddau, 5 – cytuno'n gryf

a. Mae'r cwrs/cyrsiau yn cynyddu dealltwriaeth mynychwyr o gaethwasiaeth fodern.
b. Mae'r cwrs/cyrsiau yn cynyddu gallu mynychwyr i adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern.
c. Mae'r cwrs/cyrsiau'n gwella hyder y mynychwyr i nodi dioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern.
d. Ar ôl mynychu'r cwrs/cyrsiau, mae mynychwyr yn gwybod â phwy i gysylltu i atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern am gymorth/ymchwiliad.
e. Mae'r cwrs/cyrsiau yn cynyddu dealltwriaeth a sgiliau mynychwyr i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a chefnogi defnyddwyr/goroeswyr.
f. Mae'r cwrs/cyrsiau yn cynyddu hyder mynychwyr i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a chefnogi defnyddwyr/goroeswyr.

I bobl sy'n darparu'r cwrs 3 diwrnod ar droseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern.

g. Mae'r cwrs yn gwella sgiliau ymarferol mynychwyr i ymchwilio/erlyn achosion o gaethwasiaeth fodern.
h. Mae'r cwrs yn gwella hyder mynychwyr i ymchwilio/erlyn achosion o gaethwasiaeth fodern.

9. A yw mynychwyr ar gwrs/gyrsiau hyfforddi rydych chi wedi'u darparu wedi datgelu gwybodaeth am ddioddefwyr/goroeswyr neu gyflawnwyr posibl o gaethwasiaeth fodern i chi yn ystod/ar ôl y cwrs?

Do ☐
Naddo ☐

10. Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o'r ffordd mae'r hyfforddiant wedi newid arferion y mynychwyr mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern?

________________________________________
________________________________________
________________________________________

**Hyfforddiant ar atal caethwasiaeth**

11. O'ch gwybodaeth chi am yr holl gyrsiau hyfforddi atal caethwasiaeth sydd i'w cael yng Nghymru ydych chi'n credu bod unrhyw fylchau yng nghynnwys yr hyfforddiant a gynigir?

Ydw ☐
Nac ydw ☐

12. O’ch gwybodaeth chi am yr holl gyrsiau hyfforddi atal caethwasiaeth sydd i’w cael yng Nghymru ydych chi’n credu bod yna gynulleidfaoedd posibl nad yw eu hanghenion hyfforddi’n cael eu diwallu?

Ydw ☐
Nac ydw ☐

**Atodiad F: Arolwg ar-lein o'r rhai a fynychodd hyfforddiant**

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cordis Bright i gynnal gwerthusiad o hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r llwybr gofal goroeswyr yng Nghymru. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn hoffem glywed gan bobl sydd wedi darparu hyfforddiant ar atal caethwasiaeth, i ddysgu am eich gwybodaeth, sgiliau a'ch profiad o ddarparu hyfforddiant, a'ch canfyddiadau o ba mor briodol a pherthnasol yw'r deunyddiau hyfforddi ac effaith yr hyfforddiant.

Diolch am gwblhau'r holiadur hwn am yr hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a ddarparwyd gennych. Dylai gymryd 5-10 munud i'w gwblhau. Nid ydym yn gofyn am eich enw a dim ond Cordis Bright fydd yn darllen yr ymatebion unigol. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg yw **dydd Gwener 12 Chwefror 2016** fan bellaf.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr holiadur neu'r gwerthusiad ffoniwch Hannah Nickson yn Cordis Bright ar 020 7330 9170 neu e-bostiwch hannahnickson@cordisbright.co.uk

**Manylion cyrsiau**

1. Pa gwrs/gyrsiau hyfforddi atal caethwasiaeth rydych wedi'ch hyfforddi i'w darparu? (Ticiwch bob un perthnasol)

   Sesiwn Dysgu dros Ginio 30-45 munud ☐
   Cwrs ymwybyddiaeth atal caethwasiaeth 3 awr ☐
   Cwrs ymwybyddiaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant ☐
   Cwrs Ymatebwr Cyntaf 1 diwrnod ☐
   Cwrs troseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern 3 diwrnod ☐

2. Pryd fuoch chi ar y cwrs/cyrsiau hyfforddi? (Ticiwch bob un perthnasol)

   2013 ☐
   2014 ☐
   2015 ☐

**Ansawdd yr hyfforddiant**

3. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?
   Graddfa: 1 – anghytuno'n gryf, 2 – anghytuno i ryw raddau, 3 – ddim yn cytuno/anghytuno, 4 – cytuno i ryw raddau, 5 – cytuno'n gryf

   a. Roedd cynnwys y cwrs yn berthnasol i mi.
   b. Roedd lefel y cwrs yn addas ar gyfer fy anghenion.
   c. Roedd yr hyfforddwr yn wybodus am gynnwys y cwrs.
   d. Cyflwynodd yr hyfforddwr yr hyfforddiant mewn ffordd a lwyddodd i ennyn a chynnal fy niddordeb.
   e. Roedd yr adnoddau/deunyddiau a ddarparwyd yn ystod y cwrs yn ddefnyddiol i mi.
   f. Roedd y cwrs yn cyd-fynd â'm disgwyliadau.
   g. Byddwn yn mynychu hyfforddiant pellach ar atal caethwasiaeth yn y dyfodol.

4. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r cwrs/cyrsiau?

____________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________________

## Effaith parhaus yr hyfforddiant

5. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?
Graddfa: 1 – anghytuno'n gryf, 2 – anghytuno i ryw raddau, 3 – ddim yn cytuno/anghytuno, 4 – cytuno i ryw raddau, 5 – cytuno'n gryf

a. Mae'r cwrs wedi cynyddu fy nealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern
b. Mae'r cwrs wedi cynyddu fy ngallu i adnabod dioddefwyr/troseddwyr posibl caethwasiaeth fodern.
c. Mae'r cwrs wedi cynyddu fy hyder i adnabod dioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern.
d. Rwy'n gwybod â phwy i gysylltu i atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern am gymorth/ymchwiliad.
e. Rwy'n teimlo'n hyderus am atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl caethwasiaeth fodern am gymorth/ymchwiliad.
f. Mae'r cwrs wedi cynyddu fy nealltwriaeth a sgiliau i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a chefnogi dioddefwyr/goroeswyr.
g. Mae'r cwrs wedi cynyddu fy hyder i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a chefnogi dioddefwyr/goroeswyr.

I bobl a fynychodd y cwrs 3 diwrnod ar droseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern.

h. Yn sgil y cwrs mae fy sgiliau ymchwilio/erlyn achosion caethwasiaeth fodern wedi gwella.
i. Yn sgil y cwrs mae gen i fwy o hyder i ymchwilio/erlyn achosion caethwasiaeth fodern.

6. Atebwch do neu naddo i'r datganiadau canlynol

a. Ers mynychu'r cwrs rwyf wedi nodi dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern.
b. Ers mynychu'r cwrs rwyf wedi atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr posibl o gaethwasiaeth fodern am gymorth/ymchwiliad.

I bobl a fynychodd y cwrs 3 diwrnod ar droseddu cyfundrefnol a chaethwasiaeth fodern.

c. Ers mynychu'r cwrs rwyf wedi bod rhan o ymchwilio/erlyn achosion o gaethwasiaeth fodern.
d. Ers mynychu'r cwrs rwyf wedi bod yn rhan o fwy nag un achos sydd wedi arwain at ddedfrydu cyflawnwyr yn euog o droseddau caethwasiaeth.

7. Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o'r ffordd mae'r hyfforddiant wedi newid eich arferion mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern?

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

**Chi**

8. Ydych chi wedi'ch lleoli yng…?

| | |
|---|---|
| Nghaerdydd a'r Fro | ☐ |
| Dyfed Powys | ☐ |
| Gwent | ☐ |
| Gogledd Cymru | ☐ |
| Bae'r Gorllewin | ☐ |

9. Ydych chi'n?

| | |
|---|---|
| Swyddog yn yr Heddlu/swyddog gorfodi'r gyfraith | ☐ |
| Erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron | ☐ |
| Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol | ☐ |
| Gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol | ☐ |
| Gweithiwr addysg proffesiynol | ☐ |
| Gweithiwr maes awyr/porthladd | ☐ |
| Disgybl/myfyriwr | ☐ |
| Gweithiwr proffesiynol yn y gymuned a'r sector gwirfoddol | ☐ |
| Aelod o'r cyhoedd/grŵp cymunedol | ☐ |
| Arall | ☐ |

Os arall, nodwch yma:

______________________________________________

10. Os ydych yn weithiwr proffesiynol, i ba sefydliad ydych chi'n gweithio?

______________________________________________

**Atodiad G: Templed astudiaeth achos Llwybr Gofal Goroeswyr**

**Proffil dioddefwyr/goroeswyr**

I gynnwys:

- Nifer y dioddefwyr/goroeswyr a'r berthynas â'i gilydd.
- Ar gyfer pob dioddefwr/goroeswyr:
  - Oedran.
  - Rhyw.
  - Cenedligrwydd.
  - Statws mewnfudo (os yn berthnasol). DS Nodwch a oedd modd i'r dioddefwr/wyr / goroeswr/wyr hawlio arian cyhoeddus ai peidio.
  - Ethnigrwydd.
  - Rhywioldeb (os yn hysbys/perthnasol).

**Cefndir/yr hyn a welwyd**

Cwestiynau allweddol:

- Pa fath(au) o gam-fanteisio yr honnir bod y dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) wedi ei/eu dioddef?
- Pryd ddaeth y dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) i gysylltiad gyntaf â'r cyflawnwr(wyr) honedig?
- Beth oedd y berthynas rhwng y dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) a'r cyflawnwr(wyr) honedig?
- Disgrifiwch y cyswllt parhaus gyda'r cyflawnwr(wyr)?
- Pryd ddaeth y dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) i Gymru (os ydynt yn dramorwyr neu wedi'u masnachu o rywle arall yn y DU)?
- A gawsant eu masnachu'n fewnol yng Nghymru o gwbl?
- Beth oedd eu sefyllfa o ran lle i fyw cyn cael cymorth?
- A oeddynt mewn gwaith/yn yr ysgol/coleg cyn cael cymorth? Os felly, rhowch fanylion.
- Sut oedd y camfanteisio'n effeithio ar y dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) honedig? Yn cynnwys:
  - Effaith gorfforol.
  - Effaith seicolegol.
  - Effaith gymdeithasol.
  - Effaith ar ymddygiad.

**Cymorth a dderbyniwyd cyn defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr**

I gynnwys:

- Pa asiantaeth neu asiantaethau a nododd y dioddefwyr/goroeswyr?
- Ym mha ranbarth roedd y dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) wedi'u lleoli pan gawsant eu nodi (er mwyn i ni wybod gan ba MARAC y cawsant gymorth)
- Pa gymorth mae'r asiantaeth hon neu eraill wedi'i gynnig cyn atgyfeirio i'r Llwybr Gofal Goroeswyr, ac a yw'r dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) wedi manteisio ar hyn?
- A gafwyd atgyfeiriad i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol cyn yr atgyfeiriad i'r Llwybr Gofal Goroeswyr? Os felly, beth oedd y canlyniad?

**Ymchwilio i'r drosedd honedig cyn defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr?**

I gynnwys:

- A gafwyd cysylltiad â'r heddlu o gwbl cyn atgyfeirio i'r Llwybr Gofal Goroeswyr? Os do, rhowch fanylion.

**Cymorth a dderbyniwyd yn sgil defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr**

I gynnwys:

- Unrhyw gymorth a gynigiwyd/ymchwiliad ar ôl atgyfeirio i'r Llwybr Gofal Goroeswyr ond cyn cynnal y MARAC.
- A gynhaliwyd asesiad risg cyn y MARAC? Os do, beth oedd lefel risg y dioddefwr?
- Faint o amser oedd rhwng yr atgyfeiriad a chyfarfod MARAC?
- Beth ddigwyddodd yn y MARAC cychwynnol, yn cynnwys:
    - Asiantaethau a fynychodd ac a gyfrannodd at y cynllun cymorth/ymchwiliad.
    - Gwybodaeth allweddol a rannwyd.
    - Pa asiantaeth/gweithiwr proffesiynol a benodwyd yn weithiwr arweiniol.
    - Asesiadau risg a gwblhawyd a chanlyniadau'r rhain.
    - Camau gweithredu y cytunwyd arnynt, fel tai diogel, symud o'r ardal.
- A wnaed atgyfeiriad drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a beth oedd y canlyniad?
- Unrhyw ddatblygiadau yn yr achos, fel newidiadau yn amgylchiadau'r dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr).
- Sawl gwaith y trafodwyd yr achos yn MARAC ac unrhyw gamau gweithredu ychwanegol.
- Am faint o gyfnod y cynigiwyd cymorth.
- Canlyniad terfynol MARAC/Llwybr Gofal Goroeswyr – e.e. a yw'r achos wedi cau, a yw cymorth yn dal i gael ei gynnig, ac ati.

**Ymchwilio trosedd honedig yn sgil defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr?**

I gynnwys:

- A wnaeth y wybodaeth a rannwyd yn MARAC arwain at ymchwiliad gan yr heddlu? Os do, rhowch fanylion.

**Canlyniadau defnyddio'r Llwybr Gofal Goroeswyr – i ddioddefwyr/goroeswyr ac i ymchwiliad**

I gynnwys:

- Beth oedd canlyniadau darparu cymorth ar gyfer y dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) yn dilyn y MARAC?
- Unrhyw adborth gan y dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) o'r cymorth a gawsant. (DS Gall hyn fod yn adborth a dderbyniodd weithiwr proffesiynol ar y pryd – nid ydym yn disgwyl i chi gysylltu â'r dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) pan fyddwch yn ysgrifennu'r astudiaeth achos).
- Beth oedd canlyniadau unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu, er enghraifft:
  - Cyflawnwr(wyr) honedig a nodwyd.
  - Dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) posibl eraill a nodwyd.
  - Cyflawnwyr honedig a gyhuddwyd/erlynwyd.
  - Asedau a gymerwyd.
- Pa effaith a gafodd y MARAC ar yr asiantaethau cysylltiedig (e.e. rhannu gwybodaeth, cydweithio i gefnogi dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) ac ati)?
- Sut fyddai'r canlyniadau i'r dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr), yr ymchwiliad a'r asiantaethau cysylltiedig wedi bod yn wahanol pe na bai'r dioddefwr(wyr)/goroeswr(wyr) wedi'u hatgyfeirio i'r Llwybr Gofal Goroeswyr?